

**Cais gan Horizon Nuclear Power ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd**

**Cwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio a cheisiadau am wybodaeth (ExQ1)**

**Cyhoeddwyd ar 06 Tachwedd 2018**

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu cwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio (AA) a cheisiadau am wybodaeth – ExQ1. Yn ôl yr angen, mae amserlen yr Archwiliad yn galluogi'r AA i gyhoeddi rownd arall o gwestiynau ysgrifenedig maes o law. Os gwneir hyn, cyfeirir at y rownd bellach o gwestiynau fel ExQ2.

Mae'r cwestiynau wedi'u trefnu gan ddefnyddio fframwaith yn seiliedig ar faterion, sy'n deillio o'r Asesiad Cyntaf o'r Prif Faterion a ddarparwyd fel Atodiad B i lythyr Rheol 6, dyddiedig 25 Medi 2018. Ychwanegwyd cwestiynau at y fframwaith o faterion a amlinellwyd yno wrth iddynt godi o sylwadau ac i fynd i'r afael â'r asesiad o'r cais yn erbyn polisiau perthnasol.

Mae Colofn 2 y tabl y dynodi pa Bartion â Buddiant ac unigolion eraill y mae pob cwestiwn wedi'i gyfeirio atynt. Byddai'r AA yn ddiolchgar pe gallai pob unigolyn a enwir ateb yr holl gwestiynau sydd wedi'u cyfeirio atynt, gan roi ymateb sylweddol neu nodi nad yw'r cwestiwn yn berthnasol iddynt am reswm. Nid yw hyn yn atal unigolyn nad yw cwestiwn wedi'i gyfeirio ato/ati rhag ateb y cwestiwn hwnnw os yw'n berthnasol i'w fuddiannau/buddiannau.

Mae gan bob cwestiwn rif cyfeirnod unigryw sy'n dechrau gydag 1 (sy'n dynodi ei fod o ExQ1), ac yna rhif y mater a rhif y cwestiwn. Er enghraifft, mae'r cwestiwn cyntaf ynghylch materion ansawdd aer ac allyriadau wedi'i nodi fel C1.1.1. Pan fyddwch yn ateb cwestiwn, dechreuwch eich ateb drwy ddyfynnu'r rhif cyfeirnod unigryw.

Os ydych yn ymateb i nifer fach o gwestiynau, bydd atebion mewn llythyr yn ateb y gofyn. Os ydych yn ateb nifer fawr o gwestiynau, byddai o gymorth i'r AA pe byddech yn defnyddio tabl wedi'i seilio ar yr un hwn i drefnu eich ymatebion. Mae fersiwn o'r tabl hwn y gellir ei haddasu ym Microsoft Word ar gael ar gais gan dîm yr achos: cysylltwch ag [Wylfa@pins.gsi.gov.uk](mailto:Wylfa@pins.gsi.gov.uk) a rhowch Wylfa Newydd yn llinell pwnc eich e-bost.

Dylai ymatebion gael eu derbyn erbyn **Dyddiad cau 2: Dydd Mawrth 04 Rhagfyr 2018**

## Abbreviations used

<b>PA2008</b>	<i>The Planning Act 2008</i>	<b>MP Order</b>	<i>The Infrastructure Planning (Model Provisions) Order 2009</i>
<b>Art</b>	<i>Article</i>	<b>NPS</b>	<i>National Policy Statement</i>
<b>ALA 1981</b>	<i>Acquisition of Land Act 1981</i>	<b>NSIP</b>	<i>Nationally Significant Infrastructure Project</i>
<b>BoR</b>	<i>Book of Reference</i>	<b>R</b>	<i>Requirement</i>
<b>CA</b>	<i>Compulsory Acquisition</i>	<b>RR</b>	<i>Relevant Representation</i>
<b>CPO</b>	<i>Compulsory purchase order</i>	<b>SI</b>	<i>Statutory Instrument</i>
<b>dDCO</b>	<i>Draft DCO</i>	<b>SoS</b>	<i>Secretary of State</i>
<b>EM</b>	<i>Explanatory Memorandum</i>	<b>SoCG</b>	<i>Statement of Common Ground</i>
<b>ES</b>	<i>Environmental Statement</i>	<b>SSSI</b>	<i>Site of Special Scientific Interest</i>
<b>ExA</b>	<i>Examining Authority</i>	<b>SoCG</b>	<i>Statement of Common Ground</i>
<b>LIR</b>	<i>Local Impact Report</i>	<b>TP</b>	<i>Temporary Possession</i>
<b>LPA</b>	<i>Local planning authority</i>	<b>TA</b>	<i>Transport Assessment</i>
<b>MP</b>	<i>Model Provision (in the MP Order)</i>		
<b>BCUHB</b>	<i>Bwrdd Lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/Betsi Cadwaladr University Health Board</i>		
<b>CBHG</b>	<i>Camaes Bay History Group</i>		
<b>DAP</b>	<i>Destination Anglesey Partnership</i>		
<b>DcFW</b>	<i>Comisiwn Dylunio Cymru/Design Commission for Wales</i>		
<b>DCWW</b>	<i>Dŵr Cymru/Welsh Water</i>		
<b>GAPS</b>	<i>Gwynedd Archaeological Planning Services</i>		
<b>GCC</b>	<i>Cygnor Gwynedd/Gwynedd County Council</i>		
<b>IACC</b>	<i>Cyngor Dir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council</i>		
<b>IP</b>	<i>Interested Party</i>		
<b>LbCC</b>	<i>Cygnor Cymuned Llanbadrig/Llanbadrig Community</i>		

	<i>Council</i>
<b>LdCC</b>	<i>Cygnor Cymuned LLanddona/Llandonna Community Council</i>
<b>LPCC</b>	<i>Cygnor Cymuned LLangoed a Penmon/LLangoed and Penmon Community Council</i>
<b>MCA</b>	<i>Maritime and Coastguard Agency</i>
<b>NAP</b>	<i>North Anglesey Partnership</i>
<b>NDA</b>	<i>Nuclear Decommissioning Authority</i>
<b>NG</b>	<i>National Grid</i>
<b>NRW</b>	<i>Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales</i>
<b>NWEAB</b>	<i>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru/North Wales Economic Ambition Board</i>
<b>NWFR</b>	<i>Tân ac Achub Gogledd Cymru/North Wales Fire and Rescue</i>
<b>NWP</b>	<i>Heddlu Gogledd Cymru/North Wales Police</i>
<b>NWWT</b>	<i>Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru/North Wales Wildlife Trust</i>
<b>NT</b>	<i>National Trust</i>
<b>PAWB</b>	<i>Pobol Atal Wylfa B/People Against Wylfa B</i>
<b>PHW</b>	<i>Lechyd Choeddus Cymru/Public Health Wales</i>
<b>TAG</b>	<i>Tregele Action Group</i>
<b>VCC</b>	<i>Cyngor Cymuned Fali/Valley Community Council</i>
<b>WG</b>	<i>Llywodraeth Cymru/Welsh Government</i>
<b>WHGT</b>	<i>Welsh Historic Gardens Trust</i>

<b>Location</b>	<b>Reference</b>
General question	<b>Q</b>
The NSIP	
Power station itself	<b>WA</b>
Other on site works at power station	<b>WB</b>
Permanent Marine Works	<b>WC</b>
Temporary Marine Works	<b>WD</b>
Off-site Power Station Facilities	<b>WE</b>
Wylfa Newydd Development Area	<b>WF</b>
Associated development	
Site campus	<b>ADA</b>
Park and Ride	<b>ADB</b>
Logistics Centre	<b>ADC</b>
A5025 Off-line highways	<b>ADD</b>
Improvements	
Ecological Compensation Sites	<b>ADE</b>
Code of Construction Practice	<b>CoCP</b>
Code of Operational Practice	<b>CoOP</b>
Main Power Station Site Sub Code of Construction Practice	<b>MPSSSCoOP</b>
Workforce Accommodation	<b>WAMS</b>
Management Strategy	

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>1.</b>	<b>Ansawdd Aer gan gynnwys Llŵch</b>		
<b>Q1.0.1</b>	Yr Ymgeisydd	WB	Gan gyfeirio at baragraff 5.5.44 Pennod D5 Ansawdd Aer [APP-124] a Ffigur D5-1 APP-237, i ba raddau y byddai hyblygrwydd o ran lleoliad y gwaith trin carthffosiaeth hunangynhwysol arfaethedig, ac a fyddai'r hyblygrwydd hwnnw'n arwain at unrhyw oblygiadau i'r asesiad a wnaed mewn perthynas ag arogleuon?
<b>Q1.0.2</b>	Yr Ymgeisydd	WB	Mae paragraff 1.9.58 Pennod D1 Datblygiad Arfaethedig [APP-120] yn darparu casgliad ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai arogleuon gael eu rhyddhau o'r gwaith trin carthffosiaeth hunangynhwysol arfaethedig, a rhoddir cyd-destun ychwanegol ym mharagraffau 7.4.2 a 7.4.4 yr MPSSCoCP [App-415]. Ceisir manylion pellach ynglŷn â'r math(au) o system trin gwastraff hunangynhwysol sydd wedi arwain at y casgliadau ym mharagraff 1.9.58 ac a fyddai'n dangos addasrwydd yr ymagwedd yn yr MPSSCoCP [App-415].
<b>Q1.0.3</b>	Yr Ymgeisydd	WB	O ran paragraffau 1.9.57 ac 1.9.58 APP-120, a pharagraffau 5.4.18 i 5.4.26 APP-124, a ddylai'r gwaith trin carthffosiaeth fod yn eitem 'waith' wedi'i rhifo ar wahân o fewn y datblygiad?
<b>Q1.0.4</b>	Yr Ymgeisydd	WB	Mae paragraff 5.4.22 Pennod D5 Ansawdd Aer [APP-124] yn cyfeirio at 'fesurau lliniaru ymgorfforedig' a gwaith posibl arall mewn perthynas ag effeithiau posibl arogleuon o Waith Trin Dŵr Gwastraff ('WwTW') presennol Cemaes. Faint o sicrwydd fyddai mewn perthynas â chyflawni'r mesurau lliniaru (a'r gwaith arall) y cyfeirir atynt ym mharagraff 5.4.22?
<b>Q1.0.5</b>	Yr Ymgeisydd a Cyfoeth Naturiol	WB	Mae Datganiad Amgylcheddol (ES) D13 paragraffau 13.5.14-15 yn datgan y byddai gan garthffosiaeth sy'n deillio o adeiladu a charthffosiaeth campws y

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
	Cymru (NRW)		<p>safle gyfradd ryddhau ddyddiol fwyaf o 1,598m<sup>3</sup>. Mae'n ymddangos yn annhebygol y byddai'r cyfraddau rhyddhau yn union yr un fath. [13] A yw hyn yn gywir, a yw'r ddau yr un fath ac a oes angen gosod unrhyw derfynau newydd a'u rheoli trwy ddull addas?</p> <p>A yw NRW yn fodlon y gellir rheoli hyn trwy'r EP?</p>
<b>Q1.0.6</b>	Cyngor Sir Ynys Môn (IACC) ac NRW	Q	<p>Gan gyfeirio at Dabl D5-46 Pennod D5 Ansawdd Aer [APP-124], ac adran 7.5 yr MPSSCoCP [APP-415], mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) yn nodi bod llawer o'r mesurau hyn heb eu diffinio/pennu'n llawn eto, gan gynnwys y lleoliadau monitro a'r safonau allyriadau gweithfeydd (gweler paragraff 7.5.2 [APP-415]).</p> <p>Byddai IACC ac NRW hefyd yn ymwneud â nodi manyleb y gwaith hwn ar ôl caniatâd, a phennu unrhyw "waith modelu ac asesu ychwanegol a fyddai'n cael ei wneud i gefnogi datblygiad y cynllun wrth iddo aeddfedu".</p> <p>Gwahoddir IACC ac NRW i wneud sylwadau ar: b'un a ydynt o'r farn y byddai'n briodol i'r materion hyn gael eu gohirio tan gyfnod diweddarach; a, ph'un a oes digon o sicrwydd y byddant yn cael eu darparu trwy ddarpariaethau'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) ai peidio.</p>
<b>Q1.0.7</b>	Yr Ymgeisydd	WF	<p>Paragraff 1.6.192 <i>Cyfeirnod Cais: 6.4.1 ES Cyfrol D – WNDA Datblygiad D1 – Datblygiad Arfaethedig</i> [REF] O ran plu ager o'r chwe boeler ategol; pa mor aml y byddai'r plu mwy o faint (er enghraifft, hyd at 100m o hyd) yn amlwg? A faint o blu mwy y gellid disgwyl iddynt ddigwydd/bod yn weladwy ar unrhyw un adeg?</p>
<b>Q1.0.8</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Ymatebwch i ymholiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr [RR-076] ynglŷn â sut y byddai'r datblygwr yn sicrhau na fyddai ansawdd aer lleol yn dirywio (yn y tymor byr neu'r tymor hir) a sut y bydd hyn yn cael ei fesur, ei ddilysu a'i werthuso.</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q1.0.9</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Ymatebwch i'r pryderon a fynegwyd gan gynrychiolwyr (gan gynnwys RR-051, RR-52, RR-97, RR-104, RR-002, RR-018, RR-050, RR-054, RR-060 ac RR-063) ynglŷn â'r posibilrwydd o effeithiau o ganlyniad i sŵn, llwch/ansawdd aer, goleuadau a 'llygredd' cyffredinol.
<b>2.</b>	<b>Bioamrywiaeth</b>		
<b>Q2.0.1</b>	IACC ac NRW	WF	A yw IACC ac NRW yn fodlon bod yr asesiadau gwaelodlin ar gyfer Priddoedd a Daeareg ym Mhennod B7 [APP-072] ac Ecoleg Ddaearol a Dŵr Croyw ym Mhennod B9 [APP-074] yn ddigonol?
<b>Q2.0.2</b>	Yr Ymgeisydd	WF	A all yr Ymgeisydd esbonio pa mor hyderus ydyw bod y waelodlin ecolegol, sydd wedi'i seilio'n bennaf ar arolygon ecolegol a gynhaliwyd yn 2016 neu cyn hynny, yn gadarn ac yn addas i lywio'r asesiad o effeithiau?
<b>Q2.0.3</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod A2 [APP-056] paragraff 2.6.1 yn datgan na fyddai'r cyfleuster storio gweddillion tanwydd yn dechrau tan flwyddyn 15. A yw'r Ymgeisydd yn bwriadu cynnal arolygon cyn-adeiladu cyn hyn?
<b>Q2.0.4</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Yn Nhabl 9-7, Pennod B9 [APP-074], tudalen B9-34, mae'r Ymgeisydd yn datgan bod y dull o reoli lefel y dŵr yn Lagŵn Cemlyn yn parhau i gael ei ystyried. A all yr Ymgeisydd esbonio p'un a yw hyn yn angenrheidiol o hyd i liniaru effeithiau arwyddocaol, ac oherwydd bod Bae Cemlyn y tu allan i safle'r cais, sut y byddai'r mesurau hyn yn cael eu sicrhau?
<b>Q2.0.5</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Yn Nhabl 9-7 (Pennod B9, tudalen B9-35), a all yr Ymgeisydd roi diweddariad ar y rhaglen o fonitro proffiliau traeth a newidiadau lefel dŵr o fewn Bae Cemlyn?
<b>Q2.0.6</b>	NRW ac IACC	WA	A yw NRW/IACC yn fodlon â'r trefniadau prydles 15 mlynedd a ddisgrifir ym

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			Mhennod B9 paragraff 9.3.8 ar gyfer yr ardaloedd lliniaru ecolegol?
<b>Q2.0.7</b>	Yr Ymgeisydd	WF	<p>Mae Pennod B9 paragraff 9.4.27 yn esbonio y bydd barn broffesiynol yn cael ei defnyddio i ddod i gasgliadau ynglŷn ag arwyddocâd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod rhai anghysondebau wrth weithredu'r fethodoleg hon ym Mhennod D9, e.e.:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae paragraff 9.5.152 yn nodi newid bach i gen o ganlyniad i golli cynefin ac yn dod i'r casgliad y byddai'r effaith yn ddibwys. Priodolir gwerth 'canolig' i gen yn Nhabl D9-5. Mae'r raddfa arwyddocâd yn Ffigur B1-2 yn dangos y dylai'r cyfuniad hwn arwain at effeithiau bach/cymedrol.</li> <li>• Mae paragraffau 9.5.158-159 yn datgan y byddai llawer o infertebratau'n marw o ganlyniad i glirio llystyfiant ac uwchbridd ac yn sgil cael eu denu i olau. Ac eto, ystyrir bod hyn yn newid bach.</li> <li>• Mae paragraff 9.5.216 yn amlygu'r posibilrwydd o golli poblogaeth gyfan o Frain Coesgoch sy'n bridio, ac eto ystyrir ei fod yn newid canolig yn unig ym mharagraff 9.5.217.</li> <li>• Mae paragraff 9.5.359 yn amlygu newid bach o ran colli a darnio cynefin gwiwerod coch ac yn dod i'r casgliad y byddai'r effaith yn ddibwys. Priodolir gwerth 'canolig' i wiwerod yn Nhabl D9-5. Mae'r raddfa arwyddocâd yn Ffigur B1-2 yn dangos y dylai'r cyfuniad hwn arwain at effeithiau bach/cymedrol.</li> <li>• Mae paragraff 9.5.372 yn nodi newid 'mawr' o ran darnio cynefin draenogod, ac eto mae paragraff 9.5.374 yn israddio'r newid hwnnw i 'fach' heb esboniad.</li> </ul> <p>A all yr Ymgeisydd egluro'r anghysondebau hyn?</p>
<b>Q2.0.8</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Sut byddai'r 'ardaloedd eraill' a amlygir ym Mhennod D9 [APP-128]



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			paragraff 9.3.30 yn cael eu sicrhau yn yr MPSSSCoCP [APP-415]?
<b>Q2.0.9</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Sut byddai'r clustogfeydd o amgylch Twmpath y Fonesig Sylvia Crowe, a ddisgrifir ym Mhennod D9 paragraff 9.4.5, yn cael eu sicrhau?
<b>Q2.0.10</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Sut byddai dim gweithio yn ystod y nos tra bod y safle'n cael ei glirio, a ddisgrifir ym Mhennod D9 paragraff 9.4.7, yn cael ei sicrhau?
<b>Q2.0.11</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D9 paragraff 9.4.18 yn cyfeirio at atodiad D8-8 Crynodeb o ddyluniad rhagarweiniol ar gyfer adeiladu system ddraenio dŵr wyneb [APP-167]. A ddylid cyfeirio at y ddogfen hon yn yr MPSSSCoCP?
<b>Q2.0.12</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D9 paragraff 9.4.24 yn cyfeirio at arolygon cyn-adeiladu a fanylir yn yr MPSSSCoCP. A all yr Ymgeisydd esbonio ble mae'r rhain a sut y byddent yn cael eu sicrhau?
<b>Q2.0.13</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D9 paragraff 9.4.53 yn manylu ar y mesurau draenio sydd wedi'u cynnwys yn yr MPSSSCoCP [APP-415]. A all yr Ymgeisydd gadarnhau ble mae'r rhain wedi'u manylu?
<b>Q2.0.14</b>	NRW	WA	A yw NRW yn fodlon â'r mesurau lliniaru a ddisgrifir yn y Map Llwybr Lliniaru [APP-422] Eitem 0209 ar gyfer diogelu ansawdd dŵr wyneb yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof?
<b>Q2.0.15</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Nid yw NRW yn cytuno â modelu hydroddaearegol yr Ymgeisydd ar gyfer Tre'r Gof ac mae'n credu y gallai dad-ddyfrio achosi difrod sylweddol. Beth yw ymateb yr Ymgeisydd?
<b>Q2.0.16</b>	Yr Ymgeisydd ac NRW	WA	Beth fyddai'r effeithiau ar SoDdGA Tre'r Gof os na ellir gwella'r system ddraenio o gymharu â'r waelodlin, ac a ellir cynnwys gwelliannau pellach yn

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			y datblygiad awdurdodedig?
<b>Q2.0.17</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Ym Mhennod D9 Tabl D9-11, cynigir monitro botanegol tymor hir ar gyfer SoDdGA Tre'r Gof. A all yr Ymgeisydd roi mwy o fanylion ynglŷn â ble y cyflwynir y monitro?
<b>Q2.0.18</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D9 paragraff 9.5.50 yn amlygu nifer o fesurau a weithredir i ddiogelu SoDdGA Tre'r Gof. A all yr Ymgeisydd nodi ble mae'r rhain i gyd wedi'u sicrhau yn yr MPSSSCoCP?
<b>Q2.0.19</b>	NRW	WA	Yn ei RR paragraff 4.4.1 [RR-088], mae NRW o'r farn na roddwyd ystyriaeth ddigonol i liniaru uniongyrchol yn SoDdGA Tre'r Gof. A all NRW awgrymu unrhyw fesurau uniongyrchol ychwanegol i ddiogelu'r SoDdGA?
<b>Q2.0.20</b>	IACC ac NRW	WA	A yw IACC ac NRW yn fodlon y byddai'r trefniadau monitro ansawdd aer a ddisgrifir yn Adrannau 7.5 a 7.6 yr MPSSSCoCP yn ddigonol i warchod SoDdGA Tre'r Gof?
<b>Q2.0.21</b>	NRW, NWWT a'r RSPB	WA	A yw NRW, NWWT a'r RSPB yn cytuno y byddai creu a rheoli glaswelltir porfa fer rhywogaeth gyfoethog a brithwaith o laswelltir/rhostir arfordirol fel y disgrifiwyd ym Mhennod 8.16 [APP-424] paragraffau 6.5.7 a 6.5.12 a rheoli Twmpath A fel y disgrifiwyd yn 5.4.12 yn ddigonol i ddarparu lle delfrydol i Frain Coesgoch chwilota am fwyd?
<b>Q2.0.22</b>	NRW, NWWT, RSPB	WA	A yw NRW, NWWT a'r RSPB yn cytuno y byddai'r mesurau lliniaru a ddisgrifir yn yr MPSSSCoCP 8.3.3 yn ddigonol i warchod safleoedd nythu Brain Coesgoch rhag sŵn adeiladu?
<b>Q2.0.23</b>	Yr Ymgeisydd	WA	A all yr Ymgeisydd nodi ble yn y Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd a'r MPSSSCoCP y rhoddir manylion monitro Brain Coesgoch fel y disgrifir

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			ym Mhennod D9 Tabl D9-10 tudalen 133?
<b>Q2.0.24</b>	NRW	WA	A yw NRW yn fodlon y gellid sicrhau trawsleoli ymlusgiaid (Pennod D9 paragraffau 9.5.189 – 190 a pharagraff 9.5.337) trwy drwydded lliniaru rhywogaethau, neu a ddylai mwy o fanylion gael eu cynnwys yn yr MPSSSCoCP?
<b>Q2.0.25</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Sut byddai'r mesurau ym Mhennod D9 paragraff 9.5.247 i warchod clwydi tylluanod gwynion yn cael eu sicrhau?
<b>Q2.0.26</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Sut byddai'r mesurau i warchod ystlumod, ym Mhennod D9 paragraffau 9.5.294, 9.5.295, 9.5.313 a 9.5.317 yn cael eu sicrhau?
<b>Q2.0.27</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D9 paragraff 9.5.326 yn datgan y byddai pob cwlferf parhaol o ddiamedr priodol ar gyfer dyfrgwn ac yn cynnwys sarnau mamaliaid. Sut byddai hyn yn cael ei sicrhau?
<b>Q2.0.28</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D9 paragraff 9.5.340 yn datgan y byddai'r gwaith adlinio ar gyfer Nant Caerdegog Isaf (Cwrs Dŵr 13) yn cael ei raglennu oddeutu 12 mis cyn ôl-lenwi. Sut byddai hyn yn cael ei sicrhau yn adran 10.2 yr MPSSSCoCP?
<b>Q2.0.29</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D9 paragraff 9.5.350 yn trafod mesurau lliniaru ar ffurf trawsleoli llygod y dŵr. Sut byddai hyn yn cael ei sicrhau yn yr MPSSSCoCP?
<b>Q2.0.30</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D9 paragraff 9.5.486 yn rhoi manylion darpariaethau i liniaru newidiadau posibl mewn ansawdd dŵr yn ystod y cam adeiladu. A yw'r Ymgeisydd yn cynnig unrhyw fesurau lliniaru penodol yn ystod y cam gweithredol?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q2.0.31</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D9 paragraff 9.7.23 yn amlygu SoDdGAau Cors Gwawr a Chae Canol-dydd fel Safleoedd Digolledu Ecolegol. A yw'r Ymgeisydd wedi cynnal asesiadau gwaelodlin o'r safleoedd hyn i farnu llwyddiant tebygol y mesurau digolledu?
<b>Q2.0.32</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D9 Tabl D9-10 yn datgan ar dudalen 133 bod "Monitro wedi'i fanylu ...yn y Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd", ac ar dudalen 140 "Byddai cynefinoedd yn cael eu monitro ac arolygon rhywogaethau'n cael eu cynnal ... yn y Strategaeth Rheoli Ecoleg a Thirwedd". A all yr Ymgeisydd egluro ble y cyflwynir y strategaeth?
<b>Q2.0.33</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D9 tabl D9-10 ar dudalen 136 yn datgan y byddai'r ardal wella oddi ar y safle yn cael ei sefydlu cyn i'r Gwaith Paratoi a Chlirio'r Safle ddechrau. Sut byddai hyn yn cael ei sicrhau?
<b>Q2.0.34</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D9 tabl D9-10 ar dudalen 137 yn datgan "Byddai llystyfiant, uwchbridd a waliau cerrig sych yn cael eu clirio mewn modd cyfeiriadol i annog symudiad mamaliaid nodedig". Sut byddai hyn yn cael ei sicrhau?
<b>Q2.0.35</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D9 tabl D9-10 yn datgan ar dudalen 140 y byddai gwiwerod coch o fewn Twmpath y Fonesig Sylvia Crowe yn cael eu monitro'n flynyddol yn ystod y cam adeiladu. A all yr ymgeisydd egluro ble y cyflwynir y strategaeth fonitro?
<b>Q2.0.36</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae paragraff 4.4.1 yr MPSSSCoOP [APP-415] yn datgan "Bydd goleuadau adeiladu'n cael eu dylunio i leihau gwawl awyr, golau tanbaid a gollyngiad golau ar dderbynyddion sensitif". Heblaw am Dwmpath E, ni roddir lefelau lwcs uchaf. A yw'r Ymgeisydd yn bwriadu datblygu strategaeth oleuo?

<b>Cyfeirnod</b>	<b>Ymatebwr:</b>	<b>Lleoliad:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
<b>Q2.0.37</b>	Yr Ymgeisydd	WA	A ddylai'r dogfennau strategaeth digolledu SoDdGA (Atodiadau D9-23 [APP-190] a D9-24, APP-191]) fod yn ddogfennau ardystiedig y cyfeirir atynt yn y dDCO?
<b>Q2.0.38</b>	RSPB	Q	Yn ei RR [RR-084], mae'r RSPB yn cyfeirio at bapur Opsiynau Ecolegol ar y cyd sy'n amlinellu cyfres o argymhellion ar gyfer safleoedd Natura 2000. A all yr RSPB ddarparu copi o'r papur?
<b>Q2.0.39</b>	RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (NT) ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (NWWT)	WA	Yn ei RR, mae'r RSPB yn pryderu bod y mesurau a ddewiswyd i warchod y nythfa Môr-wenoliaid yn ddiffygiol. Pa fesurau mae'r RSPB/NT/NWWT yn eu hawgrymu nad yw'r Ymgeisydd wedi ymrwymo iddynt?
<b>Q2.0.40</b>	NT	WF	Yn ei RR [RR-053], mae NT yn datgan ei bod yn pryderu ynglŷn â'r diffyg manylion mewn perthynas â monitro amgylcheddol. A all NT ymhelaethu ar y pryderon hyn?
<b>Q2.0.41</b>	IACC	WF	Yn ei RR [APP-020] paragraff 5.7.2, mae IACC yn mynegi pryder nad yw'r effeithiau ar yr amgylchedd naturiol wedi derbyn sylw'n briodol. A all IACC ymhelaethu ar y pryderon hyn?
<b>Q2.0.42</b>	IACC	ADB	Yn ei RR, mae gan IACC bryderon o hyd ynglŷn ag effeithiau ar ecoleg, gan gynnwys llygod y dŵr. A all IACC ymhelaethu ar y pryderon hyn?
<b>Q2.0.43</b>	NRW	WF	Yn ei RR [RR-088] paragraff 4.5.1, mae NRW yn datgan nad yw hyd y cyfnod monitro ôl-adeiladu'n foddhaol. Pa hyd fyddai'n foddhaol ym marn NRW?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q2.0.44</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D7 [APP-126] paragraff 7.4.6 yn datgan "os bydd angen unrhyw ollyngfeydd dŵr budr newydd yn ystod y cam adeiladu neu weithredu, ni fyddent yn effeithio ar unrhyw safleoedd o bwysigrwydd daearegol". Sut byddai hyn yn cael ei sicrhau?
<b>Q2.0.45</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D7 paragraff 7.4.7 yn tybio "byddai'r bibell ollwng newydd yn defnyddio'r sianel goncrit hon cyn belled ag y bo'n ymarferol, ac felly byddai unrhyw waith cloddio yn y ddaeareg leol yn gyfyngedig." Sut byddai hyn yn cael ei sicrhau?
<b>Q2.0.46</b>	Yr Ymgeisydd	ADB	Mae Pennod F7 [APP-272] paragraff 7.4.21 yn datgan y byddai strategaethau atal llygredd yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y cam gweithredu yn unol ag adran 10 Cod Ymarfer Gweithredol Wylfa Newydd. A ddylid cyfeirio hefyd at Adran 10.3 yr is-CoCP Parcio a Theithio [APP-418]?
<b>Q2.0.47</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	Mae Pennod G7 [APP-310] paragraff 7.4.12 yn tybio y byddai uwchbridd ac isbridd a gliriwyd o'r ardal digolledu llifogydd yn cael eu hadfer i'r ardal ar ôl cloddio'r ddaeareg waelodol i ostwng y dirffurf. Sut byddai hyn yn cael ei sicrhau?
<b>Q2.0.48</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	Mae Pennod G7 paragraff 7.4.13 yn datgan y byddai uchder y twmpathau storio uwchbridd yn cael ei gyfyngu i 2m. Sut byddai hyn yn cael ei sicrhau?
<b>Q2.0.49</b>	NRW ac IACC	ADD	A yw NRW ac IACC yn cytuno â'r tybiaethau a wnaed ym Mhennod G9 [APP-312] paragraffau 9.3.4- 9.3.8 ynglŷn â derbynyddion ecolegol, gan fod y data arolwg yn dod o ddwy flynedd yn ôl?
<b>Q2.0.50</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	Mae Pennod G9 paragraff 9.4.4 yn nodi bod gwybodaeth am glirio'r safle wedi'i dangos yn ffigurau G1-2a i G1-2j ((Cyfeirnod y Cais: 6.7.48). A

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			ddylai'r rhain fod yn y Llyfryn?
<b>Q2.0.51</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	A all yr Ymgeisydd egluro pam, ym Mhennod G9 Tablau G9-10 a G9-11, yr ystyriwyd newidiadau i sŵn a dirgryniad mewn perthynas ag ystlumod, dyfrgwn a physgod yn ystod y cam adeiladu, ond dim ond mewn perthynas ag ystlumod yn ystod y cam gweithredu?
<b>Q2.0.52</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	A all yr Ymgeisydd gadarnhau a oes posibilrwydd y gallai'r gwaith ar yr A5025 gael unrhyw effeithiau cyfunol ar dderbynyddion ecolegol?
<b>Q2.0.53</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	Mae Pennod G9 paragraff 9.5.47 yn cyfeirio at ffens lleihau sŵn ar hyd croesfan Afon Alaw. A all yr Ymgeisydd gadarnhau ble y byddai hyn yn cael ei sicrhau yn y Cod Ymarfer Adeiladu?
<b>Q2.0.54</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	Mewn perthynas â gwrthdrawiadau cerbydau yn ystod y cam gweithredu, mae Pennod G9 yn cyfeirio at "fesurau ymgorfforedig, a ddisgrifir yn CoOP Wylfa Newydd....a fyddai'n darparu llwybr diogel o dan y ffordd." (e.e. paragraff 9.5.469.5.64). A all yr Ymgeisydd gadarnhau ble y byddai hyn yn cael ei sicrhau yn y Cod Ymarfer Adeiladu?
<b>Q2.0.55</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	A all yr Ymgeisydd gadarnhau ble y byddai'r holl strategaethau i ddiogelu rhywogaethau a warchodir ac a reolir yn gyfreithlon yn Atodiad G9-10 [APP-334] yn cael eu sicrhau?
<b>Q2.0.56</b>	NRW	ADD	A yw NRW yn fodlon y byddai'r darpariaethau cynefinoedd a'r monitro ôl-adeiladu ar gyfer Madfallod Dŵr Cribog mewn pyllau newydd, yn Nhabl G9-17, yn cael eu sicrhau trwy'r Drwydded Madfallod Dŵr Cribog?
<b>Q2.0.57</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	A all yr Ymgeisydd gadarnhau ble y byddai monitro blychau ystlumod ar ôl adeiladu, fel y disgrifir yn Nhabl G9-10, yn cael ei sicrhau?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q2.0.58</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	Ym Mhennod G9, mae'r tir a gymerir dros dro ar gyfer rhannau 3, 5, a 7 yn llai na hwnnw a gymerir yn barhaol. Yn ogystal, nid yw'r ardaloedd cynefin a gollir, a restrir yn Nhablau G9-12 i 16, bob amser yn cyfateb i'r cynefin a gollir yn barhaol neu dros dro a fanylir yn nhestun Pennod G9. A all yr Ymgeisydd gadarnhau cyfanswm y tir a gymerir dros dro ac yn barhaol ar gyfer y gwaith ar yr A5025?
<b>Q2.0.59</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	A all yr Ymgeisydd gadarnhau cyfanswm y cynefin a ddarperir ar gyfer Madfallod Dŵr Cribog yn Rhan 3, gan nad yw'n eglur p'un a yw'r pyllau a ddisgrifir ym Mhennod G9 paragraffau 9.6.5 a 9.6.6 yr un peth.
<b>Q2.0.60</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	A all yr Ymgeisydd egluro sut y byddai'r mesurau lliniaru a ddisgrifir ym Mhennod G9 paragraffau 9.6.5, 9.6.6 a 9.6.10 yn cael eu sicrhau?
<b>Q2.0.61</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	A all yr Ymgeisydd gadarnhau bod y Cynllun Tirwedd yn Atodiad G10-9 [APP-344] a gofynion dDCO OH9 ac OH10 [APP-029] yn bodloni'r gwelliannau ar gyfer rhywogaethau a grwpiau a ddisgrifir ym Mhennod G9 paragraffau 9.7.6 a 9.7.7, ac nid dim ond ar gyfer llygod y dŵr?
<b>Q2.0.62</b>	NRW	ADD	A all NRW egluro pam mae'n awgrymu bod angen i'r tir a amlygwyd ar gyfer mesurau lliniaru a/neu ddigolledu gael ei fonitro a'i reoli yn y tymor hir i sicrhau na fyddai'r prosiect yn niweidiol i gynnal a chadw Statws Cadwraeth Ffafirol rhywogaethau yr effeithir arnynt?
<b>Q2.0.63</b>	NRW	WF	Mae paragraff 4.4.3 yr MPSSSCoCP [APP-415] yn datgan na fyddai unrhyw oleuadau'n cael eu defnyddio ar gyfer yr Ardaloedd Gemau Amldefnydd (MUGAs) ar ôl 21:00 o'r gloch yn ystod misoedd y gaeaf i atal golau rhag tresmasu ar ysgubor ystlumod Tyn-y-Maes a'r ardal liniaru ecolegol gerllaw. O ystyried y byddai'n tywyllu'n gynharach na hynny yn ystod misoedd y



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			gaeaf, a ydych chi'n credu bod y cyrffyw 21:00 arfaethedig yn briodol neu a ddylai fod yn gynharach? Os felly, pa amser?
<b>Q2.0.64</b>	NRW and IACC	WF	A yw'r lefelau sbardun ar gyfer llwch wrth dderbynyddion ecolegol a amlinellir ym mharagraff 7.6.6 yr MPSSSCoCP[APP-415] yn briodol? Os ydych chi'n credu y dylid defnyddio lefelau sbardun gwahanol, rhwch fanylion/esboniad pellach.
<b>Q2.0.65</b>	NRW ac IACC	WF	Mae paragraff 7.6.9 yr MPSSSCoCP [APP-415] yn nodi'r camau a fyddai'n cael eu cymryd pe byddai'r lefelau sbardun yn cael eu croesi. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys gofyniad i roi'r gorau i weithio ar hyn o bryd – a ddylai gynnwys gofyniad o'r fath ac, os felly, pam?
<b>Q2.0.66</b>	NRW	ADB	A allwch chi gadarnhau eich bod yn fodlon â'r mesurau arfaethedig i ymdrin â moch daear, ystlumod a llygod y dŵr fel yr amlinellir yn adran 11 yr Is-CoCP Parcio a Theithio [APP-418]?
<b>3.</b>	<b>Newid yn yr Hinsawdd a Chydnerthedd</b>		
<b>Q3.0.1</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Ymdrinnir â'r newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu yn Adran 5.6 y Datganiad Cynaliadwyedd [APP-426], ond nid yw'n ymddangos bod yr ymagwedd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion EN-1 ac EN-6. Mae Adran 5.6 yn esbonio sut y byddai'r prosiect yn helpu i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac yn darparu mesurau lliniaru yn ystod y cam adeiladu, ond nid oes cymaint o fanylion am ymaddasu. A all yr Ymgeisydd ddangos sut y byddai paragraffau 4.8.6 - 4.8.8, 4.8.10 a 4.8.12 EN1 yn cael eu bodloni?
<b>Q3.0.2</b>	Yr Ymgeisydd	ADA	Yn yr adroddiad Carbon ac Ynni [APP-423], Methodoleg Ôl Troed Carbon, mae Ffigur 4-4 yn dangos bod Adeiladu'n cynnwys gweithrediad y Campws, ond mae Tabl 4-1 yn cynnwys defnydd o ynni gan beiriannau adeiladu yn unig. Mae Ffigur 5-5 yn cynnwys y Campws. A all yr Ymgeisydd gadarnhau

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			ble yr ymdriniwyd ag effeithiau gweithredol y Campws?
<b>Q3.0.3</b>	Yr Ymgeisydd	WC	A all yr Ymgeisydd esbonio sut mae ymchwydd storm posibl o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd wedi derbyn sylw er mwyn diogelu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol (MOLF) a'r Orsaf Bŵer?
<b>4.</b>	<b>Gorchymyn Caniatâd Datblygu</b>		
	<b>Rhan 1</b>		<b>RHAGARWEINIOL</b>
	<b>Rhan 2</b>		<b>PRIF BWERAU</b>
<b>Q4.0.1</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<b><u>Erthygl 4 – Terfynau Gwyro</u></b> Cyfiawnhewch yr hyblygrwydd a ddarperir gan yr erthygl hon.
<b>Q4.0.2</b>	Cyngor Sir Ynys Môn	WF	<b><u>Erthygl 5 – Effaith y Gorchymyn ar y Caniatâd Paratoi Safle</u></b>  A yw Cyngor Sir Ynys Môn, fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), yn fodlon â'r mecanweithiau a gynigiwyd i alluogi rhyngwyneb rhwng y caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith paratoi'r safle ac awdurdodiad o dan y DCO ar gyfer Gwaith Rhif 12?
<b>Q4.0.3</b>	Cyngor Sir Ynys Môn	WF	<b><u>Erthygl 5 – Effaith y Gorchymyn ar y Caniatâd Paratoi Safle</u></b> A yw'r gofynion a bennir yn Atodlen 3 yn cyfateb i'r amodau cynllunio?
<b>Q4.0.4</b>	Cyngor Sir Ynys Môn	WF	<b><u>Erthygl 5 – Effaith y Gorchymyn ar y Caniatâd Paratoi Safle</u></b> A fyddai unrhyw ganlyniadau anfwriadol i allu'r ACLI i orfodi/a fyddai unrhyw ansicrwydd? – e.e. os yw Horizon yn cyflwyno hysbysiad i Gyngor Sir Ynys Môn yn ei hysbysu ei fod yn bwriadu ymgymryd â gwaith paratoi a chlirio'r safle a'i gwblhau o dan y DCO ac felly byddai <u>holl</u> amodau'r caniatâd cynllunio yn dod yn anorfodadwy, a oes unrhyw amodau y mae angen iddynt fod ag oes y tu hwnt i'r caniatâd cynllunio?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
Q4.0.5	Yr Ymgeisydd	Q	<b><u>Erthygl 6 - Cynnal a chadw'r datblygiad awdurdodedig</u></b> Cyfiawnhewch yr hyblygrwydd a ddarperir gan yr erthygl hon.
Q4.0.6	Cyngor Sir Ynys Môn	Q	<b><u>Erthygl 10 - Amddiffyniad i achosion mewn perthynas â niwsans statudol</u></b>  A yw Cyngor Sir Ynys Môn, fel Awdurdod Iechyd yr Amgylchedd, yn fodlon â'r amddiffyniad a ddarperir gan erthygl 10 – h.y. bod mesurau lliniaru digonol ar gyfer niwsans a achosir gan sŵn, llwch, dirgryndod, llwch neu oleuadau a gynigir gan y Codau Ymarfer Adeiladu (CoCPs).
Q4.0.7	Cyngor Sir Ynys Môn	Q	<b><u>Erthygl 10 – Amddiffyniad i achosion mewn perthynas â niwsans statudol</u></b> A yw Cyngor Sir Ynys Môn, fel Awdurdod Iechyd yr Amgylchedd, yn dymuno gwneud sylwadau ar y Datganiad o Niwsansau Statudol (APP-052)
	<b>Rhan 3</b>		<b>STRYDOEDD</b>
Q4.0.8	Cyngor Sir Ynys Môn/ Yr Awdurdod Priffyrdd	Q	Cadarnhewch fod yr holl strydoedd a restrwyd yn rhannau 1 a 2 o Atodlen 5 (Strydoedd sy'n destun newid cynllun) yn gywir?
Q4.0.9	Cyngor Sir Ynys Môn a'r Ymgeisydd	Q	<b><u>Erthygl 11 - Pŵer i newid cynllun ac ati strydoedd a Gwaith Stryd</u></b> <b><u>Erthygl 12</u></b>  11 (5) a 12 (3) (a) A all yr ymgeisydd gadarnhau a yw'r diwrnodau y cyfeirir atynt yn ddiwrnodau gwaith neu'n ddiwrnodau olynol? (b) A chynhaliwyd trafodaethau, ac a ddaethpwyd i gytundeb gyda Chyngor Sir Ynys Môn, fel awdurdod priffyrdd lleol, ynglŷn â chaniatâd tybiedig ar gyfer ceisiadau ar ôl 56 diwrnod?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q4.0.10</b>	Cyngor Sir Ynys Môn	Q	A ydych chi'n ystyried ei bod yn angenrheidiol cau/diddymu'r strydoedd a restrwyd yn Atodlen 6?
<b>Q4.0.11</b>	Cyngor Sir Ynys Môn a Phartion â Buddiant	Q	A ydych chi o'r farn fod cau neu ddileu mynedfeydd preifat a restrwyd yn Atodlen 7 yn angenrheidiol?  Os nad ydych, rhestrwch y strydoedd perthnasol na ddylid eu cynnwys ac esboniwch pam?
<b>Q4.0.12</b>	Cyngor Sir Ynys Môn a'r Ymgeisydd	Q	<b>Erthygl 16 - Cau Strydoedd Dros Dro ac Erthygl 18 – Mynedfa i Waith</b>  A yw'r 28 diwrnod y cyfeirir atynt yn 16 (8) ac 18(2) yn ddiwrnodau gwaith neu'n ddiwrnodau olynol?  A oes trafodaethau wedi'u cynnal gyda Chyngor Sir Ynys Môn, ac a ddaethpwyd i gytundeb gyda'r Cyngor, fel yr awdurdod priffyrdd lleol, ynglŷn â chaniatâd tybiedig ar gyfer ceisiadau ar ôl 28 diwrnod yn 16(8) o gofio y byddai hyn y tu allan i'r broses statudol arferol?  O ystyried y diffiniad o 'stryd' o dan Erthygl 2 (Dehongli) pa 'hawliau tramwy cyhoeddus eraill' y gellir eu cau dros dro? A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn fodlon y byddai hyn yn angenrheidiol?
<b>Q4.0.13</b>	Yr Ymgeisydd a Chyngor Ynys Môn	Q	A oes unrhyw wahaniaethau rhwng y cyfyngiadau arfaethedig a'r rheiny a fyddai'n berthnasol o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984? Os oes, sut maent yn cymharu?
<b>Q4.0.14</b>	Yr Ymgeisydd a Phartion â	Q	<b>Erthygl 17 - Defnyddio Ffyrdd Preifat ar gyfer Adeiladu</b>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
	Buddiant		<p>17 – Pa ffyrdd preifat y bwriedir eu defnyddio o fewn terfynau'r gorchymyn yn ystod y cyfnod adeiladu ac a oes trafodaethau wedi'u cynnal, ac a daethpwyd i gytundeb gyda pherchnogion y ffyrdd hyn ynglŷn â'u defnyddio?</p> <p>A all yr ymgeisydd gadarnhau y byddai materion gwahanu ardaloedd/ mynediad?</p>
<b>Q4.0.15</b>	Cyngor Sir Ynys Môn	Q	<p><b><u>Erthygl 19 - Adeiladu a Chynnal a chadw strydoedd newydd a strydoedd a newidiwyd</u></b></p> <p>19 – A oes trafodaethau wedi'u cynnal, ac a daethpwyd i gytundeb ynglŷn â'r cynigion cynnal a chadw 12 mis arfaethedig ar ôl cwblhau?</p>
	<b>Rhan 4</b>		<b>PWERAU ATODOL</b>
	<b>Rhan 5</b>		<b>PWERAU CAFFAEL</b>
<b>Q4.0.16</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mewn perthynas â Chaffael Gorfodol a chan gyfeirio at y sylwadau gan Magnox Limited [RR-013], a oes unrhyw wrthdaro posibl wedi'i nodi gyda'r Drwydded Safle Niwclear a roddwyd o dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear?
<b>Q4.0.17</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Gan gyfeirio at y sylwadau gan SP Energy Networks [RR-014], rhowch ddiweddariad ar y cyd-drafodion mewn perthynas â'r darpariaethau amddiffynnol arfaethedig o fewn Atodlen 15. Mae hyn i gynnwys diweddariadau mewn perthynas â chyd-drafodion ag SP Energy Networks ac unrhyw bartion eraill. Wrth wneud hynny, a wnewch chi gadarnhau unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i'r darpariaethau amddiffynnol drafft o fewn Atodlen 15.

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q4.0.18</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Ymatebwch i'r materion a godwyd mewn perthynas â chaffael gorfodol gan Davis Meade Property Consultants ar ran MW, EW, & M Harper [RR-048].
<b>Q4.0.19</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Ymatebwch i'r materion a godwyd mewn perthynas â chaffael gorfodol gan Davis Meade Property Consultants ar ran Meistri G ac I Hughes [RR-122].
<b>Q4.0.20</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Ymatebwch i faterion a godwyd yn y sylwadau gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol [RR-053], ynglŷn â thir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chaffael Gorfodol arfaethedig. Cyfeiriwch ymhle yn y cais y mae gwybodaeth wedi'i darparu ynghylch a yw tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn destun Caffael Gorfodol arfaethedig.
<b>Q4.0.21</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Ymatebwch i'r materion a godwyd gan Lywodraeth Cymru [RR-092] mewn perthynas â nodi Tir y Goron a'r tir y cyfeiriwyd ato yn y sylwadau.
<b>Q4.0.22</b>	Yr Ymgeisydd	ADC	Ymatebwch i'r materion a godwyd gan Network Rail [RR-089] mewn perthynas â'r Caffael Gorfodol arfaethedig o'r hawliau/tir y cyfeiriwyd atynt yn y sylwadau.
<b>Q4.0.23</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mewn perthynas â'r Llyfr Cyfeirio, [Rhif Cyfeirnod Cais 4.3 Rhannau 1, 2 a 3], gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu Atodlen Gwrthwynebiadau Caffael Gorfodol wedi'i chwblhau. (Gweler yr enghraifft yn Atodiad A y ddogfen hon)
<b>Q4.0.24</b>	Yr Ymgeisydd	Q	I Gaffael Gorfodol gael ei gynnwys mewn DCO, mae a.122 Deddf 2008 yn datgan bod rhaid bodloni'r amodau yn a.122 (2) a (3). Eglurwch y cyfeirnod coll (datgenir ar hyn o bryd fel " <b>Error! Reference source not found</b> ") ym mharagraff 9.2.4 o'r Datganiad Rhesymau (APP-032).
<b>Q4.0.25</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae Rheoliad 6(2) o Offeryn Statudol 2015 Rhif.462 (" <i>Rheoliadau Cynllunio</i> ")

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<i>Seilwaith (Partion â Buddiant a Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol 2015</i> ) yn datgan bod rhaid gweithredu caffaeliad gorfodol o fewn 5 mlynedd trwy gyflwyno 'hysbysiad i drafod telerau' o dan adran 5 Deddf Prynu Gorfodol 1965. Darparwch fanylion am sut fyddai'r ymgeisydd yn talu cost y caffaeliad gorfodol arfaethedig o fewn y raddfa amser honno.
<b>Q4.0.26</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae Erthygl 28(2) yn datgan "..., <i>nid oes unrhyw beth yn y paragraff hwn yn atal yr ymgwymerwr rhag parhau â meddiant o dir ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw, os...</i> ". Rhowch fwy o eglurder ynghylch diben a bwriad y ddarpariaeth hon.
<b>Q4.0.27</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Cadarnhewch ddiben cynnwys, a'r rheswm dros gynnwys Erthygl 29 (6)(a).
<b>Q4.0.28</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amlinellu diben Erthygl 31. A yw hyn yn rhoi digon o sicrwydd i'r rheiny a fyddai'n destun caffael gorfodol? Os nad ydyw, pam?
<b>Q4.0.29</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae Erthyglau 31 a 32 wedi'u cyfyngu i 'isbridd', a defnyddir y term mewn man arall yn y DCO drafft. A ddylid diffinio 'isbridd' o dan Erthygl 2? Os mai 'isbridd' yw'r pridd sydd yn uniongyrchol o dan y pridd wyneb (neu uwchbridd), a oes sicrwydd ynglŷn â'r deunydd o dan lain 88 ac mewn lleoliadau eraill? Os nad oes, a ddylai'r drafft gynnwys '...craig a/neu isbridd...'?
<b>Q4.0.30</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Darparwch fanylion pellach, yng nghyd-destun y Memorandwm Esboniadol, am yr ymagwedd a amlinellir yn Erthyglau 33(6)&(9) a goblygiadau posibl penderfyniad o'r fath o ran cyflawni'r datblygiad arfaethedig.
<b>Q4.0.31</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae Erthygl 35(4) yn cynnwys y canlynol "... <i>rhaid i'r ymgwymerwr naill ai gaffael y tir o dan baragraff 1(a) neu,...</i> ". Esboniwch gyd-destun a natur y caffaeliad y cyfeirir ato.

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q4.0.32</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Erthygl 39 – Esboniwch rif yr erthygl y cyfeirir ati yn y testun "...y mae erthygl 3838 (Cyfarpar a hawliau ymgwymerwyr statudol mewn strydoedd sydd wedi'u cau) neu Ran 3 o Ddeddf 1991 yn berthnasol...". Ai erthygl 38 ydyw fel y datganwyd yn y rhan berthnasol o'r Memorandwm Esboniadol?
<b>Q4.0.33</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae paragraff 2(3)(b) o Atodlen 12 y DCO drafft yn cynnwys testun newydd arfaethedig ar gyfer adran 58 Deddf Iawndal Tir 1973. Ymddengys bod y testun newydd arfaethedig yn cael yr effaith o gynnwys cyfyngiad a fyddai'n achosi i baragraff olaf adran 58 i fod yn berthnasol i adran 58(1) b yn unig. Cyfiawnhewch hyn neu darparwch ddrafft amgen fel bod 51 (a) yn dal yn weithredol.
<b>Q4.0.34</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae paragraff 3(2)(b) yn cyfeirio at "...baragraff 10 o Atodlen 13 i Orchymyn (Gorsaf Bŵer Niwclear) Wylfa Newydd...". A oes angen cywiro'r cyfeiriad hwn gan yr ymddengys nad oes paragraff 10 yn Atodlen 13?
<b>Q4.0.35</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae paragraff 10.21 o'r Memorandwm Esboniadol (Rhif Cyfeirnod Cais 3.3 Diwygiad 2.0) yn nodi bod Atodlen 12 yn cynnwys addasiadau i ehangu darpariaethau iawndal a chreu hawliau newydd a phennu cyfamodau cyfyngol. Crynowch yr addasiadau hyn a rhowch fwy o fanylion ar eu heffeithiau, gan gynnwys y rheiny ym mharagraff 6 o Atodlen 12 arfaethedig mewn perthynas ag adran amnewid 8.
	Rhan 6		<b>GWAITH MOROL</b>
<b>Q4.0.36</b>	Yr Ymgeisydd	WC / WD	<b><u>Erthygl 43 – Ymgorffori Deddf 1847</u></b> Esboniwch yr effaith ymarferol o beidio ag ymgorffori adrannau 3A i 34, 36, 40 i 50, 59, 60, 67, 71-72, 77 i 82, 85, 89, 91 to 99, 101, 102, a 104 Deddf 1847 yn erthygl 43 (1) y DCO



<b>Cyfeirnod</b>	<b>Ymatebwr:</b>	<b>Lleoliad:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
<b>Q4.0.37</b>	Yr Ymgeisydd	WC / WD	<b><u>Erthygl 43 – Ymgorffori Deddf 1847</u></b> Darparwch destun adrannau 35, 37, 39 a 69 Deddf 1847 fel y'i newidiwyd gan erthygl 43 (2) i (5)
<b>Q4.0.38</b>	Yr Ymgeisydd	WC / WD	<b><u>Erthygl 43 – Ymgorffori Deddf 1847</u></b> Esboniwch effaith ymarferol dehongli diffiniadau penodol yn Neddf 1847 yn unol ag erthygl 43 (6)
<b>Q4.0.39</b>	Yr Ymgeisydd	WC / WD	<b><u>Erthygl 43 – Ymgorffori Deddf 1847</u></b> Esboniwch ymhellach pa ddirwyon a fforffediadau y gellid eu hadennill, sut a chan bwy (erthygl 43 (7))
<b>Q4.0.40</b>	Yr Ymgeisydd	WC / WD	<b><u>Erthygl 49 Cynnal gwaith morol</u></b> Darparwch gyfiawnhad pellach dros y pŵer i 'gynnal' ['maintain'] y gwaith morol – o ystyried ystyr "maintain" ["cynnal"] fel yr amlinellir yn Erthygl 2:
<b>Q4.0.41</b>	Yr Ymgeisydd	WC / WD	<b><u>Erthygl 50 – Gwaith atodol</u></b> Cadarnhewch p'un a yw'r gwaith atodol wedi'i nodi yn Atodlen 1 (datblygiad awdurdodedig) a'i fod felly yn destun gofynion ac yn dod o dan y profiso na ddylai unrhyw waith arall "sy'n angenrheidiol neu'n gyfleus" beri unrhyw effeithiau amgylcheddol newydd sylweddol neu wahanol sylweddol i'r rheiny a aseswyd fel y'u hamlinellwyd yn y Datganiad Amgylcheddol.
<b>Q4.0.42</b>	Yr Ymgeisydd	WC / WD	<b><u>Erthygl 50 – Gwaith Atodol</u></b> Darparwch gyfiawnhad pam ei bod yn "angenrheidiol ac yn gyfleus" i gael y pŵer i gyflawni pob un o'r gweithiau a nodwyd yn Erthygl 50.

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
Q4.0.43	Cyfoeth Naturiol Cymru	WC / WD	<p><b><u>Erthygl 53 Pŵer i garthu</u></b></p> <p>Mae'r ymgeisydd yn egluro</p> <p><i>Mae Erthygl 53 yn rhoi'r hawl i Horizon garthu o fewn terfynau'r harbwr at y diben o adeiladu, cynnal a gweithredu'r Gwaith Morol. Mae'r pwerau hyn dan reolaeth y gofynion a bennwyd yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 i gael trwyddedau morol. <u>Yn ogystal</u>, mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth Cyfoeth Naturiol Cymru i ollwng unrhyw ddeunydd carthu islaw cymedr penllanw mawr, a gellir rhoi'r gymeradwyaeth hon yn amodol ar amodau a chyfyngiadau.</i></p> <p>Beth yw'r gymeradwyaeth ychwanegol i ollwng deunydd carthu y cyfeirir ati gan yr ymgeisydd a beth sydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ei ystyried cyn rhoi'r gymeradwyaeth hon?</p> <p>Gan ystyried y materion sy'n berthnasol i benderfynu ar drwydded forol (adran 69 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir) a yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon y gellir darparu amodau a chyfyngiadau digonol ar y pŵer i garthu yn y drwydded forol (ac unrhyw ganiatâd arall i ollwng deunydd carthu) ac nad oes angen unrhyw reolaethau pellach yn y DCO mewn perthynas â charthu?</p>
Q4.0.44	Trinity House	WC/ WD	<p><b><u>Erthyglau 56, 57, 58, 59, 71</u></b></p> <p>A yw Trinity House yn fodlon gyda drafft a diben Erthyglau 56, 57, 58, 59 a 71? Os nad ydyw, pam?</p>
Q4.0.45	Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y	WC/ WD	<p><b><u>Erthygl 59 - Diogelwch Mordwyo</u></b></p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
	Glannau		A yw Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn fodlon gyda drafft a diben Erthygl 59? Os nad ydyw, pam?
<b>Q4.0.46</b>	Yr Ymgeisydd	WC/ WD	<b><u>Erthygl 61 – Is-ddeddfau</u></b>  Ai'r bwriad yw caniatáu i'r holl gychod y cyfeirir atynt yn is-baragraff (i) i weithredu yn yr harbwr?
	Rhan 7		<b>AMRYWIOL A CHYFFREDINOL</b>
<b>Q4.0.47</b>	Yr Ymgeisydd; Cyngor Sir Ynys Môn; Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd	Q	Erthygl 72: Esboniwch a chyfiawnhewch pam, o ystyried yr ymchwilio archaeolegol sylweddol sydd wedi'i wneud, ei bod yn angenrheidiol cyflwyno gweithdrefn arbennig ar gyfer symud olion dynol? Nodwch unrhyw leoliadau lle credir bod potensial i ddarganfod olion dynol nad ydynt wedi'u nodi eto.
<b>Q4.0.48</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Erthygl 73: Esboniwch pam ei bod yn angenrheidiol i "ddiogelu unrhyw gytundeb a wneir gan Horizon yn unol â'i hawliau o dan erthygl 9(1)(b) (caniatâd i drosglwyddo budd Gorchymyn) fel na all unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall addasu neu rwystro hawliau a rhwymedigaethau'r partion o dan unrhyw gyfryw brydles neu gytundeb". Ym mha amgylchiadau allai gael ei chymhwyso?
<b>Q4.0.49</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Erthygl 74: Esboniwch drwy gyfiawnhau'r amgylchiadau posibl pan allai fod yn angenrheidiol cyflawni datblygiad 'a ganiateir' o fewn Tir y Gorchymyn ar dir y diffiniwyd yn 'weithredol' o dan bwerau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 mewn perthynas â Dosbarth B (ymgymeriad harbwr) a Dosbarth G (ymgymerwyr trydan) o dan Rhan B y gorchymyn gweithdrefn ddatblygu cyffredinol (GDPO). Pam mae'n angenrheidiol i geisio hawliau datblygu a ganiateir a pham na roir caniatâd i'r datblygiad potensial hwn drwy'r DCO?
<b>Q4.0.50</b>	Cyngor Sir Ynys	Q	Erthygl 74: a yw'r awdurdod cynllunio lleol yn fodlon fod y tir o fewn

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
	Môn		cyfyngiadau'r Gorchymyn yn cael ei drin fel 'tir gweithredol' a bod hawliau datblygu a ganiateir o dan (a) Rhan 17 Atodlen 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995; a (b) Dosbarth B (ymgymeriadau harbwr) a Dosbarth G (ymgymerwyr trydan) o dan Ran B o'r GDPO yn cael eu cymhwyso?
<b>Q4.0.51</b>	Cyngor Sir Ynys Môn	Q	Erthygl 75: a yw'r awdurdod cynllunio lleol yn fodlon gyda datgymhwyso Rheoliadau Perthi 1997 fel y cynigiwyd?
<b>Q4.0.52</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Erthygl 76: (a) eglurwch fod pob un o bedair cyfrol y Datganiad Dylunio a Mynediad wedi'u cynnwys ar gyfer ardystio; a (b) cywirwch y dyblygiad 'Wylfa Newydd CoCP'.
<b>Q4.0.53</b>	Cyngor Sir Ynys Môn	Q	Erthygl 77: a yw'r awdurdod cynllunio lleol yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau?
<b>Q4.0.54</b>	Atodlenni (Y cyfan fel yr ymwnânt ag Erthyglau ar wahân y DCO)		
		<b>Atodlenni</b>	
<b>Atodlen 2</b>			
<b>Q4.0.55</b>	Cyngor Sir Ynys Môn	Q	A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn fodlon fod y cynlluniau cymeradwy a restrwyd yn Atodlen 2 yn gywir ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau a allai fod wedi'u gwneud ers i'r cais gael ei gyflwyno?
<b>Atodlen 3</b>			
<b>Q4.0.56</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Dylid esbonio sut mae pob gofyniad yn bodloni'r profion ar gyfer amodau cynllunio (sef y dylid cyfyngu arnynt gymaint â phosibl a'u gorfodi dim ond pan fyddant yn angenrheidiol, yn berthnasol i gynllunio ac i'r datblygiad sydd i'w ganiatáu, yn orfodadwy, yn fanwl gywir ac yn rhesymol ym mhob

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			ffordd arall)
Q4.0.57	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Mae 3 (4) yn ceisio cyfyngu'r graddau y gallai cymal atodol (<i>tailpiece</i>) (neu eiriad arall) ganiatáu newidiadau i'r cynllun cymeradwy i'r newidiadau bach neu ddibwys hynny yn unig sydd wedi bod yn destun AEA.</p> <p>Tynnir sylw'r ymgeisydd at:</p> <p>Adran 17 Nodyn Cyngor 15  <a href="https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/uploads/2014/10/advice_note_15_version_1.pdf">https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/uploads/2014/10/advice_note_15_version_1.pdf</a>  <i>R. (on the application of Hubert) v Carmarthenshire CC Queen's Bench Division (Administrative Court), 05 Awst 2015</i>  <i>R. (on the application of Midcounties Co-operative Ltd) v Wyre Forest DC Queen's Bench Division (Administrative Court) 27 Mawrth 2009</i></p> <p>O ystyried yr uchod, rhowch sylwadau ar bob gofyniad sy'n darparu hyblygrwydd o ran cymeradwyo ac amrywio manylion terfynol, boed hynny trwy ddefnyddio cymal atodol ai peidio (er enghraifft PR3, sy'n ymddangos fel petai'n cael yr un effaith â chymal atodol yn yr ystyr y byddai'n caniatáu i'r ymgeisydd ddiwygio/newid dyluniad a gosodiad y cyfleuster parcio a theithio arfaethedig yn ddiweddarach).</p> <p>Dylai'r sylwadau hyn gyfiawnhau pam mae'r hyblygrwydd yn angenrheidiol a chadarnhau na fyddai'n galluogi'r ACLI i ganiatáu datblygiad sylweddol wahanol i hwnnw a aseswyd yn yr ES ac a bennwyd gan baramedrau'r DCO yn y lluniadau dylunio manwl (gan felly osgoi'r angen i geisio awdurdodiad am newid trwy adran 153 Deddf Cynllunio 2008) neu roi'r gorau'n gyfan gwbl i'r angen am unrhyw gynllun. Gofynnir i'r ymgeisydd hefyd ystyried Rheoliadau 18 i 19 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009 a'r diffiniad o "gais dilynol", ac ystyried p'un a oes</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			angen i unrhyw ran o'r DCO (e.e. Erthygl 79 ac Atodlen 18) a'r gofynion gael eu newid o ganlyniad.
<b>Q4.0.58</b>	Cyngor Sir Ynys Môn	Q	PW7 / PW8 – Byddai'r broses o adeiladu'r datblygiad awdurdodedig yn cael ei rheoli trwy naill ai God Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd [8.6] neu God Ymarfer Adeiladu penodol [8.7-8.13]. A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn fodlon ar y manylion a gynhwysir yn y dogfennau hyn?
<b>Q4.0.59</b>	Yr Ymgeisydd	Q	1 (5) Sut mae awyrellau, cyrn simnai a ffliwiau'n derbyn sylw yn Erthygl 3 (1) (5) – a ydynt yn wedi'u cynnwys neu eu heithrio o amlen yr adeiladu?
<b>Q4.0.60</b>	Yr Ymgeisydd	Q	PW6 – mae'n gwarchod adar gwyllt sy'n bridio yn benodol. Pam nad yw'r un amddiffyniadau'n cael eu cynnig ar gyfer rhywogaethau eraill a warchodir, fel Madfallod Dŵr Cribog, Ystlumod ac ati
<b>Q4.0.61</b>	Yr Ymgeisydd a Chyngor Sir Ynys Môn	Q	PW8 – mae'n ymddangos na fyddai angen i God Ymddygiad Wylfa Newydd gael ei gyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn na'i gymeradwyo ganddo. A yw hyn wedi cael ei drafod a'i gytuno rhwng yr Ymgeisydd a Chyngor Sir Ynys Môn? Os na, pam?
<b>Q4.0.62</b>	Yr Ymgeisydd	Q	PW9 – rhowch gyfiawnhad pam y byddai (1) un mis a (2) tri mis yn raddfeydd amser priodol.
<b>Q4.0.63</b>	Yr Ymgeisydd	Q	SPC4 – mae'n berthnasol i Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop. A ddylai rhywogaethau eraill a warchodir gael gofynion tebyg? Os na, pam?
<b>Q4.0.64</b>	Yr Ymgeisydd	Q	SPC5 – darparwch y wybodaeth sydd wedi'i hepgor ar hyn o bryd ac wedi'i dangos fel [*].
<b>Q4.0.65</b>	Yr Ymgeisydd	Q	SP6 – pam mae'r gofyniad hwn yn angenrheidiol?
<b>Q4.0.66</b>	Cyngor Sir Ynys	Q	SPC12 – o ystyried maint y cerbydau adeiladu arfaethedig, a yw'r gatiâu'n

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
	Môn a'r Ymgeisydd		ddigon pell o'r briffordd (sef pellter arfaethedig o 8 metr) i sicrhau y byddai cerbydau sy'n aros yn glir o'r briffordd?
<b>Q4.0.67</b>	Yr Ymgeisydd	Q	WN4A – o dan y paramedr uchaf, pam mae dwy golofn ar gyfer uchder – H (m) a H (m AOD) a pham mae H (m) yn unig ar gyfer y paramedr lleiaf?
<b>Q4.0.68</b>	Yr Ymgeisydd	Q	WN7 – pam mae H (m uwchben lefel orffenedig y tir) yn cael ei ddefnyddio yma yn hytrach nag AOD?
<b>Q4.0.69</b>	Yr Ymgeisydd a Chyngor Sir Ynys Môn	Q	<p>WN9 (1) – Beth a olygir gan 'gomisiynwyd' ac a ddylai hyn gael ei gynnwys yn Erthygl 2 – Dehongli?</p> <p>A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn fodlon ar hyn fel sbardun ar gyfer cyflwyno'r cynllun tirwedd a chynefin terfynol?</p> <p>WN9 (2) A ddylai hyn gael ei aileirio i gynnwys manylion <i>ond heb fod yn gyfyngedig</i>? A ddylai'r rhestr gael ei hymestyn i gynnwys manylion tirweddu caled; goleuo; dodrefn stryd ac arwyddion; triniaeth ffin ac ati?</p> <p>WN9 (4) mae'r geiriad presennol yn ymddangos fel petai'n gosod cyfrifoldeb ar Gyngor Sir Ynys Môn i amlygu coed a phrysglwyni afiach neu a ddifrodwyd yn ddifrifol yn ystod y cyfnod ôl-ofal 5 mlynedd. Os yw hyn yn wir, a oes gan Gyngor Sir Ynys Môn yr adnoddau a'r arbenigedd i ymgymryd â'r gofyniad hwn ac, os na, pam?</p>
<b>Q4.0.70</b>	Cyngor Sir Ynys Môn	Q	WN11 (2) a yw Cyngor Sir Ynys Môn yn fodlon bod y gwaith cynefin a thirweddu'n ymdrin â'r holl ardaloedd lle y byddai angen cynlluniau rheoli?
<b>Q4.0.71</b>	Yr Ymgeisydd	Q	WN13 (1) a ddylai 'Mae'r Safle Derbynnydd Ymlusgiaid wedi...' gael ei ddisodli â 'Mae'n rhaid i'r Safle Derbynnydd Ymlusgiaid...'? Os na, pam?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q4.0.72</b>	Yr Ymgeisydd	Q	WN14 (1) a ddylai 'Mae'r Safle Derbynnydd Madfallod Dŵr Cribog wedi...' gael ei ddisodli â 'Mae'n rhaid i'r Safle Derbynnydd Madfallod Dŵr Cribog...'? Os na, pam?
<b>Q4.0.73</b>	Yr Ymgeisydd a Chyngor Sir Ynys Môn	Q	<p>WN15 a WN16 – Mae'r gofynion hyn yn rheoli nifer y lleoedd parcio a gynigir yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu. A all yr Ymgeisydd:</p> <p>(a) esbonio pam mae hyn wedi'i eirio fel uchafswm yn hytrach na rhif penodol?</p> <p>(b) esbonio pam nad oes lleiafswm?</p> <p>(c) nodi ble yn y DCO mae dyluniad a gosodiad parcio ceir (gan gynnwys darparu lleoedd parcio i'r anabl; manau gwefru cerbydau trydan; goleuo; draenio; darparu rhyng-gipwyr petrol/olew neu ddulliau eraill o reoli llygredd ac ati) wedi'u manylu a'u sicrhau??</p> <p>A yw Cyngor Sir Ynys Môn, fel Awdurdod Priffyrdd Lleol, yn fodlon bod hyn yn cyfeirio at uchafswm nifer o leoedd yn unig yn hytrach na nifer penodol o leoedd?</p> <p>A yw Cyngor Sir Ynys Môn, fel Awdurdod Priffyrdd Lleol, yn fodlon bod modd ar gael iddo i gymeradwyo dyluniad a gosodiad parcio ceir? Os felly, sut?</p>
<b>Q4.0.74</b>	Cyngor Sir Ynys Môn	Q	<p>WN19 – mae'n mynnu bod dyluniad manwl campws y safle'n cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo.</p> <p>Mae'n ymddangos mai hwn yw'r unig ofyniad sy'n ceisio sicrhau dylunio/darparu campws y safle.</p> <p>A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn fodlon, gan gyfeirio'n benodol at y sŵn a</p>



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			gynhyrchir gan y gwaith; draenio (rheoli); oriau defnyddio'r manau chwarae amldeffnydd (MUGAs); goleuadau allanol, parcio a llifoleuadau ac ati, bod y gofyniad yn sicrhau'r materion hyn yn ddigonol? Os na, pam?
<b>Q4.0.75</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Tabl WN20 – nid oes pwynt wedi'i roi o ble y dylid mesur uchder – a ddylai hyn fod yn AOD?
<b>Q4.0.76</b>	Yr Ymgeisydd a Chyngor Sir Ynys Môn	Q	WN21(2) (a) A ddylai'r rhestr hon ddechrau gyda " <i>cynnwys ond nid yn gyfyngedig i</i> "? (b) A ddylai (e) gynnwys cyfeiriad at berthi? (c) A ddylai'r rhestr gael ei hymestyn i gynnwys modd o amgáu; goleuadau allanol a stryd; dodrefn stryd ac arwyddion? (d) A oes gan Gyngor Sir Ynys Môn yr adnoddau a'r arbenigedd i ymgymryd â'r gofyniad hwn ac os na, pam?
<b>Q4.0.77</b>	Yr Ymgeisydd	Q	WN23 – nid yw'n ymddangos bod hyn yn darparu dyddiad/gweithgarwch sbarduno ar gyfer cyflwyno'r strategaeth ddatgomisiynu ac felly, fel y mae wedi'i eirio ar hyn o bryd, a allai cyfleuster campws y safle gael ei gadw'n barhaol?  Gan fod campws y safle wedi'i ddiffinio fel cyfleuster dros dro, sut dylai'r gofyniad gael ei ddiwygio i gynnwys sbardun ar gyfer cyflwyno'r manylion hyn?
<b>Q4.0.78</b>	Cyngor Sir Ynys Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru	Q	WN25 – mae'n ymddangos bod hyn yn mynnu bod manylion y gwaith morol yn cael eu cyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru a'u cymeradwyo ganddyn nhw yn unig.  A yw Cyngor Sir Ynys Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q4.0.79</b>	Yr Ymgeisydd, Cyngor Sir Ynys Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru	Q	WN26 (a), (b), (c) a (d) – ai AOD yw'r cyfeirbwynt cywir neu a fyddai Uwchben Datwm Siart (ACD), Penllanw Cymedrig (MHW), neu Ddistyll Cymedrig (MLW) yn fwy priodol?  A ddylid darparu diffiniadau ar gyfer brig ton ('crest') a morglawdd cerrig ('roundhead') yn Nhabl WN26a?
<b>Q4.0.80</b>	Yr Ymgeisydd a Cyfoeth Naturiol Cymru	WC/ WD	WN 28 - Beth yw'r berthynas rhwng y gofyniad hwn a'r caniatadau sy'n ofynnol (gan Cyfoeth Naturiol Cymru) ar gyfer dyddodi fel yr amlinellir yn Erthygl 53? A yw'r hyblygrwydd o dan y gofyniad "oni chytunir fel arall â Cyfoeth Naturiol Cymru" yn gyson â'r angen i sicrhau amrywiad o unrhyw ganiatadau o'r fath?  <b>WN28 Gwaredu Deunydd a Garthwyd</b> Mae'n rhaid i unrhyw ddeunydd sy'n weddill a garthwyd o'r datblygiad awdurdodedig na ellir ei aildefnyddio gael ei waredu yng Ngogledd Caergybi, oni gytunir fel arall â Cyfoeth Naturiol Cymru.
<b>Q4.0.81</b>	Yr Ymgeisydd a Chyngor Sir Ynys Môn	Q	OPSF2 – A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn fodlon y byddai'r gofyniad yn sicrhau'r cyfleusterau arfaethedig yn ddigonol, gan gynnwys, er enghraifft: draenio, sŵn o'r gwaith, goblygiadau a rheolaeth archaeolegol, dyluniad a gosodiad y maes parcio, casglu sbwriel, storio beiciau ac ati?  (4) Sut byddai'r manylion tirweddu a fyddai'n cael eu rheoli gan (4) yn cael eu cyflwyno/cymeradwyo? A ddylai hyn fod yn ofyniad ar wahân? A oes gan Gyngor Sir Ynys Môn yr adnoddau a'r arbenigedd i ymgymryd â'r gofyniad hwn ac os na, pam?
<b>Q4.0.82</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Tabl OPSF3 – nid oes pwynt wedi'i roi o ble y dylid mesur uchder – a ddylai hyn fod yn AOD?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q4.0.83</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>OPSF5 – y teitl yw parcio ceir a beiciau gweithredol, ond mae'r gofyniad yn cyfeirio at leoedd parcio yn unig – a oes angen i'r gofyniad gynnwys parcio beiciau?</p> <p>Nid yw'n ymddangos bod argyfyngau wedi'u diffinio er mwyn bodloni'r prawf gorfodadwyedd – a ddylent gael eu diffinio?</p> <p>Mae'r lleoedd parcio ceir wedi'u datgan fel uchafswm yn hytrach na rhif penodol – a yw hyn yn dderbyniol i Gyngor Sir Ynys Môn/yr Awdurdod Priffyrdd?</p> <p>Oni bai bod manylion yn cael eu darparu yn rhan o OPSF2, nid oes rhaid i ddyluniad/gosodiad y maes parcio, gan gynnwys draenio, goleuadau, lleoedd parcio i'r anabl a manau gwefru cerbydau trydan ac ati, gael eu cyflwyno a'u cymeradwyo – a yw hyn yn dderbyniol i Gyngor Sir Ynys Môn/yr Awdurdod Priffyrdd?</p>
<b>Q4.0.84</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Dylid cyfeirio at ble yn y cais y mae strategaeth ddatgomisiynu ar gyfer cyfleusterau oddi ar safle'r orsaf bŵer yn cael ei sicrhau.
<b>Q4.0.85</b>	Yr Ymgeisydd a Chyngor Sir Ynys Môn	Q	<p>Dylid cadarnhau p'un a yw'r lluniadau manwl yn ymwneud â'r cyfleuster parcio a theithio yn Atodlen 2 y DCO drafft yn cynnwys manylion tirweddu a threfniadau cynnal a chadw, o ystyried nad yw'n ymddangos bod gofyniad ar hyn o bryd, heblaw am gynnal a chadw, ynglŷn â thirweddu ar gyfer y cyfleuster parcio a theithio?</p> <p>A hoffai Cyngor Sir Ynys Môn wneud sylwadau?</p>
<b>Q4.0.86</b>	Yr Ymgeisydd	Q	PR3 (4) esboniwch sut byddai'r manylion tirweddu ar gyfer unrhyw gynllun diwygiedig a fyddai'n cael ei reoli gan (4) yn cael eu cyflwyno/cymeradwyo. A ddylai hyn fod yn ofyniad ar wahân?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			A oes gan Gyngor Sir Ynys Môn yr adnoddau a'r arbenigedd i ymgymryd â'r gofyniad hwn ac os na, pam?
<b>Q4.0.87</b>	Yr Ymgeisydd	Q	PR4 – nid oes pwynt wedi'i roi o ble y dylid mesur uchder – a ddylai hyn fod yn AOD?
<b>Q4.0.88</b>	Yr Ymgeisydd a Chyngor Sir Ynys Môn	Q	<p>PR5 Parcio gweithredol – mae'n cynnwys parcio beiciau – a ddylai'r teitl gael ei newid i barcio ceir a beiciau gweithredol?</p> <p>Mae'r lleoedd parcio ceir wedi'u datgan fel uchafswm yn hytrach na rhif penodol – a yw hyn yn dderbyniol i Gyngor Sir Ynys Môn/yr Awdurdod Priffyrdd? A ddylid nodi lleiafswm?</p> <p>Yr uchafswm a roddir yw 1,900 – fodd bynnag, mae'r Datganiad Cynllunio [8.1] (paragraff 4.3.16) yn dweud y byddai'n darparu lle parcio i 1,900 o geir, 55 o fysiau mini a 35 o feiciau modur – cadarnhewch p'un a yw nifer y lleoedd parcio a gynigir yn cynnwys neu'n eithrio lleoedd parcio ar gyfer bysiau mini a beiciau modur.</p> <p>Oni bai bod manylion yn cael eu darparu yn rhan o PR2 neu PR3, nid yw'n ymddangos bod rhaid i ddyluniad/gosodiad y maes parcio, gan gynnwys draenio, goleuadau, lleoedd parcio i'r anabl a manau gwefru cerbydau trydan, gael eu cyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn a'u cymeradwyo ganddo. A hoffai Cyngor Sir Ynys Môn, sef yr Awdurdod Priffyrdd Lleol, wneud sylwadau?</p>
<b>Q4.0.89</b>	Yr Ymgeisydd a Chyngor Sir Ynys Môn	Q	<p>PR6 - nid yw'n ymddangos bod hyn yn darparu dyddiad/gweithgarwch sbarduno ar gyfer cyflwyno'r strategaeth ddatgomisiynu ac felly, fel y mae wedi'i eirio ar hyn o bryd, gallai'r cyfleuster parcio a theithio gael ei gadw'n barhaol.</p> <p>Gan fod y cyfleuster parcio a theithio wedi'i ddiffinio'n gyfleuster dros dro,</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>sut dylai'r gofyniad gael ei ddiwygio i gynnwys sbardun ar gyfer cyflwyno'r manylion hyn?</p> <p>A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn fodlon â'r rhestr o fanylion ynglŷn â'r hyn y dylai'r strategaeth ddatgomisiynu ei gynnwys, fel yr amlinellir yn (2)?</p>
<b>Q4.0.90</b>	Yr Ymgeisydd a Chyngor Sir Ynys Môn	Q	<p>LC3 (4) – esboniwch sut byddai'r manylion tirweddu ar gyfer unrhyw gynllun diwygiedig a fyddai'n cael ei reoli gan (4) yn cael eu cyflwyno/cymeradwyo. A ddylai hyn fod yn ofyniad ar wahân?</p> <p>A oes gan Gyngor Sir Ynys Môn yr adnoddau a'r arbenigedd i ymgymryd â'r gofyniad hwn ac os na, pam?</p>
<b>Q4.0.91</b>	Cyngor Sir Ynys Môn	Q	<p>Mae PR2 yn mynnu bod dyluniad manwl y ganolfan logisteg yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo. Mae'n ymddangos mai hwn yw'r unig ofyniad sy'n darparu unrhyw reolaeth dros ddylunio / darparu'r ganolfan logisteg.</p> <p>A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn fodlon, gan gyfeirio'n benodol at ddraenio (rheoli); oriau defnydd; goleuadau allanol ac ati, bod y gofyniad yn sicrhau'r materion hyn yn ddigonol? Os na, pam?</p>
<b>Q4.0.92</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>LC4 - nid oes pwynt wedi'i roi o ble y dylid mesur uchder – a ddylai hyn fod yn AOD?</p>
<b>Q4.0.93</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>LC6 – a all yr Ymgeisydd roi manylion i esbonio beth yw ystyr cyfleusterau chwilio a sgrinio, aros ac archwilio? Sawl cerbyd sy'n debygol o fod yn ymgymryd â'r gweithgareddau hyn ar unrhyw un adeg?</p> <p>Nid yw'n ymddangos bod argyfyngau wedi'u diffinio er mwyn bodloni'r prawf gorfodadwyedd ar gyfer gofynion – a ddylent gael eu diffinio?</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			Mae'r lleoedd parcio ceir wedi'u datgan fel uchafswm yn hytrach na rhif penodol – a yw hyn yn dderbyniol i Gyngor Sir Ynys Môn, sef yr Awdurdod Priffyrdd?
<b>Q4.0.94</b>	Yr Ymgeisydd, Cyngor Sir Ynys Môn a CADW	Q	<p>Nid yw'n ymddangos bod LC7, fel y mae wedi'i eirio ar hyn o bryd, yn darparu dyddiad/gweithgarwch sbarduno ar gyfer cyflwyno'r strategaeth ddatgomisiynu ac felly, fel y mae wedi'i eirio ar hyn o bryd, gallai'r ganolfan logisteg gael ei chadw'n barhaol. Gan fod y ganolfan logisteg wedi'i bwriadu i fod yn gyfleuster dros dro, a all yr Ymgeisydd aileirio'r gofyniad i gynnwys sbardun ar gyfer cyflwyno'r manylion hyn?</p> <p>A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn fodlon â'r rhestr o fanylion ynglŷn â'r hyn y dylai'r strategaeth ddatgomisiynu ei gynnwys, fel yr amlinellir yn (2)?</p>
<b>Q4.0.95</b>	Yr Ymgeisydd	Q	OH6 - nid oes pwynt wedi'i roi o ble y dylid mesur uchder – a ddylai hyn fod yn AOD?
<b>Q4.0.96</b>	Yr Ymgeisydd a Chyngor Sir Ynys Môn	Q	<p>OH8 (2) a ddylai goleuadau gael eu cynnwys yn y rhestr hon?</p> <p>(4) A oes gan Gyngor Sir Ynys Môn yr adnoddau a'r arbenigedd i ymgymryd â'r gofyniad hwn ac os na, pam?</p>
<b>Q4.0.97</b>	Yr Ymgeisydd, Cyngor Sir Ynys Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru	Q	<p>OH9 (1) ac OH10 (1) a ddylai hyn fod yn 'cyn cwblhau'?</p> <p>Ai hwn yw'r sbardun cywir ar gyfer cyflwyno'r manylion hyn neu a ddylai'r wybodaeth gael ei chyflwyno yr un pryd â'r manylion ar gyfer gwaith Rhif 8?</p> <p>O ystyried bod y gwaith yn ymwneud ag ardal wella ar gyfer llygod dŵr, a fyddai angen iddo gael ei ganiatáu gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			Chyngor Sir Ynys Môn?
<b>Q4.0.98</b>	Cyngor Sir Ynys Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru	Q	ECS2 (1) o ystyried bod y gwaith yn ymwneud â safleoedd digolledu ecolegol, a fyddai angen iddo gael ei ganiatáu gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â Chyngor Sir Ynys Môn?  A yw Cyngor Sir Ynys Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon â'r rhestr a gynhwysir o fewn (2)?
<b>Q4.0.99</b>	Cyngor Sir Ynys Môn a'r Ymgeisydd	Q	ECS3 (1) a ddylai "bydd" gael ei ddisodli â "rhaid" yn y llinell olaf?
<b>Q4.0.100</b>	Cyngor Sir Ynys Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru	Q	ECS4 a yw Cyngor Sir Ynys Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon â'r rhestr a gynhwysir o fewn (1) ac a oes angen i'r gwaith gael ei ganiatáu gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â Chyngor Sir Ynys Môn?
<b>Atodlen 4</b>			
<b>Atodlen 17</b>			
<b>Q4.0.101</b>	Cyngor Sir Ynys Môn	Q	Atodlen 17 (Erthygl 75) a yw'r awdurdod cynllunio lleol yn fodlon â'r rhestr o Wrychoedd neu Berthi Pwysig sydd i'w dileu?
<b>Atodlen 18</b>			
<b>Q4.0.102</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Atodlen 18 (Erthygl 79): Rhowch esboniad a chyfiawnhad llawn ar gyfer gwyro oddi wrth y dull drafftio safonol mewn perthynas â'r Weithdrefn yn ymwneud â chymeradwyaethau penodol a amlinellir yn Atodiad 1 Nodyn Cyngor 15 PINS (diw. 2) Drafftio Gorchmynion Caniatâd Datblygu a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018.
<b>Q4.0.103</b>	Cyngor Sir Ynys Môn ac awdurdodau cyflawni eraill	Q	Atodlen 18 (Erthygl 79): Gwnewch sylwadau ar y gweithdrefnau; y graddfeydd amser; categoreiddio graddfa'r datblygiad a'r ffioedd a gynigir mewn perthynas â'r weithdrefn apelio a gynigir yn Atodlen 18 (Erthygl 79). A yw'r cynigion yn rhesymol ac yn gymesur ac a fyddai adnoddau digonol yn cael eu darparu ar eu cyfer?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<b>Atodlen 19</b>
<b>Q4.0.104</b>	Cyngor Sir Ynys Môn	Q	<p>Mae Atodlen 19 Rhan 1 (Erthygl 80) yn cynnig eithrio, addasiadau, ac ati i Ddeddfwriaeth Gyffredinol Gyhoeddus.</p> <p>(a) A yw Cyngor Sir Ynys Môn, sef yr awdurdod priffyrdd, yn fodlon ar ddatgymhwyso adrannau 141, 169, 171A a 173 Deddf Priffyrdd 1980 ac, yn absenoldeb y grymoedd hyn, yn fodlon bod digon o reolaeth yn nogfennau'r cais, megis Cod Arferion Adeiladu (CoCP) Wylfa Newydd, is-CoCP Gwelliannau Priffyrdd Oddi Ar Linell Bresennol y Ffordd yr A5025 a'r Datganiad Dylunio a Mynediad (DAS)?</p> <p>(b) A yw Cyngor Sir Ynys Môn, sef yr awdurdod cynllunio, yn fodlon ei bod yn briodol at ddibenion y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL), y bydd unrhyw adeilad o fewn y datblygiad awdurdodedig yn dod o fewn yr esemptiad o dan reoliad 6 ac ni fydd yn cael ei ystyried yn "ddatblygiad" at ddibenion codi CIL?</p> <p>(c) A yw Cyngor Sir Ynys Môn, sef yr awdurdod priffyrdd, yn fodlon ar ddatgymhwyso adrannau 56(1), 56(1A), 56A, 61(1), 62(2), 62(4), 63(1), 64, 66, 71 i 74A, 77, 78, 82(1) i 84, 86, 87 i 106 ac Atodlen 3A Deddf 1991, a'i bod yn briodol datgymhwyso a/neu fod rheolaethau digonol wedi'u darparu yn nogfennau'r cais, megis CoCP Wylfa Newydd, Cod Arferion Gweithredol (CoOP) Wylfa Newydd a/neu is-CoCPs perthnasol?</p> <p>(ch) A yw Cyngor Sir Ynys Môn, sef yr awdurdod cynllunio, yn fodlon ei bod yn briodol cymhwyso adran 57(2) Deddf 1990 fel bod (heb unrhyw reolaethau ychwanegol) "datblygiad cysylltiedig penodol" sef Gwaith Rhif 3A (Campws y Safle), 6 (y Cyfleuster Parcio a Theithio yn Dalar Hir) a Gwaith Rhif 7 (y Ganolfan Logisteg ym Mharc Cybi) yn dychwelyd i'w defnydd gwreiddiol ar ôl adeiladu, ac na fydd angen caniatâd cynllunio i aildechrau</p>



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>defnyddio'r tir hwnnw at y diben yr oedd yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer fel arfer cyn i'r caniatâd datblygu gael ei roi?</p> <p>(d) A yw Cyngor Sir Ynys Môn, sef yr awdurdod cynllunio, ac at ddibenion gorfodi unrhyw gytundeb adran 106 drwy sicrhau ei fod yn rhwymo'r holl dir a buddiannau ynddo, yn fodlon yr ystyrir bod yr ymgwymerwr yn unigolyn â buddiant yn Nhir y Gorchymyn, neu unrhyw ran ohono, wrth lunio'r cytundeb (er gwaethaf y ffaith efallai nad oes gan yr ymgeisydd fuddiant yn yr holl dir) a bod unrhyw un y trosglwyddir y tir iddo i'w drin fel unigolyn sy'n deillio teitl (adran 106 (3))?</p> <p>(dd) A oes gan Gyngor Sir Ynys Môn unrhyw sylwadau ar gynnig yr ymgeisydd i gymhwyso adran 239 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990?</p> <p>(e) A oes gan Gyngor Sir Ynys Môn, sef yr awdurdod lleol, unrhyw sylwadau ar baragraff 6 Atodlen 19 sy'n sicrhau bod rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn ystyried y trothwyon a amlinellir yn CoCP Wylfa Newydd ac unrhyw is-CoCPs perthnasol cyn cyhoeddi hysbysiad o dan adran 60(5), a bod rhaid i unrhyw waith twnelu o dan y ddaear gael ei reoleiddio gan adrannau 60 a 61 Deddf Rheoli Llygredd 1974?</p> <p>(f) A yw Cyngor Sir Ynys Môn, sef yr awdurdod cynllunio, yn fodlon ar gynnig yr ymgeisydd i ddatgymhwyso adran 42 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976?</p>
<b>Q4.0.105</b>	Cyngor Sir Ynys Môn	WF	<p>Mae Atodlen 19 Rhan 2 (Erthygl 81) yn cynnig diwygiadau i Is-ddeddfau Lleol.</p> <p>A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn fodlon ar ddatgymhwyso Is-ddeddf Blaendraeth Cyngor Dosbarth Gwledig Twrcelyn 1952 ac a yw'r DCO a'i ofynion yn darparu rheolaethau digonol ynglŷn â defnyddio'r blaendraeth o</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			fewn plwyfi Llanbadrig a Llanallgo (sef, mewn perthynas â'r gallu i godi strwythurau neu barcio neu yrru cerbydau ar hyd y blaendraeth)?
<b>Q4.0.106</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Gan gyfeirio at Atodlen 19 Rhan 1 (Erthygl 80).</p> <p>(a) Nodwch pam mae pob un o ddarpariaethau Rhan 3 Deddf 1991 wedi cael eu datgymhwyso, h.y. trwy gyfrwng peidio â bod yn berthnasol, neu'n cael eu rheoli trwy rymoedd y DCO (os felly, dylid nodi'r grym perthnasol), neu'n cael eu rheoli trwy ddarpariaethau amddiffynnol yn ymwneud â chyfarpar a berchenogir gan ymgymrwyr statudol (os felly, dylid nodi'r ddarpariaeth amddiffynnol berthnasol) neu'n derbyn sylw trwy CoCP Wylfa Newydd, CoOP Wylfa Newydd a/neu is-CoCPs perthnasol (os felly, dylid nodi'r rheolaeth benodol yn y dogfennau hyn).</p> <p>(b) Pam mae angen cymhwyso adran 239 (Defnyddio a datblygu claddfeydd) er mwyn "osgoi amheuaeth"?</p> <p>(c) Mae Adran 42 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn darparu fel a ganlyn:</p> <p>42.— Deddfau lleol penodol yn y dyfodol ac ati i fod yn destun deddfiadau cynllunio ac ati, heblaw fel y darperir fel arall.</p> <p>(1) Bydd Deddf neu orchymyn y mae'r adran hon yn berthnasol iddi/iddo yn dod i rym yn amodol ar—</p> <p>(a) ddarpariaethau'r deddfiadau sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref;</p> <p>(b) darpariaethau'r deddfiadau sy'n ymwneud ag adeiladau hanesyddol a henebion;</p> <p>ac eithrio i'r graddau bod y Ddeddf neu'r gorchymyn yn darparu'n benodol fel arall.</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>(2) Mae'r adran hon yn berthnasol i Ddeddf neu orchymyn sy'n—</p> <p>(a) Ddeddf leol a basiwyd ar ôl neu yn yr un Sesiwn â'r Ddeddf hon;</p> <p>(b) gorchymyn dros dro a gadarnhawyd gan Ddeddf a basiwyd felly; neu</p> <p>(c) orchymyn a wneir trwy arfer grymoedd a roddir gan Ddeddf ac sy'n dod i rym ar ôl i'r Ddeddf hon gael ei phasio neu yn yr un Sesiwn â'r Ddeddf hon, ac sy'n awdurdodi cynnal gwaith o fath a bennwyd felly ar dir a nodir yn y Ddeddf neu'r gorchymyn.</p> <p>Ac eithrio i'r graddau bod y Ddeddf neu'r gorchymyn yn darparu'n benodol fel arall.</p> <p>1) Ar ba sail yr ystyrir bod y DCO yn 'Ddeddf leol' o fewn ystyr Adran 42?</p> <p>2) Rhowch fwy o gyfiawnhad dros ddatgymhwyso adran 42.</p>
<b>Q4.0.107</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Pam nad yw Gwaith 1I (Adeilad Efelychu a Hyfforddi) a Gwaith 1K (Ardal Archwilio Cerbydau) wedi'u cynnwys yn y rhestr o waith sy'n rhan o Ofyniad Gwaith Gorsaf Bêr (4), er y cyfeirir atynt yn WN4A y DCO Drafft [APP-029]
<b>Q4.0.108</b>	Yr Ymgeisydd a Chyngor Sir Gwynedd	Q	Mae [RR-021] yn amau gallu Gofynion DCO i sicrhau lefelau uchel o feddiannaeth campws y safle, ac felly lleihau pwysau ar ardaloedd eraill. A fyddai'r DCO drafft yn sicrhau lefelau uchel o feddiannaeth y campws, a pham?
<b>Q4.0.109</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae gofyniad PW7 yn Atodlen 3 y DCO drafft yn ceisio mynd i'r afael â Chod Ymarfer Adeiladu ('CoCP') Wylfa Newydd. A fyddai'r CoCP yn mynd i'r afael yn ddigonol ag effeithiau posibl y datblygiad arfaethedig ar briddoedd a daeareg, ac o briddoedd a daeareg ar gymunedau lleol (gan gynnwys mewn perthynas â halogiad)?
<b>Q4.0.110</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	Q	Mae paragraff 7.4.62 y Datganiad Cynllunio yn dweud y byddai gwasanaethau Llety a Thwristiaeth yn aros ar waith am y ddwy flynedd

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>gyntaf o weithredu. A all yr Ymgeisydd:</p> <p>(a) Gadarnhau a yw hyn yn golygu gweithredu'r adweithydd cyntaf neu'r ail adweithydd?</p> <p>(b) Pam yr ystyrir bod dwy flynedd yn gyfnod priodol.</p> <p>A all IACC gadarnhau a yw'n credu y byddai dwy flynedd yn gyfnod derbyniol ac, os na, a all nodi pa mor hir y mae'n credu y byddai'n angenrheidiol a pham?</p>
<b>Q4.0.111</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Darparwch gopi o'r Penawdau Telerau drafft ar gyfer y cytundeb a106 sy'n cael ei drafod ar gyfer y cais DCO.
<b>Q4.0.112</b>	Yr Ymgeisydd, IACC, NRW, Llywodraeth Cymru a phartion eraill sy'n ymwneud â'r cytundeb A106	Q	Mae Adran 7.4 y Datganiad Cynllunio [APP-406] yn ymdrin â rhwymedigaethau cynllunio ac yn amlinellu'r penawdau telerau arfaethedig. Nodwch sut y byddai'r cynigion yn bodloni'r profion ar gyfer rhwymedigaethau cynllunio.
<b>Q4.0.113</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>A allwch chi gadarnhau p'un a yw dogfen 3.4 Penawdau Telerau Drafft ar gyfer Rhwymedigaethau Cynllunio y cyfeirir ati yn y Canllaw i'r Cais [APP-004] ac yn y Map Llwybr Lliniaru [APP-422] wedi cael ei chyflwyno neu'n bwriadu cael ei chyflwyno?</p> <p>Os nad yw wedi cael ei chyflwyno neu os na fwriedir ei chyflwyno, a allwch chi gadarnhau p'un ai Adran 7 y Datganiad Cynllunio [APP-406] yw'r ddogfen berthnasol o ran y Penawdau Telerau drafft ac, os yw hyn yn iawn, a ellir diwygio dogfennau'r cais i gywiro'r cyfeiriadau at ddogfen 3.4?</p>
<b>Q4.0.114</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae'r Ymgeisydd wedi darparu Map Llwybr Lliniaru (APP-422) sy'n nodi'r

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>llwybrau wahanol y byddai lliniaru yn cael eu sicrhau. Gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu Map Llwybr Lliniaru / Atodlen Lliniaru wedi'i ddiweddarau sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddariad i'r golofn 'Diogelu Mekanwaith' sy'n nodi trwy gyfeirio at baragraffau penodol lle mae'r lliniaru wedi'i gynnwys;</li> <li>• Colofn newydd sy'n nodi cyflwr y cynnydd mewn perthynas â p'un o'r lliniaru arfaethedig sydd wedi'i sicrhau ac, os nad, pam? a;</li> <li>• Dileu lliniaru a fyddai'n cael ei sicrhau trwy Gytundeb 106.</li> </ul> <p>Gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu ail Map Llwybr Lliniaru / Atodlen Lliniaru sy'n nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y lliniaru y bwriedir ei ddarparu trwy Gytundeb 106 a ffynhonnell y lliniaru hwnnw;</li> <li>• Colofn sy'n rhoi cyfeiriad clir i ble mae'r lliniaru hwnnw wedi'i gynnwys yn y Cytundeb 106; a</li> <li>• Colofn ar wahân yn nodi beth fyddai'n digwydd i'r lliniaru hwnnw yn absenoldeb Cytundeb 106.</li> </ul>
<b>Q4.0.115</b>	Yr Ymgeisydd, IACC, Llywodraeth Cymru, NRW a'r Gwasanaethau Brys	Q	Byddai Bwrdd Rhaglen yn gyfrifol am osod ac adolygu'r rhaglen fonitro a goruchwylio'r cyllid o'r cytundeb Adran 106. A ellir rhoi mwy o fanylion am sut y byddai hyn yn gweithio, yn enwedig pa broses/dull a fyddai'n cael ei r(h)oi ar waith pe byddai anghydfod?
<b>5.</b>	<b>Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd</b>		
<b>Q5.0.1</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Pennod D9 paragraff 9.5.451 [APP-128] yn datgan y bwriedir cynnal gwaith monitro geomorffolegol yn ystod y cam gweithredu i amlygu unrhyw newidiadau mewn amodau gwaelodlin yn SoDdGA ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae Cemlyn. A all yr Ymgeisydd gadarnhau mai dyma'r

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			rhadglenn forol y cyfeirir ati yn Adran 14 y CoCP?
<b>Q5.0.2</b>	NRW a'r RSPB	WFD	Ym mharagraffau 4.3.1 a 4.3.2 ei RR [RR-088], mae NRW, a'r RSPB yn ei RR [RR-084], yn credu na all effeithiau niweidiol ar Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Ynys Môn gael eu diystyru oherwydd sŵn, dirgryniad ac aflonyddu gweledol. A all NRW a'r RSPB esbonio pam?
<b>Q5.0.3</b>	NRW a'r RSPB	WD	Beth yw safbwyntiau NRW a'r RSPB ynglŷn ag effeithiolrwydd y cynigion monitro a ddisgrifir ym mharagraffau 10.3.43 – 10.3.53 yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) Cysgodol [APP-050]?
<b>Q5.0.4</b>	Yr Ymgeisydd	WF	Ym mharagraff 4.3.7 ei RR, mae NRW o'r farn na ellir diystyru effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd safle AGA Aber Afon Dyfrdwy. A all yr Ymgeisydd wneud sylwadau?
<b>Q5.0.5</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Ym mharagraff 4.3.9 ei RR, mae NRW yn gofyn am wybodaeth ychwanegol am foddelu prosesau arfordirol i asesu effeithiau niweidiol ar Esgair Gemlyn. A all yr Ymgeisydd ddarparu hyn?
<b>Q5.0.6</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Ym mharagraff 4.3.10 ei RR, mae NRW yn gofyn am fwy o fanylion ynglŷn â'r mesurau lliniaru a nodir yn 7.4.5 yr HRA Cysgodol ac mewn perthynas â'r draenio a gynigir ar Dwmpath E ac o'i amgylch. A all yr Ymgeisydd ddarparu'r manylion hyn?
<b>Q5.0.7</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Ym mharagraff 4.4.7 ei RR, nid yw NRW yn gallu dod i'r casgliad y bydd y pecyn digolledu arfaethedig ar gyfer SoDdGA Tre'r Gof yn darparu cynefin cyfnewid o faint nac ansawdd digonol. A all yr Ymgeisydd wneud sylwadau?
<b>Q5.0.8</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Ym mharagraff 4.4.9 ei RR, mae NRW yn datgan nad yw pennod D9 yn ymdrin yn llawn â sut y bydd mesurau lliniaru'n gwrthbwysu'r achosion o

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			groesi trothwyon ansawdd aer a amlygwyd yn SoDdGA Cae Gwyn. A all yr Ymgeisydd ddarparu eglurhad pellach?
<b>Q5.0.9</b>	Yr Ymgeisydd	WF	A all yr Ymgeisydd gyfiawnhau pam y dewiswyd y senarios achos gwaethaf a roddwyd yn Nhabl 2.2 yr HRA Cysgodol [APP-050] ac esbonio'r rhesymau dros y senarios hynny sy'n wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn yr ES?
<b>Q5.0.10</b>	Yr Ymgeisydd	WF	A all yr Ymgeisydd esbonio pam y dylai'r ExA fod yn hyderus bod yr holl rywogaethau adar perthnasol a safleoedd Ewropeaidd cysylltiedig wedi cael eu hamlygu, o ystyried absenoldeb data arolwg ar gyfer ardaloedd penodol y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio arnynt, fel y nodir ym mharagraff 4.7.2?
<b>Q5.0.11</b>	NRW a'r RSPB	WC/WD	A all NRW a'r RSPB gadarnhau eu bod yn cytuno bod yr arolwg adar môr a ddisgrifir yn yr Adolygiad Gwaelodlin o Adar Môr [APP-225] a'r HRA Cysgodol [APP-050] yn ddigonol i asesu'r effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd?
<b>Q5.0.12</b>	Yr Ymgeisydd	WD	A all yr Ymgeisydd ddarparu crynodebau o ddata crai ar gyfer arolwg Minesto o adar môr yng nghyffiniau'r safle gwaredu y cyfeirir ato yn yr HRA Cysgodol [APP-050] paragraff 6.5.35?
<b>Q5.0.13</b>	Yr Ymgeisydd	WD	A all yr Ymgeisydd esbonio pam y dylai'r ExA fod yn hyderus bod y data'n gynrychioliadol o ardal gyfan y Safle Gwaredu a'i Barth Dylanwad cysylltiedig, o ystyried bod paragraff 6.5.35 yr HRA Cysgodol yn datgan bod yr arolygon wedi ystyried rhan ddeheuol y Safle Gwaredu a'r Parth Dylanwad yn unig?
<b>Q5.0.14</b>	NRW a'r RSPB	WF	A all NRW a'r RSPB gadarnhau eu bod yn cytuno â'r dull o briodoli rhywogaethau adar i wahanol safleoedd Ewropeaidd a ddisgrifir ym

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			mharagraffau 6.5.63 – 6.5.67 yr HRA Cysgodol? Os na, pam?
<b>Q5.0.15</b>	Yr Ymgeisydd ac NRW	WF	A all yr Ymgeisydd ac NRW wneud sylwadau ar y penderfyniad i eithrio effeithiau cyfunol ar ansawdd aer lle mae'r cyfraniad proses o'r Datblygiad Arfaethedig yn llai nag 1% o'r llwyth critigol, yng ngoleuni'r dyfarniad yn Wealden v SSCLG [2017] EWHC 351 (Admin)?
<b>Q5.0.16</b>	NRW, RSPB, ac NWWT	WF	A yw NRW, yr RSPB ac NWWT yn fodlon â chasgliad yr Ymgeisydd ynglŷn ag effeithiau arwyddocaol tebygol ar safleoedd Ewropeaidd fel y'i mynegir yn yr HRA Cysgodol a'r Atodiad i'r HRA Cysgodol [APP-0101]? Os na, pam?
<b>Q5.0.17</b>	Yr Ymgeisydd	WF	Yng ngoleuni'r dyfarniad yn 'People Over Wind and Sweetman v Coillte Teoranta' gan Lys Cyfiawnder Ewrop (C-323/17), a all yr Ymgeisydd nodi i ba raddau y mae'r strategaeth ddatgomiynu a sicrhawyd trwy Ofyniad PW10 y dDCO, yn gyfystyr â mesur i osgoi neu leihau'r effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd?
<b>Q5.0.18</b>	Yr Ymgeisydd	WD	O ran gollyngiadau i'r amgylchedd morol o ganlyniad i ddad-ddyfrio, paragraff 7.4.12 yr HRA Cysgodol, a all yr Ymgeisydd esbonio ble y byddai'r pwyntiau gollwng? Sut mae lefelau glawiad 'arferol' wedi cael eu diffinio? Pa lefelau gwaddodion crog y gellid eu disgwyl pan na fyddai'r lefelau glawiad arferol hyn yn berthnasol?
<b>Q5.0.19</b>	NRW	WA	A yw NRW yn cytuno na fydd unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd ACA Bae Cemlyn o ganlyniad i lefelau copr, plwm a sinc toddedig o ollngiadau yn ystod y cam adeiladu, fel y disgrifir yn adran A2 yr HRA Cysgodol?
<b>Q5.0.20</b>	Yr Ymgeisydd	WA	A all yr Ymgeisydd esbonio sut y cyfrifwyd yr amcangyfrifon halltedd a ddangosir yn Nhabl 7-4 yr HRA Cysgodol?



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q5.0.21</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Pa dystiolaeth y mae'r Ymgeisydd wedi dibynnu arni wrth ddod i'r casgliad, yn Nhabl 7-29 yr HRA Cysgodol, y gellir rheoli a lliniaru'r effeithiau o'r Ganolfan Ymwelwyr a Chyfyngau a Chysylltiad Gogledd Cymru fel na fydd unrhyw effeithiau cyfunol arwyddocaol ar ACA Bae Cemlyn?
<b>Q5.0.22</b>	Yr Ymgeisydd	WD	Nid yw'r lefelau sŵn amgylchynol disgwylidig yn ystod y cam adeiladu a ddefnyddiwyd i asesu'r effeithiau ar famaliaid môr yn cynnwys ffrwydro (paragraff 8.3.116 yr HRA Cysgodol). A all yr Ymgeisydd esbonio pam na ystyriwyd sŵn ffrwydro, a pha effaith y byddai cynnwys ffrwydro yn ei chael ar y casgliad na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd?
<b>Q5.0.23</b>	Yr Ymgeisydd	WD	O ran effeithiau cyfunol ar nodweddion mamaliaid morol dynodedig ACAau, lle mae'r casgliadau'n dibynnu ar ddarparu mesurau lliniaru digonol gan brosiectau eraill, a all yr Ymgeisydd esbonio ble y mae'n dibynnu ar fesurau lliniaru a sicrhair trwy ganiatadau a ble y mae'n dibynnu ar fesurau lliniaru y mae'n tybio y byddant yn cael eu darparu?
<b>Q5.0.24</b>	Yr Ymgeisydd	WD	O ran effeithiau cyfunol ar nodweddion mamaliaid morol dynodedig ACAau, lle mae'r casgliadau'n dibynnu ar y dybiaeth y bydd sŵn tanddwr aflonyddol yn cael ei gyfyngu i ardal fach (er enghraifft, effeithiau tanceri sy'n gysylltiedig â Nwy Naturiol Hylifol Amlwch y cyfeirir atynt yn Nhabl 8-55), a all yr Ymgeisydd amlygu'r dystiolaeth y mae'r casgliadau hyn wedi'u seilio arni?
<b>Q5.0.25</b>	Yr Ymgeisydd	WD	O ran effeithiau cyfunol ar nodweddion mamaliaid morol dynodedig ACAau, lle mae'r casgliadau'n dibynnu ar y dybiaeth y byddai newidiadau i gymylogrwydd neu waddodion crog yn digwydd dros bellter cyfyngedig yn unig, a all yr ymgeisydd amlygu'r dystiolaeth y mae'r casgliadau hyn wedi'u seilio arni?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q5.0.26</b>	Yr Ymgeisydd	WD	Gan fod effaith debygol arwyddocaol (LSE) wedi cael ei hamlygu ar gyfer sŵn yn yr awyr ar famaliaid morol a bod y posibilrwydd o effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd yn cael ei ystyried yn yr HRA Cysgodol, a all yr Ymgeisydd esbonio pam y gellir eithrio effeithiau cyfunol ym mharagraff 8.4.4 yr HRA Cysgodol?
<b>Q5.0.27</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Ym mharagraff 10.3.44 yr HRA Cysgodol, a all yr Ymgeisydd esbonio pa fesurau ymarferol a rhesymol eraill y gellir eu defnyddio i leihau lefelau sŵn?
<b>Q5.0.28</b>	Yr Ymgeisydd	WA	A all yr Ymgeisydd nodi hyd ac amllder tebygol ffrwydro ar yr wyneb ar brif safle'r orsaf bŵer yn ystod y cam adeiladu, a pha mor aml y byddai'r sŵn yn cyrraedd lefel a fyddai'n achosi i Fôr-wenoliaid 'godi i'r awyr' yn nythfa Bae Cemlyn?
<b>Q5.0.29</b>	Yr Ymgeisydd	WA	A all yr Ymgeisydd esbonio pam y dylai'r ExA fod yn hyderus bod y lefelau sŵn a adroddwyd ar gyfer ffrwydro arbrofol ym Mhennod 9 Atodiad D13-13 [APP-231] yn cynrychioli'r lefelau sŵn sy'n debygol o gael eu profi yn nythfa Môr-wenoliaid Bae Cemlyn o ganlyniad i ffrwydro ar yr wyneb yn ystod y cam adeiladu?
<b>Q5.0.30</b>	Yr Ymgeisydd	WD	Mae paragraffau 10.3.79 -10.3.81 yr HRA Cysgodol yn cyfeirio at fodelu gollyngiad golau o'r MOLF. A all yr Ymgeisydd gadarnhau pa ddogfen y cyflwynir y modelu hwn ynddi?
<b>Q5.0.31</b>	Yr Ymgeisydd	WA	A all yr Ymgeisydd gadarnhau p'un a yw'r cyfrifiad o nifer y pysgod sy'n debygol o gael eu tynnu i mewn i'r mewnlif dŵr oeri/eu dal ynddo (paragraffau 10.3.228 – 10.3.234 yr HRA Cysgodol) yn ystyried y defnydd o'r system atal pysgod acwstig?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q5.0.32</b>	NRW a'r RSPB	WD/WE	A oes gan NRW neu'r RSPB unrhyw bryderon ynglŷn ag effeithiau ar AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn o ganlyniad i newid neu golli cynefin chwilota am fwyd, newidiadau i ansawdd dŵr y môr neu rywogaethau ysglyfaeth sy'n cael eu tynnu i mewn/dal yn ystod y camau adeiladu a gweithredu?
<b>Q5.0.33</b>	NRW	WD	A all NRW ddarparu tystiolaeth sy'n cefnogi paragraff 4.3.7 ei RR [RR-088] bod rhai Môr-wenoliaid Pigddu sy'n bridio yng Nghemlyn hefyd yn ffurfio rhan o nodwedd llwybr Môr-wenoliaid yn AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy?
<b>Q5.0.34</b>	NRW	WD	A yw NRW yn cytuno bod y boblogaeth Môr-wenoliaid Pigddu yn AGA Ynys Môn oddeutu bum gwaith yn fwy nag ydoedd ar yr adeg y dynodwyd yr AGA (paragraff 10.3.59 yr HRA Cysgodol), ac, os felly, a fyddai amcanion cadwraeth yr AGA yn cael eu tanseilio pe byddai nifer y Môr-wenoliaid Pigddu yn nythfa Bae Cemlyn yn lleihau yn ystod y cyfnod adeiladu?
<b>Q5.0.35</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae paragraff 10.3.40 yr HRA Cysgodol yn dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn o ganlyniad i effeithiau rhyng-brosiect yn ystod y cam adeiladu, ond nid yw'n eglur i'r ExA pam na fyddai'r mân effeithiau hyn yn cyfuno i gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd yr AGA. Gofynnir i'r Ymgeisydd roi esboniad manwl, gyda chyfiawnhad/tystiolaeth ategol lle y bo'r angen, ynglŷn â pham na fyddai'r effeithiau adeiladu a amlygwyd ym mharagraff 10.3.40 yn tanseilio amcanion cadwraeth yr AGA.
<b>Q5.0.36</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae Tabl 10-12 yr HRA Cysgodol yn dod i'r casgliad na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig a Datgomisiynu Wylfa yn cael unrhyw effeithiau niweidiol cyfunol o ran sŵn ac yn weledol ar y boblogaeth Môr-wenoliaid Pigddu yn AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn. A all yr Ymgeisydd esbonio sut y sicrhawyd y

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			gofyniad i rywfaint o waith Datgomisiynu Wylfa gael ei wneud y tu allan i'r tymor bridio? Pa waith fyddai'n dod o dan y cyfyngiad hwn? O ystyried yr adroddir y byddai Datgomisiynu Wylfa yn cael effaith aflonyddol fach i gymedrol ar adar, pam y dylai'r ExA fod yn hyderus y gallai effeithiau niweidiol mewn cyfuniad gael eu hosgoi?
<b>Q5.0.37</b>	Yr Ymgeisydd	WA	A all yr Ymgeisydd esbonio pa dystiolaeth y mae wedi dibynnu arni yn nhabl 10-23 wrth ddod i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn o ganlyniad i effeithiau cyfunol y Datblygiad Arfaethedig â Pharc Eco Ynys Môn, Cysylltiad Gogledd Cymru, gosodiad Barcud Llanw 10MW Dwfyn Caergybi, y Parth Arddangos, Nwy Naturiol Hylifol Amlwch a Chanolfan Derbyn Ymwelwyr a'r Cyfryngau Wylfa yng Ngorllewin Ynys Môn?
<b>Q5.0.38</b>	Yr Ymgeisydd	WD/E	O ran y mesurau cydnerthedd a ddisgrifir yn adran 11.3 yr HRA Cysgodol, a all yr Ymgeisydd esbonio pam na fyddai cynllun ymateb i ddigwyddiad i fynd i'r afael ag effeithiau niweidiol o ganlyniad i lwythi gwaddodion uwch yn rhyddhau i lagŵn Cemlyn yn ystod stormydd yn gyfystyr â mesur lliniaru?
<b>Q5.0.39</b>	RSPB, NWWT, NT ac NRW	WD/E	A all yr RSPB, NWWT, NT ac NRW gadarnhau a fyddai darparu'r 'mesurau cydnerthedd' a gynigir yn adran 11.3 yr HRA Cysgodol yn ddigonol i leddfu eu pryderon ynglŷn â'r effeithiau ar AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn? Os na, pam, a pha fesurau ychwanegol y byddai eu hangen?
<b>Q5.0.40</b>	Yr Ymgeisydd	WD/E	A all yr Ymgeisydd gadarnhau a yw'n datblygu pecyn o fesurau digolledu ar gyfer effeithiau ar AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn? Pa fesurau mae'n eu hystyried?
<b>Q5.0.41</b>	NRW	WD/E	A all NRW gynghori ynghylch a fyddai'n bosibl datblygu pecyn o fesurau

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			digolledu ar gyfer effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn? Pa fesurau y dylid eu cynnwys mewn pecyn o'r fath?
<b>Q5.0.42</b>	Yr Ymgeisydd	WF	Yn Nhabl 11-1 yr HRA Cysgodol, a all yr Ymgeisydd esbonio pam na fyddai mesurau lliniaru'n cael eu sicrhau'n uniongyrchol trwy'r dDCO, yn hytrach na thrwy nifer o ddogfennau ardystiedig, a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd y byddai effeithiau niweidiol yn cael eu hosgoi?
<b>Q5.0.43</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae mesurau i amddiffyn ACA Bae Cemlyn rhag effaith niferoedd uwch o ymwelwyr yn ystod y cam adeiladu yn dibynnu ar weithredu'r Strategaeth Rheoli Gweithlu [APP-413] trwy'r Cod Ymddygiad. Y contractwyr fydd yn gyfrifol am weithredu a gorfodi Cod Ymddygiad (gofyniad PW8 y dDCO), felly a all yr Ymgeisydd esbonio pam y dylai'r ExA fod yn hyderus y byddai'r mesurau hyn yn cael eu darparu'n ddigonol?
<b>Q5.0.44</b>	NRW ac NWWT	WF	A all NRW ac NWWT gadarnhau a fyddai'r mesurau a gynigir yn y Strategaeth Rheoli Gweithlu [APP-413] yn ddigonol, yn eu barn nhw, i osgoi effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd o ganlyniad i sathru a mwy o ddefnydd gan ymwelwyr? Os na, pam?
<b>Q5.0.45</b>	NRW	WF	A all NRW naill ai gadarnhau bod yr amcanion cadwraeth yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol yn gywir neu ddarparu'r amcanion cadwraeth ar gyfer y safleoedd y mae'n credu na ellir eithrio effeithiau arwyddocaol tebygol ohonynt?
<b>Q5.0.46</b>	Yr Ymgeisydd ac NRW	WA	A all yr Ymgeisydd ac NRW adolygu'r dyfarniad diweddar yn Achos C-164/17: Cyfeiriad am ddyfarniad rhagarweiniol gan y Goruchaf Lys (Iwerddon) a wnaed ar 3 Ebrill 2017 — Edel Grace, Peter Sweetman v An Bord Pleanala, a chynghori ar unrhyw oblygiadau y mae'n credu sydd gan y dyfarniad i'r Asesiad Priodol o'r Datblygiad Arfaethedig?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
Q5.0.47	Yr Ymgeisydd	WF	Mae ES D13 paragraff 13.5.70 braidd yn anghyson o ran y pwynt rhyddhau ar gyfer y system adfer a dychwelyd pysgod. Yn gyntaf, mae'n datgan nad yw'r lleoliad wedi'i bennu eto, ond dywedir ei fod 'i'r gogledd o'r morglawdd dwyreiniol yn ardal y gyfuchlin -6.0m'. Wedi hynny, mae'n dweud y byddai'r pwynt rhyddhau'n cael ei osod ar wyneb gogleddol y morglawdd dwyreiniol. A all yr Ymgeisydd gadarnhau?
<b>6.</b>	<b>Yr Amgylchedd Hanesyddol</b>		
Q6.0.1	Cadw	Q	Amlinellwch oblygiadau darpariaethau Deddf Amgylcheddol Hanesyddol (Cymru) (2016) i'r Archwiliad, os oes rhai; gan gynnwys y darpariaethau hynny sydd bellach mewn grym a'r rhai sydd heb eu gweithredu eto.
Q6.0.2	IACC a Cadw	Q	Gan gyfeirio at 6.2.11 ES Cyfrol B – <i>Cyflwyniad i'r asesiadau amgylcheddol B11 – Treftadaeth ddiwylliannol</i> [APP-076] a ydych chi'n fodlon â methodoleg yr Ymgeisydd; ei feini prawf asesu; ei fesurau o faint newid ac effaith, a'i gasgliadau mewn perthynas â Threftadaeth Ddiwylliannol ar draws y prosiect o ran: <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) Barn Gwmpasu'r Arolygiaeth Gynllunio, yn enwedig o ran y 'camau a gymerir';</li> <li>(a) Ymgynghoriadau statudol ac anstatudol a gynhaliwyd gan yr Ymgeisydd;</li> <li>(b) Methodoleg a meini prawf asesu penodol i bwnc, yn enwedig: <ul style="list-style-type: none"> <li>i. Asesu paramedrau</li> <li>ii. Amlygu ardaloedd astudio</li> <li>iii. Amlygu derbynyddion</li> <li>iv. Amlygu amodau gwaelodlin</li> <li>v. Asesu effeithiau</li> </ul> </li> </ul>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>vi. Cyfyngiadau</p> <p>Os na, amlinellwch eich pryderon ac esboniwch sut y gallai'r materion gael eu datrys.</p>
<b>Q6.0.3</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Gan gyfeirio at Dabl B11-14 <i>Meini prawf DMRB ar gyfer sefydlu gwerth asedau treftadaeth yn 6.2.11 ES Cyfrol B – Cyflwyniad i'r asesiadau amgylcheddol B11 – Treftadaeth ddiwylliannol</i> [APP-076]:</p> <p>(a) Esboniwch pam nad yw Henebion Cofrestredig ac adeiladau Gradd I a Gradd II* yn cael eu hystyried o werth 'uchel iawn'?</p> <p>(b) A yw gwerth 'uchel' yn arwain at fesurau lliniaru llai nag optimaidd?</p>
<b>Q6.0.4</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Gan gyfeirio at baragraff 5.8.13 of EN-1, esboniwch, gan roi enghreifftiau, sut mae arwyddocâd, cyfraniad eu lleoliadau a'r cyfraniad cadarnhaol y gall asedau treftadaeth ei wneud at gymunedau cynaliadwy a hyfywedd economaidd, wedi cael eu cynnal neu eu gwella ar draws y prosiect.</p>
<b>Q6.0.5</b>	IACC, Cadw, NT, GAPS ac WHGT	WF, WE, ADB, ADC ac ADD	<p>A ydych chi'n fodlon ag ymagwedd yr Ymgeisydd at Dreftadaeth Ddiwylliannol ar gyfer pob safle fel yr amlinellir yn D11 [APP-130]; E11 [APP-248]; F11 [APP276]; G11 [App-314] a H11 [APP-365] a'r Astudiaethau Gwaelodlin yn APP-202 ac APP-204 mewn perthynas â'r:</p> <p>(a) ardal astudio;</p> <p>(b) y disgrifiad a'r dadansoddiad o'r amgylchedd gwaelodlin;</p> <p>(c) y sylfaen ddylunio a'r gweithgareddau a gynigir ar gyfer asesu effeithiau;</p> <p>(ch) yr ymagwedd at y fethodoleg asesu effeithiau;</p> <p>(d) yr ymagwedd arfaethedig at fesurau lliniaru ychwanegol, gan gynnwys y dulliau a gynigir i sicrhau mesurau lliniaru ychwanegol</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>trwy Godau Ymarfer Adeiladu, is-Godau Ymarfer Adeiladu a'r Cytundeb Adran 106 arfaethedig; a'r (dd) dadansoddiad o effeithiau gweddilliol;</p> <p>yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ar gyfer archaeoleg ddaearol, adeiladau hanesyddol a mathau o dirweddau hanesyddol?</p> <p>Os na, nodwch natur y pryder a sut y gellid mynd i'r afael ag unrhyw fater.</p>
<b>Q6.0.6</b>	IACC, Cadw, Llywodraeth Cymru, NT, Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd (GAPS) ac Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru (WHGT)	WF, WE, ADB, ADD ac ADC	<p>Gan gyfeirio at Effeithiau ar Asedau Treftadaeth ar bob safle – D11-6 [APP-213], E11-2 [APP-263], F11-5 [APP-301], G11-5 [APP-351] a H11-2 [APP-381], a yw asesiad yr Ymgeisydd o'r:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) effeithiau tebygol;</li> <li>(b) cynigion ar gyfer mesurau lliniaru ychwanegol; ac</li> <li>(c) arwyddocâd effeithiau gweddilliol</li> </ul> <p>yn foddhaol ar gyfer olion archaeolegol; adeiladau hanesyddol; a thirweddau a gerddi hanesyddol yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu?</p> <p>Os na, esboniwch pam ac amlinellwch yr hyn y mae angen ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion.</p>
<b>Q6.0.7</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Rhestrwch yr Henebion Cofrestredig, yr Adeiladau Rhestredig, yr Ardaloedd Cadwraeth a'r Tirweddau a Pharciau Hanesyddol Cofrestredig hynny yr aseswyd y gallent gael eu niweidio'n sylweddol neu eu colli'n llwyr o ganlyniad i'r prosiect, yn ystod pob cam ac ar draws pob safle. Ym mhob achos, rhwch y rhesymau pam mae'r niwed sylweddol neu'r golled o ran arwyddocâd yn angenrheidiol i gyflawni budd sylweddol i'r cyhoedd sy'n</p>



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			gwrthbwyso'r niwed hwnnw neu'r golled honno; a'r camau a gymerir i liniaru'r niwed a/neu'r golled o ran arwyddocâd.
<b>Q6.0.8</b>	Yr Ymgeisydd, IACC, Cadw, NT, GAPS ac WHGT	WF, WA, WB, WC, WD, WE, ADB, ADC, ADD ac ADE	<p>A yw'r cynigion ar gyfer cyflawni Strategaeth Rheoli Treftadaeth Ddiwylliannol a amlinellir yn adran 12 y Cod Ymarfer Adeiladu a'r is-Godau Ymarfer Adeiladu perthnasol [APP-414 i APP-420] yn ddigonol i gynllunio a rheoli'r holl weithgareddau adeiladu'n effeithiol mewn perthynas â Threftadaeth Ddiwylliannol a chyflawni canlyniadau derbyniol sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn EN-1 Rhan 5.8 (yr Amgylchedd Hanesyddol) a pholisiau treftadaeth ar lefel genedlaethol (Cymru) a lleol?</p> <p>Nodwch ddiffygion posibl a'r camau y gellid eu cymryd i'w hunioni.</p>
<b>Q6.0.9</b>	Yr Ymgeisydd	WF, WA, WB, WC, WD, WE, ADB, ADC, ADD ac ADE	<p>Gan gyfeirio at yr Effeithiau ar Asedau Treftadaeth ar bob safle – D11-6 [APP-213], E11-2 [APP-263], F11-5 [APP-301], G11-5 [APP-351] a H11-2 [APP-381]:</p> <p>(a) Esboniwch y prosesau a'r amserlenni a ddefnyddir i sicrhau bod pob un o'r mesurau lliniaru ychwanegol a gynigir mewn perthynas ag olion archaeolegol; adeiladau hanesyddol; a mathau o dirwedd hanesyddol yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu yn cael eu dylunio, eu cymeradwyo gan yr awdurdodau cymwys a'u cynnal ar y safle;</p> <p>(b) Sut byddant yn cael eu sicrhau trwy'r dDCO [APP-029] a'r Cod Ymarfer Adeiladu ac is-Godau Ymarfer Adeiladu perthnasol;</p> <p>(c) Pa fesurau a gymerir i greu'r partneriaethau angenrheidiol a darparu adnoddau digonol i gytuno ar y gwaith hwn a'i weithredu, a sut gellir sicrhau'r rhain trwy'r dDCO?</p>
<b>Q6.0.10</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Amlinellwch mewn tabl y rhaglen ar gyfer gweithredu'r amryw fesurau

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>lliniaru a nodir yn adran 12 y Cod Ymarfer Adeiladu a'r is-Godau Ymarfer Adeiladu perthnasol [APP-414 to APP-420] i alluogi'r ExA i ddeall y dilyniant gweithgarwch mewn perthynas ag asedau treftadaeth ar gyfer pob safle datblygu; trefn y digwyddiadau; eu hamseriad bras a'r cyfnod a ganiateir ar gyfer eu gweithredu.</p>
<b>Q6.0.11</b>	IACC, Cadw, NT, GAPS ac WHGT	WF/WA	<p>Gan gyfeirio at Ardd Cestyll (Tirwedd Hanesyddol Math 2) ac ar y Gofrestr Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, a safleoedd Tŷ Cestyll a'i ardd lysiau, a ydych chi'n cytuno ag asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau; ei gynigion ar gyfer mesurau lliniaru ychwanegol; a'i ddadansoddiad o arwyddocâd effeithiau gweddilliol yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, fel yr amlinellir yn 6.4.11 ES Cyfrol D - WNDA Datblygiad D11 – <i>Treftadaeth ddiwylliannol</i> [APP-130]?</p> <p>Gan gyfeirio at y Cynrychiolaethau Perthnasol a gyflwynwyd ar y mater hwn [RR-020; RR-053; RR-092]:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) Pa dystiolaeth ychwanegol sy'n angenrheidiol i amlygu graddau effeithiau posibl?</li> <li>(b) Pa fanylion ychwanegol sy'n angenrheidiol i allu asesu niwed?</li> <li>(c) A oes unrhyw fesurau ychwanegol y gellid eu cymryd i liniaru effaith y datblygiad ar yr ased treftadaeth hwn?</li> <li>(ch) Beth y dylid ei gynnwys yn y rhwymedigaeth gynllunio sydd i'w chytuno â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cadw a Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd y cyfeirir ati ym mharagraff 6.4.203 8.1 Datganiad Cynllunio [APP-406] a fwriedir i fynd i'r afael â dyluniadau mesurau tirwedd priodol i adfer a/neu wella lleoliad blaenorol gardd lysiau Gardd Cestyll?</li> </ul>
<b>Q6.0.12</b>	Yr Ymgeisydd	WF/WA	Ymatebwch i sylwadau Llywodraeth Cymru yn ei chynrychiolaeth berthnasol

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>[RR-092] mewn perthynas â pharc a gardd hanesyddol cofrestredig Cestyll, a'i leoliad, sef:</p> <p>(a) Y dylid rhoi mwy o fanylion am sut mae dyluniad y tirweddu arfaethedig (creu twmpathau, plannu coed, adfer ffiniau caeau) o fewn y lleoliad hanfodol presennol wedi cael ei lywio gan yr effaith ar y parc a'r ardd cofrestredig.</p> <p>(b) Gofynnir am ddelweddau i ddangos sut y bydd yr orsaf bŵer yn edrych mewn golygfeydd gerllaw ehangder deheuol Cestyll ac a fyddai'n llywio cynllun tirweddu ar gyfer yr ardal hon.</p> <p>(c) Mae angen egluro'n fanylach sut y bydd modd cyrraedd yr ardd ddyffryn os bydd y mynediad hanesyddol yn cael ei ddileu trwy'r twmpath/bryncyn tirweddu arfaethedig.</p>
<b>Q6.0.13</b>	Yr Ymgeisydd, IACC, Cadw, NT, GAPS ac WHGT	WF/WA	<p>Gan gyfeirio at:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Felin Flawd Felin Gafnan (Adeilad Rhestredig Gradd II*);</li> <li>• Y Breuandy yn Felin Gafnan (Adeilad Rhestredig Gradd II*); a'r</li> <li>• Tŷ Sychu Grawn yn Felin Gafnan (Adeilad Rhestredig Gradd II);</li> </ul> <p>(a) A ydych chi'n cytuno ag asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau; ei gynigion ar gyfer mesurau lliniaru ychwanegol; a'i ddadansoddiad o arwyddocâd effeithiau gweddilliol yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, fel yr amlinellir yn 6.4.11 ES Cyfrol D - WNDA Datblygiad D11 – Treftadaeth ddiwylliannol [APP-130]?</p> <p>(b) A oes unrhyw fesurau ychwanegol y gellid eu cymryd i liniaru effaith y datblygiad ar yr asedau treftadaeth hyn?</p>
<b>Q6.0.14</b>	NT	WF/WA	Yng ngoleuni cynrychiolaeth berthnasol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>[RR-053], sy'n datgan ei bod yn gyfrifol am dri adeilad rhestredig sy'n cydffinio â'r harbwr arfaethedig, gan gynnwys Felin Gafnan, sef melin Gradd II*, esboniwch:</p> <p>(a) Y manylion ychwanegol sy'n angenrheidiol i alluogi asesiad llawn o effaith y cynnig;</p> <p>(b) Sut y dylid rhoi pwys digonol i'r asedau treftadaeth; a</p> <p>(c) Beth y gellid ei ystyried yn lefel ddigonol o fesurau lliniaru a digolledu?</p> <p>Os yw'n briodol, gallai'r ymateb gael ei gynnwys mewn datganiad o dir cyffredin.</p>
<b>Q6.0.15</b>	Yr Ymgeisydd	WF/WA	<p>Ymatebwch yn fanwl i gynrychiolaeth berthnasol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol [RR-053], lle mae'n datgan 'ei bod yn gyfrifol am dri adeilad rhestredig sy'n cydffinio â'r harbwr arfaethedig, gan gynnwys Felin Gafnan, sef melin Gradd II*. Nid oes digon o fanylion yn y cais i allu asesu effaith y cynnig yn llawn. Nid yw'r cais yn rhoi digon o bwys i'r asedau treftadaeth, a chynigir lefel annigonol o fesurau lliniaru a digolledu.'</p>
<b>Q6.0.16</b>	Yr Ymgeisydd, IACC, Cadw, NT, GAPS ac WHGT	WF/WA	<p>A yw'n werth llunio Cynllun Rheoli Cadwraeth cynhwysfawr ar gyfer y grŵp o asedau treftadaeth sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gardd Cestyll (Tirwedd Hanesyddol Math 2)</li> <li>• Safleoedd Tŷ Cestyll a'i ardd lysiau</li> <li>• Melin Flawd Felin Gafnan (Adeilad Rhestredig Gradd II*);</li> <li>• Y Breuandy yn Felin Gafnan (Adeilad Rhestredig Gradd II*); a'r</li> <li>• Tŷ Sychu Grawn yn Felin Gafnan (Adeilad Rhestredig Gradd II);</li> <li>• Tŷ Cafnan (Adeilad Rhestredig Gradd II)</li> </ul>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			Os felly, sut gellid gwneud hyn a sut gellid ei sicrhau trwy'r dDCO?
<b>Q6.0.17</b>	Yr Ymgeisydd	WF/WA	<p>Cynhyrchwch gynllun wrth raddfa 1:1250 o'r ardal o Borth-y-Pistyll yn ymestyn i'r de i Cemlyn Road sy'n dangos lleoliad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gardd Cestyll (Tirwedd Hanesyddol Math 2);</li> <li>• Safleoedd Tŷ Cestyll a'i ardd lysiau;</li> <li>• Melin Flawd Felin Gafnan (Adeilad Rhestredig Gradd II*);</li> <li>• Y Breuandy yn Felin Gafnan (Adeilad Rhestredig Gradd II*); a'r</li> <li>• Tŷ Sychu Grawn yn Felin Gafnan (Adeilad Rhestredig Gradd II);</li> <li>• Tŷ Cafnan (Adeilad Rhestredig Gradd II)</li> </ul> <p>mewn perthynas â ffiniau ardal WNDA, safle NPS Wylfa a safle Gorsaf Bŵer Wylfa.</p> <p>Dangoswch (a) y gwaith a gynlluniwyd ar gyfer y lleoliad hwn yn ystod y camau paratoi a chlirio'r safle ac adeiladu; a (b) y sefyllfa yn ystod y cyfnod gweithredu, gan ddangos yn gywir y ffensys terfyn arfaethedig, llinell arfaethedig Llwybr Arfordir Cymru a'r dirffurf a'r dirwedd arfaethedig.</p> <p>Sut byddai'r cyhoedd yn cyrraedd yr asedau treftadaeth hyn yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu?</p>
<b>Q6.0.18</b>	IACC, Cadw, Llywodraeth Cymru, NT a GAPS	WF	<p>Gan gyfeirio at Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Amlwch a Mynydd Parys, a ydych chi'n cytuno â'r:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) fethodoleg;</li> <li>(b) meini prawf asesu;</li> <li>(c) gwerthusiad o bwysigrwydd cymharol;</li> <li>(ch) asesiad o arwyddocâd cyffredinol yr effaith; a'r</li> </ul>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>(d) casgliad, sef: 'Aseswyd bod effaith gyffredinol y datblygiad ar y dirwedd hanesyddol ar y Gofrestr yn isel iawn.' yn 6.4.78 ES Cyfrol D WNDA Datblygiad App D 11-7 <i>Asesiad o arwyddocâd effaith y datblygiad ar y dirwedd hanesyddol ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd</i> [APP-214]?</p> <p>Os na, nodwch pam ac awgrymwch sut y gellid ymdrin â'r mater.</p>
<b>Q6.0.19</b>	IACC, Cadw, Llywodraeth Cymru, NT a GAPS	ADC	<p>Mae 6.8.1 ES Cyfrol H – Canolfan Logisteg H1 – <i>Datblygiad arfaethedig</i> [APP-355] yn cynnig cynnal yr olygfa rhwng Maen Hir Tŷ Mawr a Siambr Gladdu Trefignath ar draws cornel ddeheuol y safle.</p> <p>(a) A yw'r cynigion a ddangosir yn Ffig A2-5 Prif Gynllun Canolfan Logisteg yn 8.1.10 <i>ES Llyfryn Ffigurau – Cyfrol A</i> [APP-06] yn cyflawni'r amcan hwn mewn modd boddhaol?</p> <p>(b) A yw'r effeithiau ar arwyddocâd lleoliadau'r henebion cofrestredig hyn wedi'u lliniaru'n ddigonol?</p> <p>Os na, esboniwch sut y gellid mynd i'r afael â'r materion.</p>
<b>Q6.0.20</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	<p>Ewch i'r afael â phryder IACC mewn perthynas â gwelliannau i'r A5025 oddi ar linell y ffordd, sef: 'Nid oes digon o fanylion am yr effeithiau posibl ar asedau treftadaeth, gan gynnwys Siop Soar a'r Black Lion Inn (adeiladau rhestredig Gradd II) a Maen Hir Capel Soar. Sut bydd y rhain yn cael eu lliniaru a/neu eu digolledu'?</p>
<b>Q6.0.21</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>(a) Sut byddai rhaglen cloddio a chofnodi archaeolegol gytunedig yn cael ei chytuno, ei dilyn a'i chwblhau cyn yr Archwiliad; ac</p> <p>(b) Esboniwch sut y bwriedir cyflawni mesurau lliniaru archaeolegol ar yr holl safleoedd?</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			Llywodraeth Cymru [RR-092] IACC [RR-020] NT [RR-053]
<b>Q6.0.22</b>	Yr Ymgeisydd	WF	Yn dilyn NT RR[RR-053], a allwch chi nodi'r tybiaethau archaeolegol morol yn ymwneud â Phorth-y-Pistyll a Phorth y Felin.
<b>Q6.0.23</b>	Yr Ymgeisydd	Q	A fydd cloddfeydd archaeolegol a/neu ddarganfyddiadau archaeolegol yn hygyrch i grwpiau lleol, fel yr awgrymwyd gan Grŵp Hanes Bae Cemaes [RR-016] a Chlwb Ieuenctid Jesse Hughes [RR-051], ac, os felly, sut byddai hyn yn cael ei sicrhau?
<b>7.</b>	<b>Tirwedd a Gweledol</b>		
<b>Q7.0.1</b>	NRW, IACC, Cyngor Sir Gwynedd (GCC), NT a Cadw	Q	<p>A ydych chi'n fodlon ag ymagwedd yr Ymgeisydd at asesu effeithiau Tirweddol a Gweledol fel yr amlinellir yn 6.2.10 ES Cyfrol B – <i>Cyflwyniad i'r asesiadau amgylcheddol</i> B10 – Tirwedd a gweledol [APP-075], gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) Asesu paramedrau</li> <li>(b) Amlygu ardaloedd astudio</li> <li>(c) Amlygu derbynyddion</li> <li>(ch) Amlygu amodau gwaelodlin</li> <li>(d) Asesu effeithiau</li> <li>(dd) Defnyddio: <ul style="list-style-type: none"> <li>i. Methodoleg asesu'r Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd ar gyfer Gwelliannau i'r A5025 Oddi ar Linell y Ffordd; a'r</li> <li>ii. Fethodoleg asesu effeithiau gweledol yn y nos ar gyfer yr Orsaf Bŵer</li> </ul> </li> <li>(e) Cyfyngiadau</li> </ul>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			Os na, nodwch eich rhesymau a'ch argymhellion ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw faterion.
Q7.0.2	NRW, IACC, GCC, Cadw, NT, VCC, LdCC, LPCC, LbCC a TAG	WF	<p>1. A yw ymagwedd yr Ymgeisydd at effeithiau tirweddol a gweledol y datblygiad mewn perthynas ag Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd fel y'i hamlinellir yn 6.4.10 ES Cyfrol D - WNDA Datblygiad D10 – Tirwedd a gweledol [APP-129] yn ddigonol ac, os na, sut dylid mynd i'r afael ag unrhyw faterion; gan gyfeirio at:</p> <p>(a) Yr ymagwedd at yr Ardal Astudio fel y'i disgrifir yn adran 10.2; gan gynnwys y Pyrth Gweledd Damcaniaethol, y prif Bwyntiau Asesu ac ehangder gweledd damcaniaethol y gwahanol bwyntiau asesu o fewn yr ardal astudio drosfwaol, ar gyfer y gwahanol gamau asesu a gyflwynir yn ffigurau D10-18 i D10-27 yn 6.4.101 ES Cyfrol D - WNDA Datblygiad, Llyfryn Ffigurau – Cyfrol D (Rhannau 1 a 2) [App-237 ac APP-238];</p> <p>(b) Y crynodeb o'r amodau gwaelodlin tirweddol a gweledol o fewn yr ardaloedd astudio, gan gynnwys Gwerth Derbynyddion Tirwedd a grynhoir yn Nhabl D10-3; y golygfannau Cynrychioliadol a Dangosol a ddewiswyd ar gyfer y dydd a'r nos a ddisgrifir yn Adran 3 ac a ddangosir yn Ffigurau D10.14 – D10.17 yn 6.4.101 ES Cyfrol D - WNDA Datblygiad, Llyfryn Ffigurau – Cyfrol D (Rhan 1 o 2) [APP-237 ac APP-238];</p> <p>(c) Sail ddylunio a gweithgareddau ar gyfer adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, gan gynnwys mesurau lliniaru Ymgorfforedig ac Arfer Da;</p> <p>(ch) Asesu effeithiau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwerthuso sensitifrwydd derbynyddion</li> <li>• effeithiau ar gymeriad y dirwedd a'r morlun</li> <li>• effeithiau yn ystod y dydd a'r nos</li> <li>• effeithiau ar gymeriad y dirwedd a'r morlun</li> <li>• effeithiau gweledol</li> </ul>



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>(d) Mesurau lliniaru ychwanegol yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu;</p> <p>(dd) Effeithiau gweddilliol a Mesurau Lliniaru Ychwanegol ar gyfer adeiladu, gweithredu a datgomisiynu a grynhoir yn Nhablau D10.43 i D10 ar gyfer y dirwedd; gweledol yn ystod y dydd; gweledol yn ystod y nos; a derbynyddion (safleoedd digolledu ecolegol).</p> <p>2. A yw'r ymagwedd o ddefnyddio golygfeydd cymunedol cynrychioliadol yn hytrach na golygfannau unigol yn ddigonol i asesu effeithiau ar dderbynyddion cymunedol yn ystod y dydd a'r nos?</p>
<b>Q7.0.3</b>	NRW, IACC, NT ac IPs	Q	<p>(a) O ystyried nodweddion arbennig Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn fel yr amlinellir yn y Cynllun Rheoli AHNE (gweler paragraff 2.1.30 yn 8.16 Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd (Rhan 1 o 2) [APP-424]), a yw'r mesurau lliniaru a amlinellir yn D10.14 ES Cyfrol D - WNDA Datblygiad D10 – Tirwedd a gweledol [APP-129] mewn perthynas ag AHNE Ynys Môn yn ddigonol i gyflawni amcanion polisi EN-1 paragraffau 5.9.9 i 5.9.11 a pholisïau cynllunio cenedlaethol Cymru a lleol, gan gynnwys polisïau yn y Cynllun Rheoli AHNE, fel y crynhoir ym mharagraffau 6.4.244 i 6.4.257 yn 8.1 Datganiad Cynllunio [APP-406]?</p> <p>(b) Os na, pa fesurau ychwanegol y gellid eu cymryd i gyflawni'r amcanion polisi a sut gellid eu sicrhau trwy'r dDCO?</p>
<b>Q7.0.4</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Mae IACC [RR-0202], NRW [RR-088] ac NT [RR-053] yn mynegi pryderon ynglŷn ag effeithiau ar AHNE Ynys Môn. Ymatebwch i'r honiadau canlynol:</p> <p>(a) Bydd angen cyflwyno cynigion manwl i sicrhau bod mesurau i liniaru effeithiau ar yr AHNE yn cael eu datblygu'n llawn ac i gadarnhau bod</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>integreiddiad tirweddol a gweledol yr orsaf bŵer â'r AHNE wedi cael ei ddatblygu i greu'r effaith orau; ac</p> <p>(b) Mae'r niwed i'r dirwedd o fewn a gerllaw AHNE Ynys Môn wedi'i danbriso ac mae'r mesurau lliniaru a digolledu a gynigir yn annigonol</p> <p>Dangoswch, mewn perthynas ag:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd</li> <li>• Y Cyfleuster Gorsaf Bŵer Oddi ar y Safle</li> <li>• Y gwelliannau i'r A5025 oddi ar linell y ffordd</li> <li>• Y Ganolfan Logisteg ym Mharc Cybi</li> </ul> <p>y mesurau lliniaru a amlinellir yn D10.14 ES Cyfrol D - WNDA Datblygiad D10 – Tirwedd a gweledol [APP-129] mewn perthynas ag AHNE Ynys Môn i gyflawni amcanion polisi EN-1 paragraffau 5.9.9 i 5.9.11 a pholisïau cynllunio cenedlaethol Cymru a lleol, gan gynnwys polisïau yn y Cynllun Rheoli AHNE, fel y crynhoir ym mharagraffau 6.4.244 i 6.4.257 yn 8.1 Datganiad Cynllunio [APP-406]?</p>
<p><b>Q7.0.5</b></p>	<p>NRW, IACC, GCC, Cadw, NT, VCC, LdCC, LPCC, LbCC, NAP, TAG ac IPs</p>	<p>WF</p>	<p>A yw'r golygfeydd ffotogyfosodiadau ar draws pob safle fel yr amlinellir yn [APP-199]; [APP-200]; [APP-261], [APP-378], [APP-296] ac [APP-343] yn ddigonol, ac a ydych chi'n fodlon â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y lleoliadau a ddewiswyd;</li> <li>• Y fethodoleg ar gyfer ffotogyfosodiadau;</li> <li>• Yr amserau a ddewiswyd ar gyfer y delweddau?</li> </ul> <p>(a) A oes unrhyw olygfannau ychwanegol a fyddai'n ddefnyddiol?</p> <p>(b) A yw'r delweddau'n codi unrhyw faterion neu bryderon, a sut gellid mynd i'r afael â'r rhain?</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q7.0.6</b>	Yr Ymgeisydd	WE	Disgrifir yr holl olygfannau yn 6.5.23 ES Cyfrol E – Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi ar y Safle: AECC ESL ac MEEG App E10-5 – Golygfannau ffotogyfosodiad [APP-261] fel “yr olygfa o lwybr troed i’r de o’r MEEG”; ni all hyn fod yn gywir ym mhob achos. Darparwch fersiwn wedi’i chywiro.
<b>Q7.0.7</b>	Yr Ymgeisydd	WF	Mae Grŵp Gweithredu Tregele [RR-101] a phreswylwyr lleol eraill [RR-117 ac RR-118] yn pryderu ynglŷn â pha mor effeithiol y bydd y drymlinoedd artiffisial wrth ddiogelu ansawdd bywyd preswylwyr Tregele.  Darparwch gyfres o ddelweddau ffotogyfosodiad o Olygfan Gynrychioliadol 18 (chwith) i ddangos safle ac uchder y twmpath arfaethedig gyferbyn â’r eiddo preswyl ar yr A5025 yn Nhregele, ac esboniwch i ba raddau y bydd yn lliniaru sŵn, llwch a llygredd golau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu.
<b>Q7.0.8</b>	Yr Ymgeisydd	WA	O ran y morglawdd a’r MOLF arfaethedig: (a) Rhwch wybodaeth am yr amrywiaeth bosibl o ddeunyddiau ar gyfer eu hadeiladu a’r lliwiau posibl drwy gydol y cyfnod gweithredu. Esboniwch sut y byddai’r lliwiau a ddewisir yn cael eu cynnal. (b) Sut byddai’r deunyddiau a’r lliwiau cytunedig yn cael eu sicrhau o fewn y dDCO? (c) Esboniwch ddiben a defnydd y MOLF ar ôl y cyfnod adeiladu?
<b>Q7.0.9</b>	NRW, IACC, NT, Cadw ac IPs	WE	A yw ymagwedd yr Ymgeisydd at effeithiau tirweddol a gweledol y datblygiad mewn perthynas â’r Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi ar y Safle a amlinellir yn 6.5.10 ES Cyfrol E – Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi ar y Safle: AECC ESL ac MEEG E10 – Tirwedd a gweledol [APP-248] yn ddigonol ac, os na, sut y dylid mynd i’r afael ag unrhyw faterion; gan gyfeirio at:

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>(a) Yr ymagwedd at yr Ardal Astudio fel y'i disgrifir yn adran 10.2; gan gynnwys y Pyrth Gwelededd Damcaniaethol (Ffig E10.1[APP-265]).</p> <p>(b) Y crynodeb o'r amodau gwaelodlin tirwedd a gweledol o fewn yr ardaloedd astudio;</p> <p>(c) Y golygfannau cynrychioliadol a ddewiswyd, a ddisgrifir yn 6.5.22 ES Cyfrol E – Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi ar y Safle: AECC ESL ac MEEG App E10-4 – Golygfannau cynrychioliadol [APP-260];</p> <p>(ch) Sail ddylunio a gweithgareddau ar gyfer adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, gan gynnwys mesurau lliniaru Ymgorfforedig ac Arfer Da;</p> <p>(d) Asesu effeithiau yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwerthuso sensitifrwydd derbynyddion</li> <li>• effeithiau ar gymeriad y dirwedd</li> <li>• effeithiau yn ystod y dydd a'r nos</li> <li>• effeithiau gweledol</li> </ul> <p>(dd) Mesurau lliniaru ychwanegol yn ystod gweithredu (Tabl E10.30);</p> <p>(e) Effeithiau gweddilliol (Tabl E10.4) ar gyfer adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.</p> <p>(6.5.20 ES Cyfrol E – Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi ar y Safle: AECC ESL ac MEEG App E10-2 – Atodlen effeithiau ar y dirwedd [APP-258] a 6.5.21 ES Cyfrol E – Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi ar y Safle: AECC ESL ac MEEG App E10-3 – Atodlen effeithiau gweledol [APP-259])</p>
<b>Q7.0.10</b>	NRW, IACC, Cadw ac NT	ADC	<p>A yw ymagwedd yr Ymgeisydd at effeithiau tirweddol a gweledol y datblygiad mewn perthynas â'r Ganolfan Logisteg, fel yr amlinellir yn 6.8.10 ES Cyfrol H – Canolfan Logisteg H10 – Tirwedd a gweledol [APP-364], yn ddigonol ac, os na, sut y dylid mynd i'r afael ag unrhyw faterion; gan gyfeirio at:</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>(a) Yr ymagwedd at yr Ardal Astudio fel y'i disgrifir yn adran 10.2; gan gynnwys y Pyrth Gweledd Damcaniaethol (Ffig E10.1 [APP-383]).</p> <p>(b) Y crynodeb o'r amodau gwaelodlin tirwedd a gweledol o fewn yr ardaloedd astudio;</p> <p>(c) Y golygfannau cynrychioliadol a ddewiswyd, a ddisgrifir yn 6.8.24 ES Cyfrol H – Canolfan Logisteg App H10-4 – Golygfannau cynrychioliadol [APP-378];</p> <p>(ch) Sail ddylunio a gweithgareddau ar gyfer adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, gan gynnwys mesurau lliniaru Ymgorfforedig ac Arfer Da;</p> <p>(d) Asesu effeithiau yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwerthuso sensitifrwydd derbynyddion</li> <li>• effeithiau ar gymeriad y dirwedd</li> <li>• effeithiau gweledol ar dderbynyddion hamdden, cymunedol a byrhoedlog, ac ymwelwyr â Siambr Gladdu Trefnath a Maen Hir Tŷ Mawr</li> <li>• golygfeydd pellter hir</li> <li>• golygfeydd yn y nos</li> </ul> <p>(dd) Mesurau lliniaru ychwanegol yn ystod adeiladu (Tabl H10-3) a gweithredu (Tabl H10-4);</p> <p>(e) Effeithiau gweddilliol tirweddol (Tabl H10.5) a gweledol (Tabl H10-6) ar gyfer adeiladu a gweithredu.</p>
<b>Q7.0.11</b>	NRW, IACC ac IPs	ADB	A yw ymagwedd yr Ymgeisydd at effeithiau tirweddol a gweledol y datblygiad mewn perthynas â'r cyfleuster Parcio a Theithio yn Dalar Hir, fel yr amlinellir yn 6.6.10 ES Cyfrol F – Parcio a Theithio F10 – Tirwedd a gweledol [APP-275], yn ddigonol ac, os na, sut y dylid mynd i'r afael ag unrhyw faterion; gan gyfeirio at:

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>(a) Yr ymagwedd at yr Ardal Astudio fel y'i disgrifir yn adran 10.2; gan gynnwys y Pyrth Gwelededd Damcaniaethol (Ffig F10.1 [APP-303]).</p> <p>(b) Y crynodeb o'r amodau gwaelodlin tirwedd a gweledol o fewn yr ardaloedd astudio;</p> <p>(c) Y golygfannau cynrychioliadol a ddewiswyd, a ddisgrifir yn 6.6.30 ES Cyfrol F – Parcio a Theithio App F10-4 – Golygfannau cynrychioliadol [APP-295];</p> <p>(ch) Sail ddylunio a gweithgareddau ar gyfer adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, gan gynnwys mesurau lliniaru Ymgorfforedig ac Arfer Da;</p> <p>(d) Asesu effeithiau yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwerthuso sensitifrwydd derbynyddion</li> <li>• effeithiau ar y dirwedd leol</li> <li>• effeithiau gweledol ar dderbynyddion hamdden, cymunedol a byrhoedlog</li> <li>• golygfeydd yn y nos</li> </ul> <p>(dd) Mesurau lliniaru ychwanegol yn ystod adeiladu (Ffig F10.3), gweithredu (Ffig F10.4) a datgomisiynu (Ffig F10.5);</p> <p>(e) Effeithiau gweddilliol tirweddol (Ffig F10.6) a gweledol (Ffig F10-7) ar gyfer adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.</p>
<b>Q7.0.12</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	ADB	Yr Ymgeisydd – Cadarnhewch oriau goleuo'r cyfleuster Parcio a Theithio (paragraff 4.3.1 y PRSCoCP [APP-418])
<b>Q7.0.13</b>	NRW, IACC ac IPs	ADC	A yw ymagwedd yr Ymgeisydd at effeithiau tirweddol a gweledol y datblygiad mewn perthynas â'r gwelliannau i'r A5025 oddi ar linell y ffordd, fel yr amlinellir yn 6.7.10 ES Cyfrol G – Gwelliannau i'r A5025 Oddi ar Linell y Ffordd G10 – Tirwedd a gweledol [APP-313] yn ddigonol ar gyfer:

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhan 1: Y Fali</li> <li>• Rhan 2: Llanfachraeth</li> <li>• Rhan 3: Llanfaethlu</li> <li>• Rhan 7: Cefn Coch; a</li> <li>• Chyffordd Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer</li> </ul> <p>ac, os na, sut y dylid mynd i'r afael ag unrhyw faterion; gan gyfeirio at:</p> <p>(a) Yr ymagwedd at yr Ardal Astudio fel y'i disgrifir yn adran 10.2; gan gynnwys y Pyrth Gwelededd Damcaniaethol (Ffig G10-13 i G10-17 [APP-354]).</p> <p>(b) Y crynodeb o'r amodau gwaelodlin tirwedd a gweledol o fewn yr ardaloedd astudio;</p> <p>(c) Y golygfannau cynrychioliadol a dangosol a ddewiswyd, a ddisgrifir yn 6.7.37 ES Cyfrol G – Gwelliannau i'r A5025 Oddi ar Linell y Ffordd App G10-5 – Golygfannau cynrychioliadol [APP=340] a 6.7.38 ES Cyfrol G – Gwelliannau i'r A5025 Oddi ar Linell y Ffordd App G10-6 – Golygfannau dangosol [APP-341];</p> <p>(ch) Sail ddylunio a gweithgareddau ar gyfer adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, gan gynnwys mesurau lliniaru Ymgorfforedig ac Arfer Da;</p> <p>(d) Asesu effeithiau yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwerthuso sensitifrwydd derbynyddion</li> <li>• effeithiau ar y dirwedd leol</li> <li>• effeithiau gweledol ar ardaloedd preswyl, defnyddwyr ardaloedd cymunedol, defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus (PROW), llwybrau trafndiaeth ac ymwelwyr â derbynyddion dethol</li> <li>• golygfeydd yn y nos</li> </ul> <p>(dd) Mesurau lliniaru ychwanegol yn ystod adeiladu a gweithredu (Tabl</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			G10-9); (e) Effeithiau gweddilliol ar gymeriad y dirwedd (Tabl G10-11) ac yn weledol (Tabl G10-12) ar gyfer adeiladu a gweithredu?
<b>Q7.0.14</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	O ran eiddo preswyl yn Llanfachraeth (R24, R25, R27, R28, R30, R33, R36 ac R40) ac unrhyw eiddo preswyl arall sy'n profi effeithiau niweidiol mawr neu fawr iawn o ganlyniad i ollyngiad golau yn ystod adeiladu a gweithredu'r gwelliannau i'r A5025 oddi ar linell y ffordd, esboniwch sut y byddai'r effeithiau hyn yn cael eu lliniaru'n ymarferol gyda chymorth cynlluniau a thrychiadau. [APP-313].
<b>Q7.0.15</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	Mae preswylwyr Plas Ellen [RR-063] yn pryderu ynghylch (a) sŵn o ganlyniad i fwy o draffig ar yr A5025; (b) sŵn o'r ffordd osgoi arfaethedig a'i heffaith weledol; ac (c) y ffaith y byddai'r ffordd osgoi arfaethedig yn agosach i'n heiddo.  Esboniwch sut y byddai'r sefyllfa hon yn cael ei lliniaru, gan gynnwys p'un a fwriedir gosod rhwystrau lleihau sŵn ar ochr ddwyreiniol yr A5025.
<b>Q7.0.16</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae Pennod G1 yn datgan bod angen goleuadau gweithredol ar gyfer rhan 1 (paragraff 1.3.46) a ffordd fynediad yr orsaf bŵer (paragraff 1.3.197). Darparwch luniadau dylunio ar gyfer y goleuadau hyn neu nodwch ym mhle yn y dogfennau y gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon. Nodwch hefyd sut y byddai'r goleuadau hyn yn cael eu sicrhau.
<b>Q7.0.17</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae Pennod D1 paragraff 1.6.97 yn cyfeirio at graenau codi pwysau trwm o wahanol uchder ("dau graen codi pwysau trwm iawn hyd at 270m o uchder, un craen codi pwysau trwm iawn symudol hyd at 220m o uchder, oddeutu 40 craen tŵr hyd at 192m o uchder a nifer fawr o graenau symudol llai"). Nid yw'r uchderau'n cyd-fynd â'r uchderau mwyaf a roddir yn Nhabl D1-4; tybir bod yr anghysondeb hwn oherwydd bod y mesuriadau



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>yn Nhabl D1-4 Uwchlaw Datwm Ordians (AOD) (a'r uchderau hyn yw'r rhai sy'n cyd-fynd â Thablau WN2B ac WN2C y DCO drafft). Yn yr un modd, nid yw nifer y craeniau yn Nhabl D1-4 yn cyd-fynd â pharagraff 1.6.97; felly, nid yw'n eglur faint o graeniau a fyddai'n cael eu defnyddio ar unrhyw un adeg.</p> <p>(a) A gynnigir uchafswm nifer o graeniau? Beth fyddai uchder mwyaf y craeniau?</p>
<b>Q7.0.18</b>	Yr Ymgeisydd	WF	Esboniwch sut y bydd y 'cynnig i greu drymlinoedd artiffisial a ffens 2 fetr ar hyd y terfyn yn agos i ni yn cael effaith ar ein hamgylchedd' yn cael ei liniaru yn ystod y cam adeiladu a gweithredu [RR-007].
<b>Q7.0.19</b>	Yr Ymgeisydd	WF	Darparwch CGI o'r prif safle a'r ardal WNDA yn ystod y cam gweithredu 5 mlynedd yn ôl y paramedrau mwyaf (h.y. uchder mwyaf adeiladau a strwythurau ac uchder lleiaf ailfodelu'r dirwedd, gan gynnwys 'drymlinoedd' newydd) o'r tro yn yr A5025 yn GR 3170 8866.
<b>8.</b>	<b>Yr Amgylchedd Morol</b>		
<b>Q8.0.1</b>	NRW ac IACC	Q	A yw IACC ac NRW yn fodlon bod yr arolygon i lywio'r asesiadau gwaelodlin o'r amgylchedd morol a roddir ym Mhennod B13 [APP-078] yn ddigonol? Os na, pam?
<b>Q8.0.2</b>	Yr Ymgeisydd	Q	A all yr Ymgeisydd esbonio i ba raddau y mae'n credu bod y waelodlin ecolegol forol yn parhau i fod yn gywir o ystyried y cynhaliwyd yr arolygon yn 2016 neu cyn hynny?
<b>Q8.0.3</b>	NRW	WC/WD	A yw NRW yn fodlon â'r asesiad ym Mhennod D13 [APP-132] Tabl D13-4 o werth canolig derbynyddion yr amgylchedd morol, e.e. traethau creigiog a phyllau?

<b>Cyfeirnod</b>	<b>Ymatebwr:</b>	<b>Lleoliad:</b>	<b>Cwestiwn:</b>
<b>Q8.0.4</b>	Yr Ymgeisydd	WC/WD	A all yr Ymgeisydd amlygu VP-1 ar Ffigur D13-12 [APP-238]?
<b>Q8.0.5</b>	Yr Ymgeisydd	WD	A all yr Ymgeisydd egluro'r mesurau a gymerir i atal dŵr llygredig o'r gwaith ffurfio concrit rhag mynd i mewn i'r môr?
<b>Q8.0.6</b>	Yr Ymgeisydd	WC/WD	A yw'r metrigau a ddefnyddiwyd i asesu sŵn tanddwr yn gyson â Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol a dogfennau canllaw'r Deyrnas Unedig (DU)?
<b>Q8.0.7</b>	Yr Ymgeisydd	WD	Mae Pennod D13 paragraff 13.5.8 yn datgan y byddai dŵr ffo'n cael ei drin pe byddai'r lefelau pH yn fwy nag 8. A fyddai hyn yn cael ei sicrhau yn y CoCP?
<b>Q8.0.8</b>	Yr Ymgeisydd	WD	Sut byddai solidau crog mewn dŵr y môr, Pennod D13, paragraff 13.5.27, yn cael eu monitro?
<b>Q8.0.9</b>	Yr Ymgeisydd	WD	Sut byddai'r lefelau goleuo mwyaf, Pennod D13, paragraff 13.5.74, yn cael eu sicrhau?
<b>Q8.0.10</b>	Yr Ymgeisydd	WD	A all yr Ymgeisydd gadarnhau y byddai'r cynllun carthu y cyfeirir ato ym Mhennod D13 paragraff 13.5.78 yn cael ei sicrhau yn y CoCP?
<b>Q8.0.11</b>	Yr Ymgeisydd	WD	Ym Mhennod D13, paragraff 13.6.13, rhoddir terfynau ar gyfer gollwng carthffosiaeth. Sut byddai'r rhain yn cael eu sicrhau?
<b>Q8.0.12</b>	Yr Ymgeisydd	WD	Mae Pennod D13, paragraff 13.6.45, yn rhoi terfynau gwahardd ar gyfer pori. Sut byddai'r rhain yn cael eu sicrhau?
<b>Q8.0.13</b>	Yr Ymgeisydd	WD	Mae Pennod D13, paragraff 13.6.281, yn rhoi'r paramedrau morthwyl achos gwaethaf a ddefnyddiwyd ar gyfer modelu. A yw'r cyfyngiadau paramedr

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			hyn yn cael eu sicrhau yn y dDCO?
<b>Q8.0.14</b>	Yr Ymgeisydd	WD	Mae Pennod D13, paragraff 13.6.366, yn datgan y bydd arfer gorau'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â gosod pyst seiliau. Pa fesurau a fyddai'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag effeithiau eraill ar sŵn yn ystod y cam adeiladu?
<b>Q8.0.15</b>	NRW	WD	A all NRW gadarnhau eu bod yn fodlon mai'r Safle Gwaredu a ddisgrifir ym Mhennod D13 adran 13.7 yw'r safle gorau sydd ar gael ac y byddai digon o le yno? Os na, pam?
<b>Q8.0.16</b>	NRW	WD	A yw NRW yn fodlon y byddai'r mesurau lliniaru ychwanegol a amlinellir ym Mhennod D13 paragraff 13.8.6 yn ddigonol i leihau arwyddocâd cyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron o ganolig i fach? Os na, pam?
<b>Q8.0.17</b>	NRW	WC/WD	A yw NRW yn fodlon y byddai'r gwelliant a ddisgrifir ym Mhennod D13 paragraff 13.8.8 yn ddigonol i leihau arwyddocâd effeithiau ar gynefinoedd islanw a rhynglanw o ganolig i fach o ganlyniad i golled uniongyrchol o dan ôl troed y Gwaith Morol?
<b>Q8.0.18</b>	Yr Ymgeisydd	WC	Sut byddai'r mesurau gwella ar gyfer gwelliant ecolegol a ddisgrifir ym Mhennod D13 paragraff 13.8.8 a'r rhaglen fonitro yn 13.8.9 yn cael eu sicrhau?
<b>Q8.0.19</b>	Yr Ymgeisydd	WD	Mae paragraff 8.3.12 is-CoCP y Gwaith Morol ([APP-416]) yn rhoi manylion mesurau cyfyngu ar sŵn ar gyfer Môn-wenoliaid. A all yr Ymgeisydd ddisgrifio sut y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud o ddydd i ddydd?
<b>Q8.0.20</b>	Yr Ymgeisydd	WC	Yn ei RR [RR-088] paragraff 4.2.2, mae NRW yn dweud bod angen mwy o wybodaeth i ddangos na fyddai infertebratau môr-waelodol yn Ardal Ddyfrol y Moelrhoniaid mewn perygl o ddirywio. A all yr Ymgeisydd ddarparu'r

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			wybodaeth hon?
<b>Q8.0.21</b>	Yr Ymgeisydd ac NRW	WC/WD	Ym mharagraff 4.2.9 ei RR, nid yw NRW yn cytuno "na ragwelir unrhyw effeithiau ar y dŵr ymdrochi yng Nghemaes, ac ystyrir bod Prosiect Wylfa Newydd yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi". A all y ddau barti ddatrys pryderon NRW?
<b>Q8.0.22</b>	NRW	WC	Ym mharagraff 4.3.3 ei RR, mae NRW yn nodi y gallai mwy o bysgod gael eu dal trwy greu bae cysgodol. A all NRW awgrymu sut y gellir rhagfynegi hyn?
<b>Q8.0.23</b>	Yr Ymgeisydd ac NRW	WD	Ym mharagraff 4.6.1 ei RR, mae NRW yn dweud nad oes digon o dystiolaeth i ddangos bod effeithiau cronol y prosiect ar gynefinoedd môr-waelodol yn ddibwys. A all yr Ymgeisydd wneud sylwadau?
<b>Q8.0.24</b>	Yr Ymgeisydd, IACC ac NRW	Q	<p>Mae paragraff 6.4.127 y Datganiad Cynllunio [APP-406] yn cyfeirio at y ffaith bod perygl llifogydd yn y cyfleuster Parcio a Theithio arfaethedig. Yna mae'n datgan 'Byddai mesurau lliniaru ychwanegol arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith...' A all yr Ymgeisydd gadarnhau beth fyddai'r mesurau lliniaru ychwanegol hyn a ph'un a fyddent yn cael eu rhoi ar waith?</p> <p>A all IACC ac NRW gadarnhau pa fesurau ychwanegol a fyddai'n angenrheidiol, yn eu barn nhw, a sut yr hoffent i'r mesurau ychwanegol hyn gael eu sicrhau?</p>
<b>Q8.0.25</b>	IACC ac NRW	Q	Mae'r gofynion, fel y maent wedi'u geirio ar hyn o bryd, yn dibynnu ar y CoCP [APP-414-APP-421] i gyflawni'r manylion mewn perthynas â strategaethau draenio a chynlluniau lliniaru llifogydd. Er bod y CoCPs yn cyfeirio at ddrafftio'r dogfennau hyn gan yr Ymgeisydd, nid yw'n ymddangos y byddai'n rhaid iddynt gael eu cyflwyno i IACC neu NRW a'u cymeradwyo ganddynt (e.e. adran 10.5 WNCOP [APP-414]). O ystyried y

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			pryderon ynglŷn â draenio a llifogydd (yn enwedig mewn perthynas â'r cyfleuster Parcio a Theithio arfaethedig), a yw IACC ac NRW yn fodlon â'r cynigion hyn ac, os nad ydynt, pa ddulliau yr hoffent eu gweld yn cael eu rhoi ar waith i reoli'r elfennau hyn o'r cynllun?
<b>Q8.0.26</b>	Yr Ymgeisydd, IACC ac NRW	WA	<p>Mae Cod Ymarfer Gweithredu Wylfa Newydd [APP-421] yn 10.3 yn cyfeirio at ddatblygu cynllun lliniaru llifogydd ar gyfer y cam gweithredu.</p> <p>Yr Ymgeisydd – a fyddai'r cynllun hwn yn cael ei lunio ar y cyd ag IACC ac NRW, ac a fyddai'n cael ei gyflwyno i IACC a/neu NRW i'w gymeradwyo?</p> <p>IACC/NRW – a fyddech chi eisiau i'r cynllun hwn gael ei gyflwyno i chi i'w gymeradwyo?</p>
<b>Q8.0.27</b>	Yr Ymgeisydd	WF	Mae ES D13 paragraff 13.5.70 braidd yn anghyson o ran y pwynt rhyddhau ar gyfer y system adfer a dychwelyd pysgod. Yn gyntaf, mae'n datgan nad yw'r lleoliad wedi'i bennu eto, ond dywedir ei fod 'i'r gogledd o'r morglawdd dwyreiniol yn ardal y gyfuchlin -6.0m'. Wedi hynny, mae'n dweud y byddai'r pwynt rhyddhau'n cael ei osod ar wyneb gogleddol y morglawdd dwyreiniol. A all yr Ymgeisydd gadarnhau?
<b>9.</b>	<b>Sŵn a Dirgryniad</b>		
<b>Q9.0.1</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae paragraff 6.4.13 dogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125] yn nodi y byddai gweithgareddau adfer terfynol yn dechrau ym mis 112 h.y. ar ôl diwedd blwyddyn 9 (108 mis). Nid yw'n ymddangos bod hyn yn cytuno â'r wybodaeth yn y siart Gantt yn Ffigur A2-6 Llinell Amser Adeiladu dogfen A2 yr ES [APP-056], sy'n nodi y byddai'r gwaith adfer terfynol yn digwydd ym mlynnyddoedd 7 – 9. Esboniwch yr anghysondeb ymddangosiadol hwn.
<b>Q9.0.2</b>	Yr Ymgeisydd	WF	Mae paragraffau 6.4.39 – 6.4.41 dogfen B6 yr ES [APP-071] yn datgan y

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			defnyddiwyd techneg daenlen, sy'n defnyddio dull rhagfynegi empirig, i amcangyfrif lefelau dirgryniad. Mae'r paragraffau hyn yn awgrymu y gellir cyfiawnhau'r ymagwedd gan fod rhagfynegi lledaeniad dirgryniad yn gywir yn gofyn am fodelau cyfrifiadurol cymhleth a fewnbynwyd â data manwl, sydd y tu hwnt i asesiad dirgryniad ar y cam hwn o'r cynnig. Dywedir hefyd bod dulliau rhagfynegi empirig yn tueddu i oramcangyfrif lefelau dirgryniad, ac felly eu bod yn ddull ceidwadol. Cadarnhewch a gytunwyd ar yr ymagwedd hon ag ymgynghori perthnasol.
<b>Q9.0.3</b>	IACC ac NRW	WF	Mae paragraff 6.4.61 dogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125] yn amlygu nifer o ffynonellau sŵn posibl nad ydynt wedi cael eu cynnwys yn yr asesiad ar y sail eu bod yn debygol o gael effeithiau dibwys. Ni nodir p'un a gytunwyd ar yr ymagwedd hon â'r cyrff ymgynghori perthnasol. A all IACC ac NRW gadarnhau i ba raddau y maent yn fodlon bod yr holl ffynonellau sŵn perthnasol wedi cael eu hystyried?
<b>Q9.0.4</b>	IACC ac NRW	WF	O ran sŵn posibl o'r gwyntellau a ddefnyddir i wthio aer trwy staciau adeilad yr adweithydd, mae paragraff 6.4.62 dogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125] yn dweud nad yw'r system wacáu wedi cael ei phennu eto ac nad yw'r lefelau sŵn yn hysbys, a bod senario achos gwaethaf o bŵer sŵn cyfunol o oddeutu 110dB(A) wedi cael ei dybio yn seiliedig ar farn broffesiynol. Ni nodir a drafodwyd hyn â chyrff ymgynghori perthnasol. Gofynnir i IACC ac NRW nodi a oes ganddynt unrhyw wrthwynebiadau i'r tybiaethau a wnaed yn y senario achos gwaethaf ar gyfer y system wacáu, h.y. y lefel 110dB(A).
<b>Q9.0.5</b>	Yr Ymgeisydd	WF	Mae paragraff 6.4.63 dogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125] yn nodi uchderau platfform adeiladau a ddefnyddiwyd ar gyfer modelu sŵn. Nid yw'r rhain yn adlewyrchu paramedrau lleiaf neu fwyaf unrhyw un o'r pyrth a bennir yn Nhabl WN5 yn Atodlen 3 y dDCO [APP-029]. Esboniwch y sail ar

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			gyfer yr uchder platfformau a ddewiswyd at ddibenion modelu.
Q9.0.6	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Mae Tabl D6-18 (ar dudalen D6-41) dogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125] yn cyflwyno arwyddocâd effeithiau sŵn adeiladu rhagfynedig ar grwpiau derbynyddion preswyl A – H o ran nifer yr anheddau y gellid effeithio arnynt yn ôl pob maen prawf maint newid (mawr i ddibwys). Mae'r wybodaeth ddilynol yn crynhoi'r canlyniadau, ond mae'n ymddangos bod rhai hepgoriadau/anghysondebau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ni chyfeirir at grŵp derbynyddion C, er bod y grŵp hwn, o'r 5 grŵp a fyddai'n profi newid mawr o bosibl, yn cynnwys y nifer ail fwyaf o anheddau (8), gan arwain at effaith arwyddocaol fawr;</li> <li>• yn y tabl, amlygir 416 o anheddau (y nifer fwyaf yr effeithir arnynt mewn unrhyw un lleoliad) yng ngrŵp derbynyddion H fel rhai a fyddai'n profi effaith arwyddocaol gymedrol o ganlyniad i faint newid bach, er y dywedir y bydd yr asesiad yn canolbwyntio'n bennaf ar fesurau lliniaru ychwanegol ar gyfer eiddo yng ngrwpiau B ac F ar y sail y gallai'r gwelliannau mwyaf gael eu gwneud yn y lleoliadau hynny;</li> <li>• ym mharagraff 6.5.12, mae'n ymddangos y disgwylir i gyfanswm o 814 o anheddau brofi effaith 'arwyddocaol gymedrol' o ganlyniad i faint newid bach, er yr amlygir 815 yn y tabl; ac</li> <li>• ym mharagraff 6.5.15, disgwylir i gyfanswm o 44 o anheddau brofi effaith fach (nid arwyddocaol) o ganlyniad i faint newid dibwys, er bod 43 wedi'u hamlygu yn y tabl.</li> </ul> <p>Gofynnir i'r Ymgeisydd esbonio/eglwuro'r anghysondebau ymddangosiadol hyn ac unrhyw oblygiadau i'r asesiad, yn enwedig o ran yr angen i liniaru unrhyw effeithiau arwyddocaol.</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
Q9.0.7	Yr Ymgeisydd	Q	Mae Tablau D6-19, D6-20 a D6-21 dogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125] yn cyflwyno'r wybodaeth uchod mewn perthynas â gwestai ac ysgolion (a amlygir fel derbynyddion sensitifrwydd uchel hefyd); adeiladau cymunedol a mannau addoli (a amlygir fel derbynyddion sensitifrwydd canolog); ac adeiladau masnachol a swyddfeydd, yn y drefn honno. Fodd bynnag, ni nodir yr enwau a'r lleoliadau. Er mwyn rhoi'r cyd-destun ar gyfer y derbynyddion hyn, gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth hon neu ddatgan ble y gellir dod o hyd iddi yn nogfennau'r cais.
Q9.0.8	Yr Ymgeisydd	Q	O ran gweithredu, dywedir bod Tabl D6-26 (tudalen 52) dogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125] yn cyflwyno lefel amcangyfrifedig gychwynnol yr effaith yn ystod gweithrediadau arferol ar gyfer yr eiddo yr effeithir arno fwyaf o fewn pob grŵp derbynyddion preswyl (cyn addasu ar gyfer ffactorau cyd-destunol perthnasol). Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys grŵp derbynyddion H. Gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth hon neu esbonio'r hepgoriad ymddangosiadol.
Q9.0.9	IACC	Q	Gofynnir i IACC ddatgan p'un a yw'n cytuno â thybiaeth yr Ymgeisydd ym mharagraff 6.5.111 dogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125] na fyddai'r profion larwm argyfwng yn arwain at effaith arwyddocaol debygol ar dderbynyddion cyfagos sy'n sensitif i sŵn, er gwaethaf y diffyg manylion ymddangosiadol i gyfiawnhau'r safbwynt hwn?
Q9.0.10	Yr Ymgeisydd	Q	O ran adeiladu'r cyfleusterau gwastraff ymbelydrol, mae'r Ymgeisydd yn dod i'r casgliad, ym mharagraff 6.5.115 dogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125], nad yw'r effeithiau posibl yn debygol o fod yn arwyddocaol. Dywedir hefyd nad yw'r rhestr beiriannau a'r rhaglen ar gyfer y storfa gweddillion tanwydd wedi cael eu llunio eto, ac felly ni wnaed unrhyw fodelu sŵn neu ddirgryniad. Gofynnir i'r Ymgeisydd gyfiawnhau'r casgliadau y daethpwyd iddynt ynglŷn ag absenoldeb effeithiau



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			arwyddocaol tebygol o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau gwastraff pan fo cyn lleied o fanylion ar gael ar hyn o bryd ynglŷn â'u hadeiladu.
Q9.0.11	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Amlinellir yr effeithiau sŵn a dirgryniad gweddilliol arwyddocaol a ragfynegir yn Nhabl D6-35 yn Adran 6.7 (tudalennau D6-77 to D6-82) dogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125]. Mae paragraff 6.7.2 yn datgan na amlygwyd unrhyw effeithiau gweddilliol arwyddocaol ar gyfer y camau gweithredu na datgomisiynu, ond nid yw hyn yn cyd-fynd â'r wybodaeth a geir yn Nhabl D6-35, sy'n amlygu effaith fawr yn ystod y cam datgomisiynu. Amlygir yr effeithiau gweddilliol arwyddocaol fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• effaith fawr ar 321 o eiddo preswyl ac effaith gymedrol ar 850 o eiddo preswyl o ganlyniad i amlygiad i sŵn adeiladu (yn bennaf yng ngrwpiau derbynyddion B a H);</li> <li>• effaith fawr ar 1 gwesty ac effaith gymedrol ar 4 gwesty o ganlyniad i amlygiad i sŵn adeiladu;</li> <li>• effaith gymedrol ar 1 ysgol o ganlyniad i amlygiad i sŵn adeiladu;</li> <li>• effaith gymedrol ar 1 man addoli o ganlyniad i amlygiad i sŵn adeiladu;</li> <li>• effaith gymedrol ar 1 eiddo masnachol a 5 swyddfa o ganlyniad i amlygiad i sŵn adeiladu;</li> <li>• effaith gymedrol ar eiddo preswyl, ac adeiladau eraill a drafodir yn (ES D6) Adran 6.5.29 ymlaen, sy'n agos i'r WNDA o ganlyniad i amlygiad i ddirgryniad adeiladu; ac</li> <li>• effaith fawr ar eiddo preswyl, ysgolion a gwestai yn ystod y cam datgomisiynu o ganlyniad i amlygiad i sŵn datgomisiynu.</li> </ul> <p>O ran y chweched pwynt bwled uchod ynglŷn â dirgryniad adeiladu, dywedir y bydd yr effaith yn fawr ar bob derbynydd cyn mesurau lliniaru, ac fe'i</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			gostyngir i effaith gymedrol ar yr holl dderbynyddion yn dilyn mesurau lliniaru ychwanegol. Fodd bynnag, yn Adran 6.5, rhagfynegir y bydd yr effeithiau ar nifer o'r derbynyddion yn gymedrol cyn mesurau lliniaru. Nid yw'n eglur pa dderbynyddion y mae'n cyfeirio atynt. Gofynnir i'r Ymgeisydd amlygu'r derbynyddion penodol y rhagfynegir effaith weddilliol arwyddocaol arnynt mewn perthynas â dirgryniad adeiladu, a lefel arwyddocâd yr effaith.
<b>Q9.0.12</b>	IACC	Q	Ni nodir p'un a yw rhanddeiliaid perthnasol wedi cytuno â'r rhestr o brosiectau a gynhwysir yn yr asesiad o effeithiau cronol. Gofynnir i IACC ddatgan a yw'n fodlon bod y rhestr yn cynnwys yr holl ddatblygiadau a allai gyfrannu at effaith arwyddocaol gronol gyda'r datblygiad arfaethedig ac, os na, amlygu unrhyw ddatblygiadau eraill sy'n berthnasol yn ei farn ef.
<b>Q9.0.13</b>	Yr Ymgeisydd	WF	O ran newidyddion yr Orsaf Bŵer, mae paragraffau 6.4.89 i 6.4.92 dogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125] yn disgrifio'r terfynau maes agos ar gyfer sŵn a osodir yng Nghod Ymarfer Gweithredu ('CoOP') Wylfa Newydd [APP-421], ac mae'n dweud y trafodwyd y rhain gydag IACC, er na nodir a gytunwyd arnynt. Mae paragraffau 6.4.95 – 6.4.97 yn datgan bod y modelu'n dangos y byddai'r terfynau'n cael eu croesi wrth dderbynyddion penodol a bod sawl ffordd o gyflawni'r gostyngiad sy'n ofynnol. Rhoddir enghraifft. Nid yw'r wybodaeth yn y CoOP yn rhoi mwy o fanylion am fesurau lliniaru penodol, ac felly sicrwydd y byddai mesurau effeithiol yn cael eu rhoi ar waith. Gofynnir i'r Ymgeisydd amlygu'r mesurau lliniaru arfaethedig, nodi ble y'u sicrheir yn y dDCO [APP-029] neu ddogfennau eraill y cais, a chyfiawnhau'r hyder sydd ganddo yn eu heffeithiolrwydd.
<b>Q9.0.14</b>	IACC	Q	Mae paragraff 6.4.26 dogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125] yn datgan y byddai cydymffurfio â'r Strategaethau Rheoli Sŵn a Dirgryniad a amlinellir yng Nghod Ymarfer Adeiladu ('CoCP') Wylfa Newydd a'r MPSSCoCP [APP-414 ac APP-415, yn y drefn honno] yn ofyniad o'r

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			contract rhwng Horizon a'r contractwyr a benodir i wneud y gwaith. Mae Adran 2.4 APP-414 yn datgan y byddai'n rhaid i'r contractwyr baratoi Cynlluniau Rheoli Amgylcheddol Adeiladu ('CEMPs') yn unol â hynny, a fyddai'n cael 'eu hadolygu a'u derbyn' gan yr Ymgeisydd cyn i'r gwaith ddechrau. Gofynnir i IACC nodi a yw'n fodlon â'r ymagwedd hon?
<b>Q9.0.15</b>	IACC ac NRW	Q	Mae Adran 6.4 dogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125] yn rhoi disgrifiad manwl o'r mesurau lliniaru arfaethedig ac yn datgan, mewn perthynas â nifer ohonynt, y byddant yn cael eu rhoi ar waith 'i'r graddau sy'n ymarferol'. Er y croesgyfeirir i God Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd [APP-414], ni roddir gwybodaeth fwy penodol yn y ddogfen honno. A yw IACC ac NRW yn fodlon bod digon o sicrwydd y bydd y mesurau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith?
<b>Q9.0.16</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae paragraff 6.4.28 dogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125] yn datgan y byddai peiriannau ac offer trwm yn cydymffurfio â'r terfynau sŵn a ddyfynnir yng Nghyfarwydddeb Sŵn Awyr Agored 2000/14/EC, fel yr amlinellir yng Nghod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (WNCocP) [APP-414]. Fodd bynnag, nid yw'r terfynau sŵn wedi cael eu nodi yn yr WNCocP. Gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth hon neu nodi ble y gellir dod o hyd iddi yn nogfennau'r cais.
<b>Q9.0.17</b>	Yr Ymgeisydd	WF	Mae paragraff 6.4.44 dogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125] yn nodi y byddai gweithgareddau allweddol a allai fod yn swllyd yn cael eu cyfyngu yn ystod y cyfnodau mwy sensitif gyda'r nos, yn ystod y nos ac yn ystod y penwythnos, ond nid yw'n rhoi llawer o wybodaeth ynglŷn â pha fath o weithgareddau yw'r rhain a sut y byddent yn cael eu cyfyngu. Ni roddir gwybodaeth ychwanegol yn yr MPSSCoCP [APP-415]. Gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu manylion am yr holl weithgareddau y bwriedir iddynt gael eu cyfyngu a sut y byddai cyfyngiadau o'r fath yn gweithio.

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q9.0.18</b>	Partïon â Buddiant	Q	Ni roddwyd cyfiawnhad yn nogfen D6 Sŵn a dirgryniad yr ES [APP-125] ynglŷn â pham na ellir lliniaru'r effeithiau gweddilliol arwyddocaol ymhellach. Gofynnir i Bartïon â Buddiant ddatgan a ydynt yn fodlon bod y mesurau lliniaru a gynigiwyd yn briodol ac, os na, pam.
<b>Q9.0.19</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae paragraff 4.3.6 y gynrychiolaeth gan Lywodraeth Cymru [RR-092] yn amlygu'r cyd-destunau a ddarperir gan: Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015; canllawiau polisi statudol 2017 ar reoli ansawdd aer lleol yng Nghymru; a, chynllun gweithredu ynghylch sŵn a seinwedd drafft 2018-2023 Llywodraeth Cymru (sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd). Sut mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi mynd i'r afael â'r cyd-destunau hyn mewn perthynas ag effeithiau posibl y datblygiad ar ansawdd aer a sŵn?
<b>Q9.0.20</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae paragraff 1.6.105 <i>Cyfeirnod Cais: 6.4.1 ES Cyfrol D – WNDA Datblygiad D1 – Datblygiad Arfaethedig</i> [REF] yn datgan '...byddai cymdogion agos yn cael eu hysbysu'n briodol am gyfnodau ffrwydro...'. Pwy fyddai'n cael ei ystyried yn 'gymydog agos' a beth fyddai'n cael ei ystyried yn 'hysbysu'n briodol'?
<b>Q9.0.21</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Gan gyfeirio at Gyfeirnod Cais: <i>6.4.6 1 ES Cyfrol D – WNDA Datblygiad D6 – Sŵn a dirgryniad</i> [REF], i ba raddau y byddai ffrwydradau'n amrywio o ran maint e.e. maint y wefr a thunelledd y graig a fyddai'n cael ei dadleoli? Pwy fyddai'n debygol o glywed y ffrwydrad a pha mor aml y disgwyliid iddo ddigwydd?
<b>Q9.0.22</b>	Yr Ymgeisydd	ADE	Ymatebwch i bryderon a godwyd mewn cynrychiolaethau (gan gynnwys RR-100, RR-113 ac RR-106), ynglŷn â'r effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â chlirio a chael gwared ar uwchbridd.

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q9.0.23</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Ymatebwch i bryderon a godwyd gan Bartion â Buddiant (RR-101, RR-119, RR-040, RR-117, RR-118 ac RR-007) ynglŷn ag: effeithiolrwydd mesurau lliniaru ar gyfer y rhai hynny a fyddai'n profi effeithiau (y gallai rhai ohonynt fod yn effeithiau mawr neu gymedrol) o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig; ac, effeithiolrwydd y Cynllun Cynorthwyo Cymdogaeth.
<b>Q9.0.24</b>	Cyngor Cymuned Mechell	WF	Yn eich RR, rydych wedi dweud eich bod o'r farn y byddai sŵn ac aflonyddu yn effeithio ar nifer o eiddo ym Mynydd Mechell. A allwch chi roi mwy o fanylion ynglŷn â sut y daethoch i'r casgliad hwn a nodi pa eiddo yr effeithir arnynt?
<b>Q9.0.25</b>	Yr Ymgeisydd	WF	Cynigir drymlinoedd artiffisial fel modd o leihau sŵn. A allai'r Ymgeisydd roi enghreifftiau o fannau lle y defnyddiwyd drymlinoedd artiffisial yn llwyddiannus i leihau sŵn ac, os yw'n bosibl, rhoi cyfle i'r ExA ymweld â safle lle mae drymlinoedd tebyg i'r rhai a gynigir ar waith?
<b>Q9.0.26</b>	Yr Ymgeisydd	WF	Mae'r WNCocP[APP-414] yn cynnig Strategaeth Lliniaru Sŵn Lleol (LNMS) ar gyfer, ymhlith pethau eraill, eiddo y byddai sŵn traffig yn cael effaith niweidiol arnynt, yn amodol ar nifer o feini prawf (paragraff 8.3.13). A all yr Ymgeisydd esbonio pa ddulliau a gynigir i ymdrin ag anghydfodau neu pan wrthodir honiad, e.e. pan fydd perchennog eiddo o'r farn bod problem ond nid yw HNP yn credu ei bod yn bodloni'r meini prawf a osodir ym mharagraff 8.3.13, neu pan fydd perchennog yr eiddo o'r farn bod y gwelliannau a gynigir (paragraff 8.3.17) yn annerbyniol?
<b>Q9.0.27</b>	Yr Ymgeisydd	WF	Mae paragraff 8.4.3 [APP-414] yn disgrifio beth fyddai'n digwydd pe byddai sŵn a dirgryniad yn croesi'r lefelau a bennwyd. A all yr Ymgeisydd esbonio: (a) Pam nad yw rhoi'r gorau i weithio wedi'i gynnwys ar y rhestr hon? (b) A yw'n credu y dylai bafflau/rhwystrau sŵn cludadwy gael eu cynnwys ym mhwynt bwled 4 ac, os na, a ddylent gael eu cynnwys fel

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			mesur posibl? (c) Beth a olygir gan 'fesurau dichonadwy a rhesymol eraill' a sut y gellid diffinio hyn ymhellach?
<b>Q9.0.28</b>	Yr Ymgeisydd	ADB	Mae paragraff 8.3.1 yr is-CoCP Parcio a Theithio [APP-418] yn nodi nifer o fesurau arfer da i leihau sŵn gymaint â phosibl. Gofynnir i'r Ymgeisydd:  (a) Gadarnhau y bydd y cyfleuster Parcio a Theithio yn cael ei osod mewn ffordd sy'n cynyddu llif traffig i'r eithaf a lleihau'r angen i fysiau gwennol neu gerbydau eraill sy'n gwneud sŵn blipio facio'n ôl; a (b) Datgan pa fesurau a fyddai'n cael eu rhoi ar waith i leihau sŵn blipio wrth facio'n ôl gymaint â phosibl.
<b>Q9.0.29</b>	Yr Ymgeisydd	ADC	Cynigir nifer o fesurau lliniaru arfer da i leihau sŵn gymaint â phosibl ym mharagraff 8.2.4 is-CoCP y Ganolfan Logisteg [APP-419]. A all yr Ymgeisydd esbonio sut y bydd yn sicrhau bod gyrwyr danfoniadau'n ymwybodol o'r mesurau hyn a sut y cânt eu gorfodi ar y safle?
<b>Q9.0.30</b>	Yr Ymgeisydd	WF	Mae ES B6 paragraff 6.4.82 yn datgan "Nid yw'n bosibl rhagfynegi dirgryniadau ffrwydro hyd nes y bydd dyluniadau ffrwydro wedi'u cwblhau. Felly, mae'r asesiad hwn wedi gosod gwerthoedd terfyn ar gyfer dirgryniadau ffrwydro, yr ystyrir y byddant yn arwain at effeithiau dibwys neu fach, a byddai'r holl ffrwydradau'n cael eu dylunio i fod islaw'r trothwyon hyn." Rhoddir y trothwyon hyn yn adran 8.2 is-CoCP prif safle'r Orsaf Bŵer. Esboniwch sut y byddai'r broses ddylunio'n sicrhau bod lefelau dirgryniad yn aros o dan y trothwyon hyn yn ystod y cam adeiladu.
<b>Q9.0.31</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	ADC	Amlygwyd nifer o ysgolion (e.e. Ysgol Gynradd Cemaes) y gallai sŵn effeithio arnynt, a dywedir y gallai fod angen mesurau i liniaru'r effeithiau hyn. Gofynnir i'r Ymgeisydd gadarnhau:

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>(a) pan aseswyd yr ysgolion, a ystyriwyd effaith y cynnig ar eu hardaloedd allanol (e.e. meysydd chwarae a chaeau chwaraeon);</p> <p>(b) a fyddai'r cynnig yn effeithio ar unrhyw un o'r ardaloedd hyn; a</p> <p>(c) phe byddai angen mesurau lliniaru, pa ffurf y byddai'r rhain yn ei chymryd i alluogi disgyblion yn yr ysgol i barhau i chwarae neu gymryd rhan mewn chwaraeon y tu allan?</p> <p>A hoffai IACC wneud unrhyw sylwadau?</p>
<b>10.</b>	<b>Economaidd-gymdeithasol</b>		
<b>10.1</b>	<b>Llety</b>		
<b>Q10.1.1</b>	Yr Ymgeisydd	WF	<p>Yn Nhabl 5.2 Datganiad Cynaliadwyedd yr Ymgeisydd, gofynnir i'r Ymgeisydd gynghori ar:</p> <p>Amcan 3 – perthnasedd swyddi, sgiliau, addysg a hyfforddiant</p> <p>Amcan 4 – pam nad yw llety'n agwedd negyddol yn erbyn y meincnod yn ystod adeiladu</p> <p>Amcan 5 – mae trafndiaeth gynaliadwy yn agwedd gadarnhaol bwysig, ond nid yw'r Datganiad Cynaliadwyedd yn sôn am gerbydau trydan neu hybrid, sy'n arbennig o berthnasol i fysiau.</p> <p>Amcan 13 – mae llety'n agwedd gadarnhaol fach, ond mae'r disgrifiad a roddir ym mharagraff 5.15.10 yn awgrymu melyn, sef amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol a negyddol posibl.</p>
<b>Q10.1.2</b>	IACC	ADA	A ydych chi'n credu y byddai campws arfaethedig y safle'n cydymffurfio â pholisi PS 10 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLIC)? Os na, pam?
<b>Q10.1.3</b>	Yr Ymgeisydd	ADA	<p>Ymatebwch, gyda thystiolaeth, i bryderon IACC ynghylch y canlynol:</p> <p>(a) Nid oes cyfiawnhad digonol o'r angen i letya hyd at 4000 o weithwyr</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>ar y safle;</p> <p>(b) Pam y gwrthodwyd lleoliadau amgen ar gyfer y llety dros dro, gan gynnwys safleoedd posibl eraill o fewn NWDA a rhai mewn mannau eraill;</p> <p>(c) Mae'r cyfleusterau hamdden a'r cyfleusterau eraill oddi ar y safle yn annigonol i weithlu o 9000?</p>
<b>Q10.1.4</b>	Yr Ymgeisydd	ADA	<p>Mae paragraff 4.3.14 y Datganiad Cynllunio [APP-406] yn cyfeirio at ddarparu campws y safle 'fesul cam' ac mae'r ES [APP-088– paragraff 1.4.9 ac APP-122 – paragraff 3.4.6] yn dweud y daw'r lleoedd gwely ar gael pan gyrhaeddir trothwyon y gweithlu fel y'u nodir yn y gofyniad dDCO.</p> <p>Gofynnir i'r Ymgeisydd</p> <p>(a) Nodi ble y gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am hyn yn y dogfennau a gyflwynwyd neu ddarparu manylion ychwanegol ynglŷn â sut y bydd y dull hwn o gyflwyno fesul cam yn gweithio a ph'un a fyddai'n gysylltiedig â'r Strategaeth Rheoli Llety Gweithwyr (WAMS)?</p> <p>(b) Nodi beth yw'r gofyniad perthnasol a ble y cyfeirir at y trothwyon?</p> <p>(c) Beth fyddai niferoedd y gweithlu cyn i'r angen am gampws y safle gael ei ysgogi, a beth fyddai'r trefniadau llety ar gyfer y gweithwyr hyn?</p> <p>(ch) Pam mae rhaglen adeiladu 5 mlynedd ar gyfer campws y safle?</p> <p>(d) Pryd yn ystod y rhaglen adeiladu/camau cyflwyno graddol y byddai elfen cyfleusterau iechyd a chymdeithasol (gan gynnwys y MUGAs) campws y safle yn cael ei darparu, ac os na fydd hyn yn ystod y camau cyntaf, pa drefniadau amgen a fyddai'n cael eu gwneud ar gyfer anghenion iechyd a chymdeithasol gweithwyr yn ystod y cyfnod hwn.</p>
<b>Q10.1.5</b>	IACC a'r Ymgeisydd	ADA	Cyfeiriwyd yn yr RR at ganiatâd cynllunio sydd eisoes yn bodoli (Cyfeirnod Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI): 46C427K/TR/EIA/ECON) am lety ar gyfer



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>3,500 o weithwyr yn safleoedd Cae Glas a Kingsland yng Nghaergybi.</p> <p>(a) A all IACC ddarparu copi o'r hysbysiad o benderfyniad ac adroddiad y pwyllgor ar gyfer y caniatâd cynllunio hwn ac unrhyw sylwadau yr hoffai eu gwneud ar y cynllun hwn; ac</p> <p>(b) A all yr Ymgeisydd ymhelaethu ymhellach ar y rhesymau (Adran 2.2 APP-122] pam mae wedi dewis darparu campws ar y safle ar gyfer gweithwyr yn hytrach na defnyddio'r safleoedd y rhoddwyd caniatâd iddynt ac sydd ar gael yn awr o ran cynllunio ac a fyddai'n darparu gwaddol tymor hir?</p>
<b>Q10.1.6</b>	IACC a'r Ymgeisydd	WA	<p>Pan fydd ar waith, byddai angen 1,000 o weithwyr dros dro bob naw mis i ymdrin â chynnodau cau cynlluniedig am gyfnod o 25-30 o ddiwrnodau. Nid yw effeithiau hyn wedi cael eu hasesu oherwydd cynhaliwyd cyfnodau cau yn Wylfa A heb effaith anffafriol ar y stoc dwristiaeth (paragraff 1.5.125 [APP-088]).</p> <p>(a) Faint o weithwyr oedd eu hangen ar gyfer y cyfnodau cau yn Wylfa A a pha mor aml y'u cynhaliwyd?</p> <p>(b) A ddarparwyd llety ar gyfer y gweithwyr hyn?</p> <p>(c) A oedd cyfnodau cau Wylfa A wedi'u hamseru fel nad oeddent yn digwydd yn ystod y cyfnod twristiaeth brig ym mis Awst?</p> <p>(ch) A fyddai cyfnodau cau Wylfa B yn cael eu hamseru i osgoi cyfnod twristiaeth brig mis Awst ac, os yw IACC o'r farn bod hyn yn angenrheidiol, a fyddai angen iddo gael ei reoli gan ofyniad?</p>
<b>Q10.1.7</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Bwriedir i rywfaint o lety'r gweithlu ddod o'r lle sydd ar gael mewn llety carafanau a gwersylla. A all yr Ymgeisydd:</p> <p>(a) Egluro p'un a yw'r niferoedd lle pen a nodir yn cyfeirio at leiniau</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>parhaol yn unig (h.y. carafanau sefydlog/symudol a phebyll a godwyd yn barhaol) neu a ydynt yn cynnwys lleiniau dros dro (h.y. lle y byddai angen dod â charafán i'r safle neu godi pabell ar y safle)?</p> <p>(b) Os yw'r rhif yn cynnwys lleiniau dros dro, a all yr Ymgeisydd ddarparu ffigurau ar gyfer lleiniau dros dro a pharhaol ac, o ran y lleiniau parhaol, nodi faint o'r rhain a fyddai mewn carafán neu gartref sefydlog/symudol a faint a fyddai mewn pabell?</p> <p>(c) Rhoi enghreifftiau o brosiectau eraill lle yr ystyriwyd ei fod yn dderbyniol defnyddio pebyll i letya gweithwyr.</p> <p>(ch) Cyfeirir at y posibilrwydd y gallai gweithwyr ddod â'u carafanau eu hunain. Gan edrych ar brosiectau eraill tebyg mewn mannau eraill, a oes unrhyw ddata i awgrymu faint sy'n bosibl a ble y byddent yn cael eu lleoli?</p>
<b>Q10.1.8</b>	Yr Ymgeisydd, IACC a GCC	Q	<p>Mae Polisi TAI 14 y CDLIC yn ymdrin â defnyddio carafanau, cartrefi symudol a mathau eraill o lety nad ydynt yn barhaol ar gyfer gweithwyr dros dro. Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig i nifer o feini prawf.</p> <p>(a) A all yr Ymgeisydd gadarnhau, pan asesodd y lle gwrsylla a charafanio sydd ar gael, a roddwyd ystyriaeth i'r meini prawf hyn a dim ond y safleoedd/lleiniau hynny a oedd yn bodloni'r meini prawf a gynhwyswyd yn y cyfrifiadau terfynol ac, os na, pam?</p> <p>(b) A all IACC a GCC nodi faint o safleoedd carafanio/gwrsylla yn yr Ardal Astudio Allweddol (KSA) a fyddai'n bodloni'r meini prawf a osodwyd yn y polisi, yn eu barn nhw, a faint o le y byddent yn ei ddarparu?</p>
<b>Q10.1.9</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>(a) A allwch chi gadarnhau p'un a yw'r ffigurau a roddwyd ar gyfer lleoedd gwely yn y sector rhentu preifat yn cynnwys lleoedd gwely a fyddai'n dod o lety hunanarlwyo gwyliau neu ail gartrefi?</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>(b) Esboniwch sut rydych wedi gwahaniaethu rhwng llety rhentu preifat a bythynnod/fflatiau gwyliau.</p> <p>(c) Rhowch fanylion ynglŷn â'r mesurau diogelu rydych wedi'u rhoi ar waith i sicrhau nad yw bythynnod/fflatiau gwyliau wedi cael eu cyfrif ddwywaith fel 'llety twristiaid', 'sector rhentu preifat' neu 'ail gartrefi'?</p>
<b>Q10.1.10</b>	GCC a Phrifysgol Bangor	Q	<p>A oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r effaith y gallai'r galw am lety ar gyfer gweithwyr dros dro ei chael ar y stoc rhentu preifat ym Mangor sydd eisoes yn cael ei defnyddio gan fyfyrwyr Prifysgol neu sydd ar gael iddynt?</p> <p>(a) Faint o fyfyrwyr sydd ym Mhrifysgol Bangor ar hyn o bryd?</p> <p>(b) O'r rhain, faint y mae arnynt angen llety?</p> <p>(c) O'r rhai y mae arnynt angen llety, faint y gellir eu lletya mewn neuaddau preswyl neu lety'r Brifysgol a faint y gallai fod angen iddynt ddefnyddio'r sector rhentu preifat?</p> <p>(ch) A oes gan y Brifysgol strategaeth lety ac, os felly, a yw'n ystyried effaith bosibl y cais ac a oes unrhyw gynigion yn y dyfodol i'r Brifysgol ddarparu llety ychwanegol i fyfyrwyr ar ei phen ei hun neu mewn partneriaeth?</p> <p>(d) A hoffech wneud unrhyw sylwadau ar y mater hwn i'r ExA?</p>
<b>Q10.1.11</b>	IACC	Q	<p>Yn eich RR (paragraff 5.10.1), rydych yn dweud eich bod o'r farn bod y ffigurau a ddefnyddiwyd gan HNP i bennu capasiti llety presennol yn annibynadwy ac yn goramcangyfrif y capasiti. Pa dystiolaeth y gallwch ei darparu i gyfiawnhau'r datganiad hwn?</p>
<b>Q10.1.12</b>	IACC, GCC a Llywodraeth Cymru	Q	<p>A ydych chi'n credu y byddai'r mesurau lliniaru arfaethedig a amlinellir yn Adran 1.6 yr ES Cyfrol C [APP-088] mewn perthynas â monitro a rheoli tai a chefnogi darparu tai ychwanegol yn foddhaol?</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q10.1.13</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae paragraff 1.5.37 [APP-088] yn amcangyfrif y byddai tua 600 o weithwyr yn ceisio symud i stoc berchen-feddianwyr (h.y. prynu tŷ/fflat). A allwch chi gadarnhau a fyddai'r rhain yn weithwyr adeiladu neu weithredu ac, os felly, a allwch chi roi ffigurau ar wahân ar gyfer pob un?
<b>Q10.1.14</b>	IACC, GCC, Grŵp Cynefin a Grŵp Tai Pennaf	Q	(a) Rhowch fanylion faint o dai fforddiadwy a adeiladwyd o fewn y KSA yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn ôl y math o dai (e.e. fflat, tŷ), maint (e.e. 1 ystafell wely, 2 ystafell wely) a'r math o ddeiliadaeth (e.e. rhentu cymdeithasol, neu rent marchnad canolraddol neu ostyngedig); (b) Faint o alw sydd am dai fforddiadwy yn y KSA ar hyn o bryd? (c) A ddarparwyd digon o dai i fodloni'r angen presennol am dai fforddiadwy ac, os felly, a oes unrhyw gapasiti dros ben? (ch) Pa fesurau a gynigir i sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael i bobl leol o hyd?
<b>Q10.1.15</b>	Yr Ymgeisydd	Q	(a) Sut byddai'r Strategaeth Rheoli Llety Gweithwyr (WAMS) yn cael ei hariannu? (b) A fyddai tâl yn cael ei godi ar weithwyr i ddefnyddio'r gwasanaeth? (c) A fyddai tâl yn cael ei godi ar ddarparwyr llety i gofrestru/defnyddio'r gwasanaeth?
<b>Q10.1.1</b>	Yr Ymgeisydd	ADA	Mae'r Strategaeth Rheoli Gweithlu [APP-413] yn datgan y byddai amrywiaeth o gyfleusterau cymdeithasol, hamdden a chwaraeon ar gampws y safle i'w defnyddio gan weithwyr yn ystod eu hamser rhydd. A all yr Ymgeisydd gadarnhau:  (a) Pa gyfleusterau a fyddai'n cael eu darparu ar y safle. (b) A fyddai'r cyfleusterau hyn ar gael yn rhad ac am ddim ac, os na, p'un a fyddent yn cael eu cymorthdal. (c) A fyddai gweithwyr sy'n byw gartref yn gymwys i ddefnyddio'r

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>cyfleusterau.            (ch) Sut mae wedi cyfrifo bod ganddo ddigon o gyfleusterau i fodloni anghenion y 4,000 neu'r 9,000 o weithwyr arfaethedig (os bwriedir iddynt fod ar gael i weithwyr sy'n byw gartref).            (d) A fyddent ar gael i'w defnyddio gan y gymuned ehangach ai peidio (paragraff 2.3.1 BP18).            (dd) A roddwyd unrhyw ystyriaeth i b'un a allai'r cyfleusterau cymdeithasol gael eu hadeiladu mewn modd a fyddai'n golygu y gellid eu cadw yn ystod y cyfnod gweithredu fel gwaddol i'r gweithlu gweithredu/y gymuned leol?</p>
<b>Q10.1.17</b>	Yr Ymgeisydd, IACC a GCC	Q	<p>Mae'r strategaeth lety'n tybio y byddai datblygwyr tai yn disgwyl ac yn ymateb i'r galw a fyddai'n cael ei greu gan Brosiect Wylfa Newydd. O ystyried yr amser arwain hyd at adeiladu, a yw unrhyw rai o'r partion yn ymgysylltu â datblygwyr yn rhagweithiol ynglŷn â'r mater hwn i sicrhau bod y stoc dai sy'n angenrheidiol yn cael ei darparu mewn pryd ac am bris fforddiadwy? Sut byddai'r Gronfa Dai arfaethedig yn helpu i gyflenwi'r stoc hon?</p>
<b>Q10.1.18</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Mae'r strategaeth lety arfaethedig wedi'i seilio ar 2,000 o weithwyr sy'n byw gartref. Mae paragraff 1.5.21 yr ES [APP-088] yn datgan pe byddai hyn yn digwydd y gallai'r galw fynd yn fwy na'r cyflenwad am 'rai mathau o lety'. Eglurwch ba fathau o'r stoc y byddai hyn yn effeithio arnynt.</p>
<b>Q10.1.19</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Er yr ystyriwyd y llety sydd ar gael o ran fforddiadwyedd, a aseswyd addasrwydd llety i weithwyr? Os felly, pa feini prawf a ddefnyddiwyd?</p>
<b>Q10.1.20</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Cyfeirir at y llety sydd ar gael fel lle pen.            (a) A all yr Ymgeisydd egluro'r hyn a olygir gan le pen?            (b) O ystyried y byddai mwyafrif y gweithwyr (yn enwedig yn ystod y</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			cam adeiladu) yn unigolion sengl, cadarnhewch sut y cyfrifwyd ystafell wely ddwbl, e.e. a fyddai uned dwy ystafell wely yn cynnwys lle pen ar gyfer dau neu bedwar o bobl?
<b>Q10.1.21</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	Q	<p>Cyfeirir at y ffaith y gallai cyfyngiadau trwyddedu a chynllunio fodoli ar gyfer safleoedd carafanau a gweryslla mewn perthynas â deiliadaeth.</p> <p>(a) A oes cyfyngiadau tebyg (e.e. amodau cynllunio) yn bodoli ar gyfer eiddo arall yn y stoc dwristiaeth, fel bythynnod gwyliau?</p> <p>(b) Os oes, sut byddai hyn yn effeithio ar ffigurau'r stoc sydd ar gael ac a roddwyd ystyriaeth i hyn?</p> <p>(c) A fyddai IACC yn cefnogi dileu/atal yr amodau/cyfyngiadau trwydded hyn dros dro fel bod stoc yn gallu cael ei defnyddio ar gyfer llety gweithwyr yn ystod y cam adeiladu?</p>
<b>Q10.1.22</b>	Yr Ymgeisydd, IACC a GCC	Q	<p>Mae Adran 9.3 yr ES [APP-412] yn gwneud nifer o ddatganiadau ynglŷn â'r hyn y 'gallai'r' Gronfa Dai ei wneud. A all yr Ymgeisydd gadarnhau:</p> <p>(a) Yr hyn y 'byddai'n' ei wneud?</p> <p>(b) Sut y byddai'n gweithredu a phwy fyddai'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd fwyaf effeithiol o wario'r arian?</p> <p>(c) Pa gronfeydd fyddai ar gael iddi ac a fyddai'r rhain ar gael ar y dechrau neu'n cael eu cyflwyno'n raddol ar draws y prosiect cyfan?</p> <p>(ch) Beth fyddai'n digwydd yn achos anghydfod?</p> <p>A all IACC a GCC gadarnhau a ydynt yn credu y byddai'r Gronfa Dai yn helpu i hybu'r cyflenwad tai yn yr ardal? Os na, pam?</p>
<b>Q10.1.23</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Disgwylir y byddai rhywfaint o lety'n cael ei ddarparu trwy ddefnyddio llety cudd (ystafelloedd sbâr, rhandai ac ati). A all yr Ymgeisydd nodi pa fesurau

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			y byddai'n eu cynnig mewn perthynas â diogelu?
<b>Q10.1.24</b>	IACC a GCC	Q	Ni fyddai'r WAMS [APP-412] yn ddogfen ardystiedig, er y byddai rhai o'r mesurau a gynhwysir ynddi'n cael eu sicrhau trwy ddulliau eraill, fel Adran 106. A yw IACC a GCC yn fodlon na ddylai'r WAMS fod yn ddogfen ardystiedig?
<b>Q10.1.25</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae'r WAMS[APP-412] yn datgan (paragraff 1.1.5) y bydd nifer o brosiectau seilwaith eraill ar raddfa fawr yn cael eu hadeiladu yn y DU ar yr un adeg â'r cynnig. O ganlyniad, byddai dewis ar gael i weithwyr o ran ble i weithio ac felly byddai angen i'r llety a gynigir ar gyfer y prosiect hwn fod yn atyniadol.  A all yr Ymgeisydd esbonio sut yr adlewyrchir hyn yn nyluniad, gosodiad a chyfleusterau campws y safle (gan gyfeirio'n benodol at faint yr ystafelloedd)?
<b>Q10.1.26</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae paragraff 2.1.1 yr WAMS [APP-412] yn nodi tri nod trosfwaol ar gyfer y WAMS, sy'n cynnwys 'darparu gwaddol cadarnhaol'. A all yr Ymgeisydd esbonio sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy gampws y safle, sy'n gyfleuster dros dro?
<b>Q10.1.2</b>	Yr Ymgeisydd	Q	(a) Faint o bobl sydd wedi defnyddio'r Cynllun Cymorth Pris Eiddo ers iddo ddod i rym ym mis Ebrill 2015? (b) Sut y diffinnir eiddo cymwys? (c) A oes dull i'w ddefnyddio i fynd i'r afael ag anghytundeb ynglŷn â ph'un a yw eiddo (i) yn gymwys neu (ii) yn uwch na'r prisiadau? (ch) A oes dull o adolygu'r swm £5,000 tuag at gostau symud a ffioedd proffesiynol i gyfrif am y cynnydd blynyddol yng nghostau darparu'r gwasanaethau hyn?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q10.1.28</b>	IACC	Q	<p>Mae'r ES [APP-088] yn cyfeirio at y ffaith bod nifer y tai sy'n cael eu hadeiladu ar Ynys Môn wedi gostwng 60% ers 2008-2009.</p> <p>A all IACC ddarparu'r wybodaeth ganlynol:</p> <p>(a) A oedd gan IACC gyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai yn ystod y cyfnod hwn? Os felly, beth ydoedd ac a gafodd ei gyflawni?</p> <p>(b) Rhoi diweddariad ar y sefyllfa bresennol o ran cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai?</p> <p>(c) Nodi p'un a yw unrhyw ddiffyg yn ymwneud â chyflenwad (h.y. prinder caniatâd cynllunio) neu ddarparu (h.y. nid yw datblygwyr yn gweithredu caniatâd cynllunio)?</p>
<b>Q10.1.29</b>	IACC a'r Ymgeisydd	Q	<p>Mae'r WAMS [APP-412] yn cyfeirio at y ffaith bod targedau tai presennol y CDLIC yn adlewyrchu'r twf a ragwelir yn y boblogaeth o ganlyniad i'r Prosiect Ynys Ynni (EIP). A all IACC esbonio:</p> <p>(a) Beth yw'r EIP?</p> <p>(b) Mae'r WAMS yn datgan mai'r cynnig hwn fyddai elfen unigol fwyaf yr EIP. Beth yw'r elfennau eraill?</p> <p>Yr Ymgeisydd – A allwch chi gadarnhau bod effeithiau cronol yr EIP wedi cael eu hystyried wrth lunio dogfennau'r cais?</p>
<b>Q10.1.30</b>	GCC	Q	<p>Mae'r KSA hefyd yn cynnwys Gwynedd, ond nid yw'n ymddangos y darparwyd unrhyw wybodaeth ynglŷn â nifer y cartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu yng Ngwynedd.</p> <p>A all GCC:</p>



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>(a) Roi manylion nifer y cartrefi a adeiladwyd rhwng 2008/9 a 2015/16 a ph'un a yw hyn yn uwch neu'n is na'r blynyddoedd blaenorol?</p> <p>(b) Nodi beth yw'ch sefyllfa bresennol o ran cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai; a</p> <p>(c) Nodi a yw'r sefyllfa bresennol o ran cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai yn cynnwys lwfans ar gyfer yr anghenion tai a fyddai'n cael eu cynhyrchu gan y cynnig?</p>
<b>Q10.1.31</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	Q	Mae'r ES yn cyfeirio at y ffaith bod gan Ynys Môn y nawfed gyfran fwyaf o ail gartrefi mewn awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr (paragraff 1.3.9 [APP-088]). Faint o ail gartrefi sydd ar Ynys Môn a pha gyfran o'r stoc dai ydyw? A yw'r diffiniad o ail gartrefi'n cynnwys llety gosod ar gyfer gwyliau?
<b>10.2</b>	<b>Cyflogaeth</b>		
<b>Q10.2.1</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Ffigur C1-5 yr ES [APP-088] – esboniwch beth yw'r gwahaniaeth rhwng llafurwr a llafurwr cyffredinol a pham yr ystyrir bod angen gwahaniaethu rhwng y ddau.
<b>Q10.2.2</b>	IACC, GCC a Llywodraeth Cymru	Q	Ni fyddai'r Strategaeth Swyddi a Sgiliau [APP-411] yn cael ei sicrhau gan y dDCO. O ystyried bod hyn yn amlinellu sut y byddai Horizon yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ariannu hyfforddiant ychwanegol i fodloni anghenion sgiliau'r prosiect, a yw IACC, GCC a Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r ymagwedd hon?
<b>Q10.2.3</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Mae paragraff 6.2.9 y Datganiad Cynllunio [APP-406] yn cyfeirio at weithwyr sy'n byw gartref –</p> <p>(a) A allwch chi esbonio beth a olygir wrth weithiwr sy'n byw gartref, ble mae hyn yn cael ei ddiffinio yn y dogfennau a, phe byddai 1,260 o'r rhain yn dod o Ynys Môn, ble byddai'r 740 arall o weithwyr sy'n byw</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>gartref wedi'u lleoli?</p> <p>(b) A yw'r targed ar gyfer gweithwyr sy'n byw gartref yn ymwneud â'r prosiect cyfan (adeiladu, gweithredu a datgomisiynu) neu adeiladu yn unig?</p> <p>(c) O ystyried y dywedir y bydd 850 o weithwyr gweithredu – beth yw'r targed o ran gweithwyr sy'n byw gartref ar gyfer yr elfen hon o'r cynllun?</p>
<b>Q10.2.4</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Mae paragraff 1.3.7 yr ES Cyfrol C [APP-088] yn datgan bod y data'n dangos bod gweithlu preswyl Ynys Môn yn cynnwys cyfran gymharol uchel o sgiliau lefel uchel (grwpiau dosbarthiad galwedigaethol safonol 1-3).</p> <p>(a) O ran y rolau a amlinellir yn ffigur C1-5 yr ES Cyfrol C [APP-088], faint o'r rhain fyddai'n cael eu dosbarthu'n sgiliau lefel uchel?</p> <p>(b) Os yw mwyafrif y rolau hyn yn rhai sgiliau lefel isel, sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu llenwi'r swyddi hyn o blith y gweithlu lleol?</p> <p>(c) Sut mae'r Strategaeth Swyddi a Sgiliau [APP-411] yn adlewyrchu'r hyfforddiant sy'n ofynnol o ystyried lefelau sgiliau presennol y gweithwyr sy'n byw gartref?</p>
<b>Q10.2.5</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Mae paragraff 3.2.33 y Datganiad Cynllunio [APP-406] yn dweud y bydd angen i oddeutu traean o'r gweithlu gweithredol feddu ar sgiliau medrus hyd at lefel dechnegol.</p> <p>(a) Diffiniwch yr hyn a olygir wrth feddu ar sgiliau medrus hyd at lefel dechnegol?</p> <p>(b) Faint o'r gweithlu adeiladu y byddai angen iddynt feddu ar sgiliau medrus hyd at lefel dechnegol?</p> <p>(c) Faint o'r gweithlu gweithredu y byddai angen iddynt feddu ar sgiliau medrus hyd at lefel dechnegol?</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			(ch) Pa fesurau (heblaw am brentisiaethau) sy'n cael eu cynnig i sicrhau bod gweithwyr lleol yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant i ddod yn fedrus hyd at lefel dechnegol?
<b>Q10.2.6</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Bydd angen 1,000 o weithwyr ychwanegol bob naw mis ar gyfer cyfnodau cau cynlluniedig – faint o'r rhain fyddai'n gweithwyr sy'n byw gartref?
<b>Q10.2.7</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Byddai'r Strategaeth Swyddi a Sgiliau [APP-411] yn darparu gwasanaeth broceru trwy ôl-lenwi swyddi gwag i gynorthwyo busnesau lle'r oedd gweithwyr yn symud i brosiect Wylfa Newydd. A fyddai tâl yn cael ei godi ar gwmnïau i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn?
<b>Q10.2.8</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Cynigiwyd cynllun peilot ar gyfer y Strategaeth Swyddi a Sgiliau mewn perthynas â'r Cynigion Paratoi a Chlirio'r Safle. A yw'r cynllun peilot wedi dechrau ac, os felly, a allwch chi roi diweddariad ar sut mae wedi gweithredu?
<b>Q10.2.9</b>	Yr Ymgeisydd	Q	A fyddai'r Porth Cyflogaeth a Sgiliau yn ddwyieithog?
<b>Q10.2.10</b>	Yr Ymgeisydd, IACC, GCC, Heddlu Gogledd Cymru (NWP), Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB)	Q	Mae'r Strategaeth Rheoli Gweithlu [APP-413] yn amlinellu'r paramedrau ar gyfer codau ymddygiad yn ymwneud ag ymddygiad y gweithlu (paragraff 2.2.1) ac ymddygiad y cyflogwr (paragraff 2.3.1). A all yr Ymgeisydd:  (a) Gadarnhau a fyddai'n rhaid i weithwyr sy'n byw gartref lofnodi'r codau ymddygiad? (b) Esbonio'r hyn a olygir gan weithwyr sydd oddi ar y safle? (c) Cadarnhau na fyddai'r codau'n torri Hawliau Dynol neu hawliau cyflogaeth gweithwyr (yn enwedig gweithwyr sy'n byw gartref). (ch) Esbonio canlyniadau torri'r codau. (d) Esbonio sut byddai'r codau'n cael eu gorfodi?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			A yw IACC, GCC, NWP, PHW a BCUHB yn fodlon â'r mesurau a gynigiwyd gan WMS o ystyried y pryderon a fynegwyd ganddynt, gan gyfeirio'n benodol at ddiogelu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol? Os na, pam?
<b>Q10.2.11</b>	Yr Ymgeisydd, IACC, GCC ac NWP	Q	<p>Mae pwynt bwled 8 (BP8) paragraff 2.3.1 y Strategaeth Rheoli Gweithlu [APP-413] yn datgan 'bydd gwiriadau diogelwch priodol yn cael eu cynnal ar bersonél adeiladu', ac mae pwynt bwled 17 (BP17) yn ymdrin â gwiriadau yn ymwneud ag oedolion agored i niwed a phlant. A all yr Ymgeisydd:</p> <p>(a) Esbonio pam yr ystyrir bod BP8 yn angenrheidiol ar gyfer personél adeiladu yn unig ac nid y gweithlu cyfan; ac</p> <p>(b) Esbonio beth fyddai'n digwydd pe byddai gweithiwr yn methu'r gwiriadau diogelwch neu sgrinio?</p> <p>A all IACC, GCC ac NWP gadarnhau:</p> <p>(a) Bod y rhestr o wiriadau arfaethedig yn BP8 yn ddigonol; a</p> <p>(b) Ph'un a yw'r mesurau arfaethedig yn BP8 a BP17 yn mynd i'r afael â'u pryderon ynglŷn â diogelu yn briodol?</p>
<b>Q10.2.12</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae'r ES [APP-122] yn dweud bod y mesurau lliniaru ymgorfforedig ar gyfer y cam datgomisiynu yn debyg i'r rhai ar gyfer y cam adeiladu (paragraff 3.4.37). A gynigir unrhyw fesurau lliniaru ar gyfer y gweithwyr o ran rhaglenni ailhyfforddi, ac ati, i'w galluogi i ddod o hyd i gyflogaeth amgen yn yr ardal pan fydd y gwaith wedi cau?
<b>Q10.2.13</b>	Yr Ymgeisydd	Q	A allwch chi roi diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r Strategaeth Swyddi a Sgilliau?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q10.2.14</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	Q	(a) Faint o arian fyddai ar gael i'r gronfa Sgiliau? (b) O ystyried yr angen a argymhellwyd am hyblygrwydd a'r ystod eang o brosiectau a gweithgareddau y gallai eu hariannu, a fyddai'r swm a gynnigir yn ddigonol i liniaru effaith y cais?
<b>Q10.2.15</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae Tablau 3-4 i 3-6 y Strategaeth Swyddi a Sgiliau [APP-411] yn nodi'r amser y byddai'n ei gymryd i hyfforddi ar gyfer y gwahanol rolau. O ystyried yr amser a gymerir i hyfforddi ar gyfer rhai o'r swyddi hyn, pryd byddai'r hyfforddiant hwn yn dechrau?
<b>Q10.2.16</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae tabl 3-7 y Strategaeth Swyddi a Sgiliau [APP-411] yn awgrymu y byddai mwyafrif y cyfleoedd ar gyfer gweithwyr sy'n byw gartref mewn gwasanaethau safle.  A all yr Ymgeisydd nodi'r hyn sy'n cael ei wneud i gynyddu cyfleoedd gymaint â phosibl i weithwyr sy'n byw gartref mewn meysydd eraill lle y byddai gwell cyfraddau cyflog a chyfleoedd tymor hwy?
<b>Q10.2.17</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Sut byddai Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd yn cael ei ariannu?
<b>Q10.2.18</b>	Yr Ymgeisydd	Q	A allwch chi roi diweddariad ar ddatblygiad eich cynllun prentisiaethau a/neu a ydych chi'n parhau i ddarparu cyllid i Gwmni Prentis Menai? A yw cynllun prentisiaethau Horizon wedi'i seilio ar y cymorth ariannol a ddarperir gan y Llywodraeth ar gyfer prentisiaethau?
<b>Q10.2.19</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Byddai Horizon yn brif gyflogwr ar gyfer staff gweithredu yn unig. Pa fesurau cytundebol a gynnigir i sicrhau bod contractwyr yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i recriwtio pobl leol yn ystod y camau adeiladu a datgomisiynu?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
Q10.2.20	Yr Ymgeisydd	Q	A allwch chi esbonio sut mae eich Cynllun Datblygu Graddedigion yn annog ymgeiswyr o ogledd Cymru a/neu a allai fod yn siaradwyr Cymraeg yn benodol?
Q10.2.21	Yr Ymgeisydd	Q	(a) A fydd y gwaith ymgysylltu ag ysgolion yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg? (b) A fyddai'r Swyddogion Addysg yn ddwyieithog?
Q10.2.22	Yr Ymgeisydd	Q	O ystyried mai un o brif fuddion y cynllun fyddai creu swyddi a chyfleoedd cadwyn gyflenwi lleol, pam nad yw'r cynllun gweithredu cadwyn gyflenwi wedi cael ei ddatblygu ymhellach?
Q10.2.23	Yr Ymgeisydd	Q	Rydych yn dweud na fyddai gweithwyr presennol yn cael eu dadleoli o gwbl neu i raddau cyfyngedig iawn – pa dystiolaeth, yn enwedig o brosiectau eraill tebyg fel Hinckley C, sydd gennych i gefnogi'r honiad hwn?
Q10.2.24	IACC	Q	Yn eich RR, rydych yn cyfeirio at yr angen am reoli a lliniaru dadleoli gweithwyr presennol yn well er mwyn osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol ar fusnesau presennol a lleol. Pa fesurau yr hoffech chi eu gweld yn cael eu cynnig?
Q10.2.25	Yr Ymgeisydd	Q	Ym mharagraff 6.3.26, mae'r Ymgeisydd yn trafod "cyflog teg". Beth yw bwriadau'r Ymgeisydd o ran Cyflog Byw y DU?
Q10.2.26	Yr Ymgeisydd	Q	Mae'r Ymgeisydd yn dweud y byddai angen hyd at 690 o staff i reoli'r cyfleusterau, gan gynnwys campws y safle. Pa fesurau (fel rhaglenni hyfforddi) mae'r Ymgeisydd yn eu cynnig i sicrhau y byddai digon o staff ar gael â'r sgiliau perthnasol i reoli'r cyfleuster heb achosi prinder staff i fusnesau presennol, yn enwedig y rhai hynny yn y sector twristiaeth?
<b>10.3</b>	<b>Iechyd</b>		

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q10.3.1</b>	IACC, BCUHB, PHW a Phartion â Diddordeb	Q	Mae paragraff 6.3.95 y Datganiad Cynllunio [8.1] yn rhestru effeithiau andwyol posibl ar iechyd a lles. Ydych chi'n cytuno, ac os na, pam?
<b>Q10.3.2</b>	Ymgeisydd	ADA	Mae presgripsiynau yn rhad ac am ddim yng Nghymru ar gyfer pawb sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru. Sut y byddai cost presgripsiynau ar gyfer gweithwyr sydd wedi cofrestru gyda'r meddyg teulu ar y safle yn cael ei gynnwys?
<b>Q10.3.3</b>	BCUHB a PHW	Q	Mae'r ES ([6.3.1] - paragraff 1.3.10) yn nodi bod yna 23 meddygfa (11 ar Ynys Môn a 12 ar dir mawr Menai).  (a) A allai'r meddygfeydd hyn gymryd cleifion ychwanegol? (b) Faint o gleifion sy'n byw ar Ynys Môn y sydd rhaid iddynt ddefnyddio llawdriniaeth ar y tir mawr? (c) A oes strategaeth gofal iechyd gyfredol ar gyfer darparu darpariaeth iechyd yn y KSA yn y dyfodol ac a yw'n cyfrif am y gallu ychwanegol y byddai ei angen o ganlyniad i'r Cais?
<b>Q10.3.4</b>	Ymgeisydd	Q	Mae gan y Gwasanaethau Brys bryderon ynghylch y pwysau y gellid eu rhoi ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu a cholli staff profiadol / medrus posibl i'r prosiect. Sut y byddai hyn yn cael sylw?
<b>Q10.3.5</b>	BCUHB a PHW	Q	A oes gallu yn y gwasanaethau iechyd meddwl presennol i ddelio ag unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau a allai godi o ganlyniad i'r cais? A fyddai angen cyllid ychwanegol? A oes gwasanaethau ar gael ar hyn o bryd yn yr iaith Gymraeg?
<b>Q10.3.6</b>	Ymgeisydd, BCUHB a PHW	Q	Ymgeisydd - A fyddai unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau cymorth sy'n ymwneud ag alcohol, ysmegu, cyffuriau neu afiechydon trosglwyddadwy (yn arbennig STD) yn cael ei ddarparu gan y ddarpariaeth gofal iechyd ar y safle neu trwy ddefnyddio gwasanaethau presennol y tu allan i'r safle?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			BCUHB a PHW - Os defnyddiwyd gwasanaethau oddi ar y safle a oes ganddynt y gallu i ymdrin ag unrhyw gynnydd yn y galw?  Y cyfan - A fyddai'r gwasanaethau hyn ar gael yn yr iaith Gymraeg?
<b>Q10.3.7</b>	BCUHB, PHW a'r darparwyr Gwasanaeth Brys	Q	Mae'r ymgeisydd yn bwriadu sefydlu Grŵp Monitro Iechyd a Lles i fonitro gweithrediad lliniaru'r Asesiad Effaith ar Iechyd. Oes gennych chi'r staff a'r adnoddau perthnasol sydd ar gael i gymryd rhan yn y grŵp hwn?
<b>Q10.3.8</b>	Ymgeisydd, BCUHB a PHW	Q	Ymgeisydd - pryd y penodir y Swyddog Ymgysylltu Cymunedol dwyieithog?  BCUHB a PHW - A fyddai un person yn gallu cyflawni'r rôl hon yn llwyddiannus?
<b>10.4</b>	<b>Busnes Lleol a Thwristiaeth</b>		
<b>Q10.4.1</b>	Yr Ymgeisydd, IACC, GCC a Llywodraeth Cymru	Q	Mae'r Siarter Cadwyn Gyflenwi (a'r Cynllun Gweithredu) yn disgwyl cyfleoedd datblygu busnes ar gyfer busnesau lleol (Ynys Môn) a rhanbarthol (gogledd Cymru).  (a) A oes unrhyw waith wedi cael ei wneud i adolygu p'un a yw'r busnesau sy'n angenrheidiol i gyflenwi'r Ymgeisydd ar gael yn lleol neu'n rhanbarthol? (b) Os oes, beth oedd y canfyddiadau? Yn arbennig, pa ganran o anghenion cyflenwi'r Ymgeisydd y gellid eu bodloni'n lleol neu'n rhanbarthol? (c) Os nad yw cyflenwyr ar gael yn lleol oherwydd bod cwmnïau'n rhy fach neu oherwydd bod ganddynt adnoddau/sgiliau cyfyngedig, pa gymorth a gynigir i alluogi cwmnïau presennol i feddu ar y potensial i gyflenwi/cynnig am waith? (ch) A oes digon o le swyddfa, lle warws ac unedau busnes bach i fodloni anghenion y sefydliadau/cwmnïau a fyddai'n cyflenwi'r prosiect?



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			(d) Mae 11 cwmni adeiladu ar Ynys Môn – pa fesurau a gynigir i ddiogelu'r busnesau hyn a sicrhau eu bod yn gallu cynnal eu gweithlu yn ystod y cyfnod adeiladu?
<b>Q10.4.2</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae paragraff 1.5.89 yr ES [APP-088] yn cyfeirio at ddirywiad llety twristiaeth o ganlyniad i feddiannaeth tymor hir, llai o gynnal a chadw a disgwyliadau is ar gyfer llety. Pa fesurau rhagweithiol a gynigir i leihau unrhyw ddiraddio i'r stoc hon gymaint â phosibl ac i sicrhau y byddai o safon sy'n addas ar gyfer llety gwyliau pan fydd y gweithwyr wedi'i gadael?
<b>Q10.4.3</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Mae'r ES [APP-088 – paragraff 1.5.98] yn datgan y gallai'r sector bwyd a diod elwa'n sylweddol hefyd o'r contractau rheoli cyfleusterau ac arlwyyo a fydd yn ofynnol drwy gydol cylch oes y prosiect:  (a) Pa fesurau a gynigir i sicrhau bod y contractau hyn yn cael eu dyfarnu i gwmnïau lleol yn hytrach na chwmnïau arlwyyo contract mawr? (b) O ystyried y bydd cyfleusterau arlwyyo ar y safle a fydd yn gwasanaethu anghenion y datblygiad, pa gyfleoedd realistig a fyddai i'r sector bwyd a diod lleol elwa o'r cynllun?
<b>Q10.4.4</b>	Yr Ymgeisydd	Q	O ran trosiant llafur: (a) Beth yw cyflog canolrifol gweithiwr adeiladu sy'n gweithio ar brosiect tebyg, fel Hinckley C, a sut mae hyn yn cymharu â'r cyflog canolrifol ar gyfer preswylwyr yn y KSA? (b) Pa 'fuddion' eraill y gallai gweithwyr y cynllun eu disgwyl e.e. llety wedi'i gymorthdalw/am ddim, prydau bwyd wedi'u cymorthdalw, gofal iechyd preifat, cyfleusterau chwaraeon a hamdden am ddim neu wedi'u cymorthdalw, ac ati?
<b>Q10.4.5</b>	Yr Ymgeisydd ac	WA	Cyfeirir at fwriad gan Horizon yn y dyfodol i ddarparu canolfan derbyn

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
	IACC		ymwelwyr a'r cyfryngau ger Safle'r Orsaf Bŵer a fyddai'n darparu canolbwynt yng ngogledd yr ynys a chyfleuster i'r gymuned leol. Sut byddai'r cyfleuster hwn yn cael ei sicrhau?
<b>Q10.4.6</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Cynigir Cronfa Dwristiaeth i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau perthnasol ar y sector twristiaeth leol ar Ynys Môn. A oes unrhyw fanylion ychwanegol ar gael ynglŷn â sut y byddai hyn yn gweithredu, y cyllid a fydd ar gael iddi a sut y byddai'n cael ei sicrhau?
<b>Q10.4.7</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	Q	Byddai'r Gwelliannau Priffyrdd oddi ar linell y ffordd a gynigir yn arwain at osgoi nifer o bentrefi. Pa fesurau a gynigir i liniaru'r effaith ar unrhyw fusnes a fyddai'n gweld gostyngiad mewn masnach sy'n mynd heibio?
<b>10.5</b>	<b>Y Gymraeg a'i Diwylliant</b>		
<b>Q10.5.1</b>	Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn	Q	Yn eich RR, rydych yn nodi bod angen mesurau i ddiogelu'r Gymraeg – a allwch chi ddarparu rhagor o fanylion ynghylch pa fesurau fyddai'n angenrheidiol yn eich barn chi?
<b>Q10.5.2</b>	Menter Iaith Môn a Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn	Q	Yn eich RR, rydych chi wedi nodi pryder ynghylch faint o hyfforddwyr/athrawon cyfrwng Cymraeg fydd ar gael, a faint o amser mae'n cymryd i hyfforddi hyfforddwyr/athrawon Cymraeg – a allwch chi: (a) ddarparu manylion ynghylch faint o hyfforddwyr/athrawon Cymraeg cofrestredig sydd ar gael; (b) faint o amser mae'n cymryd i hyfforddi hyfforddwr/athro iaith; ac (c) enghreifftiau o broblemau'n ymwneud â recriwtio e.e. pa mor anodd yw recriwtio athrawon sy'n siarad Cymraeg mewn ysgolion lleol?
<b>Q10.5.3</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae'r IACC yn ystyried bod Strategaeth Addysg yn angenrheidiol - a ystyriwyd strategaeth o'r fath, ac os felly, pam y daethpwyd i'r casgliad nad oedd strategaeth o'r fath yn angenrheidiol?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q10.5.4</b>	IACC, GCC a Phartion â Buddiant	Q	Mae'r Parth Teithio Adeiladu Dyddiol (DCCZ) yn daith 90 munud yn y car o brif safle'r weithfa bŵer. A allwch chi ddarparu gwybodaeth am ganran y siaradwyr Cymraeg sy'n byw o fewn yr ardal hon?
<b>Q10.5.5</b>	IACC, GCC a Phartion â Buddiant	Q	<p>Cyfeirir at Horizon yn darparu gwasanaeth athrawon peripatetig yn y dogfennau (paragraff 6.2.28 yn y Datganiad Cynllunio [APP-406]) ac mae'n datgan y byddai dau athro'n cael eu hariannu i ddechrau (paragraff 7.4.27).</p> <p>(a) A oes gwasanaeth athrawon peripatetig ar gyfer y Gymraeg yn bodoli eisoes ar Ynys Môn?</p> <p>(b) Os nad oes gwasanaeth eisoes, sut fyddai'r gwasanaeth yn cael ei weithredu; pwy fyddai'n ei reoli, a pha mor hir fyddai'n para e.e. yn ystod y cyfnod adeiladu yn unig? Yn ystod adeiladu a chyfnod cyfyngedig o weithredu? Yn ystod y cyfnod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu?</p> <p>(c) A fyddai dau athro yn ddigon – o ystyried y dywedwyd y byddai angen i unrhyw wasanaeth ymestyn i Wynedd o bosibl?</p>
<b>Q10.5.6</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Mae paragraff 6.2.41 y Datganiad Cynllunio [APP-406] yn datgan y byddai 85% o'r gweithlu gweithrediadol yn bobl leol.</p> <p>(a) A fydddech cystal â diffinio ystyr person lleol neu ym mhle yn y dogfennau y gellir dod o hyd i'r diffiniad hwn?</p> <p>(b) O ystyried y byddai'r gweithlu gweithrediadol yn 850 o bobl, a fyddai 85% yn gyraeddadwy, ac os felly, sut gellir cyflawni hyn heb amharu ar fusnesau eraill ar Ynys Môn?</p> <p>(c) Pa fecanweithiau a gynigir a fyddai'n sicrhau bod 85% o'r gweithlu'n bobl leol, a pha gosbau a gynigir os nad yw'r targed hwn yn cael ei fodloni?</p>
<b>Q10.5.7</b>	Llywodraeth	Q	Mae Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg (2017) yn gosod nod o

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
	Cymru		gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 – a allwch chi ddarparu gwybodaeth am: (a) y sefyllfa bresennol o ran nifer y siaradwyr Cymraeg; (b) p'un a ydych chi ar y trywydd iawn i gyflawni'r amcan hwn; a (c) sut ydych chi'n rhagweld y gallai'r cynllun hwn effeithio ar gyrraedd y targed (yn gadarnhaol neu yn negyddol)?
<b>Q10.5.8</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae gwaith y Cydlynnydd y Gymraeg a'i Diwylliant arfaethedig yn cael ei ystyried yn allweddol i ddatblygiad a chyflawniad mesurau gwella a lliniaru'r Gymraeg a'i diwylliant (Datganiad Cynllunio [APP-406] paragraff 6.4.474). (a) Pryd fyddai'r penodiad hwn yn cael ei wneud? (b) O ystyried cwmpas y rôl, a ellir ei wneud gan un unigolyn yn realistig?
<b>Q10.5.9</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae paragraff 6.4.476 y Datganiad Cynllunio [APP-406] yn nodi nifer o gynigion ar gyfer mesurau lliniaru:  Mae pwynt bwled 3 yn cyfeirio at sicrhau bod aelod staff sy'n siarad Cymraeg ar baneli cyfweld lle mae angen sgiliau Cymraeg ar yr ymgeiswyr. (a) Faint o swyddi a ragwelir gan Horizon lle bydd y Gymraeg yn 'angenrheidiol'? (b) pa ddarpariaethau a gynigir ar gyfer cyfweld ymgeiswyr Cymraeg iaith gyntaf ar gyfer rolau lle nad oes 'angen' iddyn nhw siarad Cymraeg?  Mae pwynt bwled 4 yn cyfeirio at ddarparu hyfforddiant sy'n 'codi ymwybyddiaeth' o'r iaith – allwch chi ddarparu rhagor o wybodaeth am y canlynol: (a) beth fydd cynnwys yr hyfforddiant 'ymwybyddiaeth iaith'; (b) sut bydd hyn yn wahanol i'r hyfforddiant iaith Gymraeg; a

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>(c) sut bydd 'hyfforddiant ymwybyddiaeth' yn diogelu a/neu'n tyfu faint mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio?</p> <p>Pwynt bwled 6 – pam ddywedir 'mae'n bosibl bydd' yn hytrach na 'bydd' casglu data'n cael ei gysylltu â Gwasanaeth Rheoli Llety'r Gweithwyr?</p>
<b>Q10.5.10</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>(a) A allwch chi ddarparu manylion ynghylch pryd fydd gwerthusiad effaith y prosiect ar y Gymraeg yn y KSA yn cael ei gwblhau (paragraff 6.4.480 yn y Datganiad Cynllunio [APP-406])?</p> <p>(b) A fyddai'r gwerthusiad yn cynnwys argymhellion hefyd, ac os felly, sut byddai'r rhain yn cael eu gweithredu?</p>
<b>Q10.5.11</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	Q	A allwch chi esbonio pam gaiff strategaeth Gwella a Lliniaru'r Gymraeg a'i Diwylliant ei gynnig yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect yn unig (paragraff 6.4.480 y Datganiad Cynllunio [APP-406]) – a ddylid ymestyn hyn i gynnwys y cyfnodau gweithredu a datgomisiynu?
<b>Q10.5.12</b>	IACC, Llywodraeth Cymru a Phartion â Buddiant	Q	<p>Mae paragraff 6.4.483 y Datganiad Cynllunio [APP-406] yn datgan bod y mesurau a gynigir i gefnogi ac ymestyn y Gymraeg a'i diwylliant yn cydymffurfio ag egwyddorion y polisiau lleol a chenedlaethol amrywiol yn ymwneud â chryfhau'r Gymraeg.</p> <p>Gan gyfeirio'n benodol at PPW9, TAN20, Cymraeg 2050 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a all yr IACC, Llywodraeth Cymru ac unrhyw Bartion â Buddiant ddweud a ydyn nhw'n cytuno â'r datganiad hwn, ac os ddim, pam?</p>
<b>Q10.5.13</b>	Yr Ymgeisydd	WF	A allwch chi gadarnhau y bydd y byrddau gwybodaeth a nodwyd yn y pedwerydd pwynt bwled ym mharagraff 4.4.1 yn y WNCocP [APP-414] yn ddwyieithog?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q10.5.14</b>	Yr Ymgeisydd	WF	A allwch chi gadarnhau y bydd yr arwyddion yn ymwneud â gwyro'r llwybrau troed ac yn benodol, Lôn Las Copr (paragraff 6.2.6 y MPSS Sub CoCP [APP-415]) yn ddwyieithog?
<b>Q10.5.15</b>	Yr Ymgeisydd, IACC a GCC	Q	A oes unrhyw wybodaeth ar gael ynghylch yr effaith y mae adeiladu a gweithredu Wylfa A wedi ei chael ar y Gymraeg, ei diwylliant, yr economi leol a rhanbarthol a'r farchnad dai yn y tymor hir?  Os oes gwybodaeth ar gael, a gafodd y wybodaeth hon ei hystyried wrth lunio'r Cais, yn enwedig o ran y gwersi a ddysgwyd?
<b>Q10.5.16</b>	IACC a GCC	Q	O'r 47 ysgol gynradd a 5 ysgol uwchradd ar yr ynys, faint o'r rhain sy'n ysgolion cyfrwng Cymraeg?
<b>Q10.5.17</b>	IACC	Q	Mae'r ganolfan drochi cyfrwng Cymraeg cynradd (WLIC) yn llawn ar hyn o bryd – sut bydd y problemau capasiti hyn yn cael eu datrys? (APP-433)  Beth yw'r ddarpariaeth ar gyfer plant oedran uwchradd?
<b>Q10.5.18</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Gan ystyried yr effaith bosibl a gaiff y gweithwyr ychwanegol sydd eu hangen yn y cynnig ar y Gymraeg a'i diwylliant, ai gweithwyr sydd ynghlwm yn uniongyrchol ag adeiladu'r cynnig a'r gwaith datblygu cysylltiedig yn unig a gafodd eu hystyried, neu a gafodd y gweithwyr cyfleusterau, y gweithwyr ychwanegol sydd eu hangen ar fusnesau yn y gadwyn gyflenwi, twristiaeth a'r rhai sydd eu hangen er mwyn adeiladu'r tai parhaol ychwanegol eu cynnwys hefyd?
<b>Q10.5.19</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	Q	Er bod y strategaethau iaith amrywiol yn amlinellu cynigion ar gyfer gweithwyr a phlant oedran ysgol, beth fydd yn cael ei gynnig ar gyfer

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			dibynyddion fel partneriaid/gwŷr/gwragedd a phlant y tu hwnt i oedran ysgol a all symud i Ynys Môn gyda'r gweithwyr?
<b>Q10.5.20</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae'r Asesiad Effaith ar Iechyd NTS[APP-428] paragraff 2.4.39 yn cyfeirio at ymrwymiad lliniaru sy'n ymwneud â hunaniaeth gymunedol gan gynnwys mentrau i wella a dathlu hunaniaeth leol. Pa fentrau a gynigir?
<b>Q10.5.21</b>	Llywodraeth Cymru	Q	A allwch chi ddarparu diweddariad ar Fframwaith ac Arweiniad Asesiad Risg y Gymraeg?
<b>Q10.5.22</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Cynigir hyfforddiant ar y Gymraeg 'pan fydd hyn yn ofyniad perthnasol ar gyfer swydd' (APP-433). Pa gyfleoedd/cymorth/anogaeth fydd ar gael i weithwyr pan na fydd dysgu'r iaith yn 'ofyniad perthnasol'?
<b>Q10.5.23</b>	IACC, GCC, Llywodraeth Cymru a Phartion â Buddiant	Q	Byddai mwyafrif y mesurau lliniaru a gwella a gynigir yn cael ei diogelu trwy S106 – ydych chi'n ystyried:  (a) Ai dyma'r mecanwaith priodol? ac (b) A fyddai'n bodloni'r prawf ar gyfer rhwymedigaethau cynllunio?
<b>Q10.5.24</b>	Yr Ymgeisydd, IACC, GCC, Llywodraeth Cymru a Phartion â Buddiant	Q	Mae'r strategaeth ar gyfer y Gymraeg yn dibynnu ar gyflogi canran benodol o siaradwyr Cymraeg; pa ddulliau lliniaru a gynigir/sy'n angenrheidiol os na ellir bodloni'r targedau hyn?
<b>Q10.5.25</b>	Yr Ymgeisydd	Q	(a) Pa grwpiau a sefydliadau fyddai'n cael eu gwahodd i fod yn aelodau o'r grŵp rheoli a fyddai'n goruchwylio'r Strategaeth Gwella a Lliniaru'r Gymraeg a'i Diwylliant a'r grŵp rhanddeiliaid a fyddai'n monitro'r strategaeth hon? (b) Pwy fyddai'r grwpiau hyn yn atebol iddynt?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			(c) O ystyried bod llawer o grwpiau yn ymwneud â'r Gymraeg a'i diwylliant yn sefydliadau gwirfoddol, pa adnoddau fyddai ar gael iddyn nhw i'w galluogi i fynyachu/denu aelodau'r grwpiau hyn?
<b>Q10.5.26</b>	IACC	Q	Yn eich RR (paragraff 5.14.1) rydych chi'n datgan, yn eich barn chi, nad yw'r dDCO yn adlewyrchu ymrwymiad presennol yr ymgeisydd i eirioli dros y Gymraeg fel 'llinyn euraidd' trwy gydol bob agwedd ar y prosiect. Pa newidiadau ydych yn dymuno eu gweld yn y dDCO er mwyn sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei wireddu?
<b>Q10.5.27</b>	IACC, GCC, Llywodraeth Cymru	Q	Gofynnwyd i'r Ymgeisydd baratoi Datganiad Tir Cyffredin gyda sefydliadau sy'n cynrychioli'r Gymraeg ac mae wedi cyflwyno Cynrychiolaeth Berthnasol. Yn eich barn chi, pa sefydliadau ddylai'r Ymgeisydd eu cynnwys?
<b>10.6</b>	<b>General Questions</b>		
<b>Q10.6.1</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Codwyd pryderon trwy'r RR ynghylch diogelwch y trigolion, yn enwedig ar gyfer menywod a phlant. A all yr ymgeisydd ddarparu manylion am ei bolisiau diogelu neu amlygu ym mhle yn y dogfennau y gellir dod o hyd iddyn nhw?
<b>Q10.6.2</b>	Yr Ymgeisydd	Q	A all yr ymgeisydd ddarparu rhagor o fanylion am sut byddai'r Cynllun Cymorth i'r Gymdogaeth yn gweithio, o ystyried y pryderon a nodwyd yn yr RR o ran pa mor ddigonol ydyw?
<b>Q10.6.3</b>	IACC, GCC, Llywodraeth Cymru a Phartion â Buddiant	Q	Mae paragraff 3.2.15 yng Nghod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd (WNCocP) [APP-414] yn rhestru nifer o effeithiau cymdeithasol-economaidd y mae'r Ymgeisydd yn ystyried y bydd angen eu monitro. Ydych chi'n cytuno â'r rhestr hon? A oes unrhyw beth wedi cael ei hepgor, neu a ddylid dileu rhywbeth?
<b>Q10.6.4</b>	Yr Ymgeisydd,	Q	A all yr Ymgeisydd gadarnhau a fydd hi'n bosibl cynnal cyfarfodydd y Grŵp



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
	IACC a Phartion â Buddiant		<p>Cysylltu â'r Gymuned yn ddwyieithog?</p> <p>Mae paragraff 3.2.29 yr WNCocP [APP-414] yn esbonio y bydd trigolion gerllaw yn cael pecynnau gwybodaeth. A all yr Ymgeisydd esbonio:</p> <p>(a) Beth mae 'gerllaw' yn ei olygu?  (b) Pa mor aml fyddai'r pecynnau gwybodaeth yn cael eu darparu?  (c) A ddylid ehangu'r rhestr er mwyn cynnwys oriau/dyddiau gwaith a llwybrau/amseroedd y cerbydau danfon?  (ch) A fydd y pecynnau'n ddwyieithog?</p> <p>A yw'r IACC/IP yn dymuno rhoi unrhyw sylwadau ar ffurf a chynnwys y pecynnau gwybodaeth?</p>
<b>Q10.6.5</b>	IACC	Q	<p>Mae paragraff 3.3.4 yr WNCocP [APP-414] yn datgan y bydd y gofrestr gwynion ar gael i'r IACC ar gais. A yw'r IACC yn fodlon â'r trefniadau hyn, neu a fyddai'n fwy priodol i'r wybodaeth gael ei hanfon atyn nhw'n chwarterol a/neu ei chyhoeddi ar wefan HNP?</p>
<b>Q10.6.6</b>	IACC	Q	<p>Cyfeirir at raglen foderneiddio ysgolion yn yr ES (paragraff 1.3.14 yn yr APP-088) er mwyn osgoi capasiti gormodol.</p> <p>(a) A luniwyd y cynllun moderneiddio hwn gan wybod am gynigion Wylfa a'r newidiadau arfaethedig i'r boblogaeth oedran ysgol o ganlyniad i hynny?  (b) A yw'r ardaloedd lle cynigir lleihau'r capasiti yng ngogledd Ynys Môn?</p>
<b>Q10.6.7</b>	NWP	Q	<p>Mae'r ES yn darparu manylion am nifer y gorsafoedd tân ac ambiwlans ond ni ddarperir gwybodaeth am nifer y gorsafoedd heddlu na sut reolir plismona ar yr ynys. A allwch chi:</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>(a) Ddarparu manylion ynghylch faint o orsafoedd heddlu sydd ar Ynys Môn a'u lleoliadau – gorsafoedd â staff a di-staff.</p> <p>(b) Esbonio p'un a fydd y rhain yn cael eu cadw yn ystod oes y prosiect, neu a oes cynlluniau i leihau/cyfuno gorsafoedd neu gynlluniau ar gyfer gorsafoedd ychwanegol neu dros dro?</p>
<b>Q10.6.8</b>	Yr Ymgeisydd	Q	A all yr ymgeisydd ddarparu unrhyw dystiolaeth/data o brosiectau eraill tebyg (gan gynnwys Wylfa A) o ran nifer y gweithwyr adeiladu sy'n symud i'r ardal gyda'u teuluoedd yn ystod y cyfnod adeiladu?
<b>Q10.6.9</b>	IACC	WF	Mae Crynodeb Annhechnegol ES [APP-401] yn nodi bod gan y ddwy ysgol agosaf, sef Ysgol Gynradd Cemaes ac Ysgol Gymuned Llanfechell, uchafswm o 89 o ddisgyblion a 119 o ddisgyblion. A allwch chi gadarnhau a yw'r rhain yn ysgolion ag un dosbarth ym mhob blwyddyn, ac os felly, beth yw meintiau'r dosbarthiadau ac a yw'r ysgolion yn llawn?
<b>Q10.6.10</b>	Yr Ymgeisydd, IACC a GCC	Q	<p>Mae'r Crynodeb Annhechnegol ES [APP-401] yn nodi (paragraff 3.3.8) y byddai Cronfa Seilwaith Cymunedol yn cael ei sefydlu er mwyn darparu rhagor o adnoddau i reoli neu wrthbwysu'r effeithiau yn ystod adeiladu na ellir eu rhagweld hyd yma, ac felly eu lliniaru, gan gynnwys yr effaith ar gyfleusterau cymunedol ac addysg.</p> <p>(a) Os na ellir eu rhagweld, sut mae'r swm sydd ei angen ar gyfer y gronfa wedi cael ei gyfrifo?</p> <p>(b) A yw'r IACC a'r GCC yn fodlon y byddai digon o arian yn y gronfa ar gyfer y dulliau lliniaru sydd eu hangen?</p> <p>(c) Pwy fydd yn monitro a oes angen y gronfa hon? a</p> <p>(ch) Sut bydd y taliadau'n cael eu cytuno a'u talu?</p>
<b>Q10.6.11</b>	Yr Ymgeisydd ac	Q	Ac eithrio ôl-lenwi swyddi (Paragraff 1.6.6 yn yr ES [APP-088]), pa fesurau

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
	NWFR		eraill a gynigir i sicrhau y bydd digon o wirfoddolwyr hyfforddedig neu swyddogion tân ac achub amser llawn ar gael i ddarparu digon o wasanaethau i Ynys Môn?
<b>Q10.6.12</b>	IACC, Llywodraeth Cymru, NRW, NWP, NWFR, BCUHB, GCC ac Ambiwlans Cymru	Q	Byddai'r Codau Ymarfer Adeiladu'n dibynnu ar Fwrdd Rhaglen troswaol a chyfres o is-grwpiau ymgysylltu (gan gynnwys llety a thwristiaeth).  (a) Sut byddai'r byrddau/is-grwpiau hyn yn gweithredu ac, yn benodol, i bwy y byddan nhw'n atebol? (b) A fyddai cod llywodraethu ganddynt? (c) Nodwyd y byddech yn gofyn i gael eich cynrychioli ar y byrddau hyn - a oes gennych chi'r adnoddau a'r personél perthnasol ar gael i fynychu'r byrddau hyn?
<b>Q10.6.13</b>	Yr Ymgeisydd / ONR	Q	A fyddech cystal ag ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Partion â Buddiant [RR-127 ac RR-129] ynghylch effaith ardal wacáu ar gyfer digwyddiad mawr (e.e. ar rwydweithiau pŵer a thrafnidiaeth) pe bai digwyddiad o'r fath yn codi?
<b>Q10.6.14</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae paragraff 5.1.6 y WAMS [APP-412] yn nodi bod ychydig llai na 62,000 o bobl ar draws y DCCZ mewn swyddi 'sy'n berthnasol i niwclear'. A allwch chi ddiffinio'r hyn a olygir gan swydd 'sy'n berthnasol i niwclear'?
<b>11.</b>	<b>Traffig a Thrafnidiaeth</b>		
<b>11.0</b>	<b>Awyrennau</b>		
<b>Q11.0.1</b>	IACC a'r RAF	Q	Ni chynhwyswyd buddiannau hedfan sifil a milwrol yn yr Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol (EIA). Fodd bynnag, mae maes awyr sifil (Maes Awyr Ynys Môn/Maes Awyr y Fali/Rhosneigr) a chanolfan RAF (Maes Awyr Heneglwys/Mona) ar yr ynys. A all IACC a'r RAF gadarnhau eu bod yn

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			cytuno na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar fuddiannau hedfan sifil a milwrol ac amddiffyn o ganlyniad i'r Cais?
<b>11.1</b>	<b>Traffig</b>		
<b>Q11.1.1</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC a Llywodraeth Cymru	Q	<p>Mae paragraffau 4.3.34 a 4.3.37 y Datganiad Cynllunio [APP-406] yn nodi y byddai'n cymryd 18 mis i adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio arfaethedig a 15 mis i adeiladu'r Ganolfan Logisteg.</p> <p>A all yr Ymgeisydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) Esbonio pam y bydd yn cymryd mor hir i'w hadeiladu?</li> <li>(b) Pa drefniadau dros dro a fydd ar waith i reoli cerbydau adeiladu tra bydd y ganolfan logisteg yn cael ei hadeiladu? a</li> <li>(c) Ph'un a yw'r modelu trafndiaeth wedi ystyried y symudiadau ychwanegol hyn gan gerbydau cyn i'r cyfleusterau hyn ddechrau gweithredu?</li> </ul> <p>A hoffai IACC/yr Awdurdod Priffyrdd wneud unrhyw sylwadau?</p>
<b>Q11.1.2</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	WF	<p>Mae paragraff 6.2.12 y Datganiad Cynllunio [APP-406] yn cyfeirio at weithlu arfaethedig o 850 yn Safle'r Orsaf Bŵer – ar y sail hon, pam mae angen 1,100 o leoedd parcio parhaol, fel y cynigir yn WN16 y dDCO [APP-029], a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r datganiad ym mharagraff 5.3.7 yr WNC0CP [APP-414] sy'n dweud y bydd lleoedd parcio yn Safle'r Orsaf Bŵer yn cael eu cyfyngu i annog defnydd o'r cyfleuster Parcio a Rhannu a'r bysiau gwennol, ac i leihau nifer y cerbydau preifat a yrrir i'r safle?</p>
<b>Q11.1.3</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	ADC	<p>Mae paragraff 6.2.17 y Datganiad Cynllunio [APP-406] yn dweud y byddai gwelliannau priffyrdd oddi ar y llinell yn arwain at nifer o fuddiannau mewn lleoliadau penodol, ond dim ond un enghraifft mae'n ei rhoi. A all yr Ymgeisydd nodi ble arall, heblaw am Lanfachraeth, a fyddai'n elwa o'r gwaith hwn, yn ei farn ef?</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			Yn Llanfachraeth, disgwylir gostyngiad 60% mewn lefelau traffig – o ystyried bod y pentref hwn yn un cymharol fach mewn ardal wledig, beth yw'r lefelau traffig presennol yn Llanfachraeth ac a ydynt ar lefel sy'n cyfiawnhau dosbarthu'r gostyngiadau arfaethedig fel gwelliant?
<b>Q11.1.4</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	Q	<p>(a) Pwy sy'n darparu gwasanaethau bws ar Ynys Môn ar hyn o bryd?</p> <p>(b) Pryd y dyfarnwyd y contract iddynt a phryd y bydd angen ei adnewyddu?</p> <p>(c) A ystyriwyd y posibilrwydd o ddefnyddio gwasanaethau bws presennol neu'r darparwr bws presennol ar gyfer y gweithlu, ac yn enwedig y cysylltiad rhwng y cyfleuster Parcio a Theithio a'r WNDA?</p> <p>(ch) A ystyriwyd y posibilrwydd o ganiatáu i'r gymuned ehangach ddefnyddio bysiau'r gweithlu?</p> <p>(d) A yw'r Ymgeisydd yn cynnig unrhyw fesurau i wella/cefnogi'r gwasanaethau bws presennol ar yr ynys fel bod y gweithlu lleol yn cael ei annog i deithio'n gynaliadwy?</p>
<b>Q11.1.5</b>	IACC, GCC yr Ymgeisydd a Llywodraeth Cymru	Q	<p>Codwyd pryderon mewn sawl RR ynglŷn â'r ffaith bod rhaid i bontydd Menai a Britannia gau weithiau.</p> <p>A all IACC/GCC roi manylion ynglŷn â'r canlynol:</p> <p>(a) Pa mor aml mae Pontydd Menai a Britannia wedi cau yn ystod y pum mlynedd diwethaf?</p> <p>(b) Pa mor aml y caewyd y ddwy bont ar yr un pryd?</p> <p>(c) Pa fesurau sydd ar waith ar hyn o bryd pan fydd pont yn cau e.e. sut a ble mae traffig yn cael ei ddargyfeirio neu ei ddal, a sut mae hyn yn effeithio ar amserau teithio/tagfeydd?</p> <p>(ch) Cyflwr strwythurol y ddwy bont a ph'un a oes unrhyw waith cynnal</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>a chadw/atgyweirio wedi'i gynllunio yn ystod cam adeiladu'r prosiect a fyddai'n arwain at gau'r naill bont neu'r llall yn rhannol neu'n llawn?</p> <p>A all yr Ymgeisydd gadarnhau:</p> <p>(a) P'un a ystyriwyd cau'r pontydd yn ei asesiad/modelu trafndiaeth?</p> <p>(b) Pa fesurau y mae'n eu cynnig yn ystod y cam adeiladu a gweithredu i reoli traffig os bydd rhaid i un o'r pontydd neu'r ddwy bont gau?</p>
<b>Q11.1.6</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Bwriedir i fwyafrif y nwyddau gael eu cludo ar y môr gan ddefnyddio'r MOLF. A all yr Ymgeisydd gadarnhau a yw'r TA yn cynnwys unrhyw foddelu ar gyfer adegau pan na fyddai'r MOLF ar gael, o bosibl, o ganlyniad i dywydd gwael/difrod storm ac, yn arbennig, p'un a fyddai hyn yn arwain at gynnydd mewn symudiadau traffig ar y rhwydwaith ffyrdd a'r effaith y byddai hyn yn ei chael.
<b>Q11.1.7</b>	GCC	Q	Yn eich RR, amlygoch bryder ynglŷn â phroblem bresennol yn ymwneud â 'pharcio anghyfreithlon' ar Ynys Môn. A allwch chi roi mwy o fanylion ynglŷn â'r hyn rydych chi'n ei feddwl a pham rydych chi'n credu y gallai'r Cais waethygu'r broblem hon?
<b>Q11.1.8</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Er mwyn lleihau symudiadau cerbydau gymaint â phosibl, a archwiliodd yr Ymgeisydd y posibilrwydd o waredu gwastraff o'r safle trwy'r MOLF ac, os felly, pam y'i diystyriwyd fel opsiwn?
<b>Q11.1.9</b>	Yr Ymgeisydd	Q	A all yr Ymgeisydd gadarnhau bod cludo gwastraff adeiladu o'r holl safleoedd ar y ffyrdd wedi cael ei gynnwys yn y modelu traffig, ac amlygu ble yn y dogfennau y gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon.
<b>Q11.1.10</b>	Yr Ymgeisydd, IACC a	Q	Mae'r modelu/asesiad traffig wedi'i seilio ar y dybiaeth y bydd modd danfon mwyafrif y deunyddiau yn uniongyrchol i'r safle trwy'r MOLF. A oes unrhyw

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
	Llywodraeth Cymru		fodelu/cynllun wrth gefn sy'n ymdrin â'r cynnydd posibl mewn symudiadau cerbydau pe byddai oedi wrth adeiladu'r MOLF? Yn arbennig, a fyddai'r rhwydwaith ffyrdd yn gallu ymdopi ag unrhyw symudiadau ychwanegol a allai godi ac, os bydd cynnydd mewn symudiadau, sut byddai hyn yn effeithio ar breswylwyr lleol?
<b>Q11.1.11</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Disgwylir i gapasiti Fferi Caergybi-Dulyn gynyddu 50% erbyn 2020. A gynhwyswyd y cynnydd yn nifer y cerbydau a fyddai'n defnyddio'r gwasanaeth hwn yn y modelu traffig?
<b>Q11.1.12</b>	IACC a Llywodraeth Cymru	Q	Mae traffig adeiladu sy'n gysylltiedig â Phrosiect arfaethedig Cysylltiad Grid Gogledd Cymru wedi cael ei eithrio o'r modelu oherwydd y byddai'n gymharol gyfyngedig (20 cerbyd yr awr i'r ddau gyfeiriad), ac oherwydd bod rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â symudiadau. Yn eich barn chi, o ystyried y lefelau traffig cymharol isel ar Ynys Môn, a ddylai'r symudiadau hyn gael eu cynnwys yn y modelu?
<b>Q11.1.13</b>	NWP	Q	Yn eich RR, rydych yn honni bod y data gwaelodlin a ddefnyddiwyd ar gyfer y modelu/asesiad traffig yn anghywir. A allwch chi roi mwy o fanylion ynglŷn â pham yr ydych yn credu ei fod yn anghywir; pa ddata gwaelodlin ydych chi'n credu y dylai fod wedi cael ei ddefnyddio a pham, a beth fyddai hyn yn ei olygu i'r TA?
<b>Q11.1.14</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Beth yw uchder, lled, hyd a chylch troi mwyaf y cerbydau mwyaf (yn cario llwyth llawn) y mae'r Ymgeisydd yn bwriadu eu defnyddio yn ystod y camau adeiladu a gweithredu?
<b>Q11.1.15</b>	IACC a Llywodraeth Cymru	Q	(a) O ystyried natur wledig y rhwydwaith ffyrdd, a yw'r Awdurdod Priffyrdd yn fodlon bod y rhwydwaith ffyrdd (yn dilyn y gwelliannau arfaethedig i'r ffyrdd) yn gallu ymdopi â swm y traffig a'r llwythi a

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>gynigir ac na fyddai'n cael ei ddifrodi o ganlyniad i'r defnydd gan draffig adeiladu?</p> <p>(b) Os bydd y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei ddifrodi gan draffig adeiladu, pwy fyddai'n gyfrifol am ei atgyweirio?</p> <p>(c) A hoffai'r Awdurdod Priffyrdd awgrymu unrhyw ofynion i leihau effaith traffig adeiladu ar y rhwydwaith ffyrdd gymaint â phosibl a chynnal amodau presennol y ffyrdd yn ychwanegol at y rhai a awgrymwyd eisoes gan yr Ymgeisydd?</p>
<b>Q11.1.16</b>	IACC, GCC a Llywodraeth Cymru		A yw'r awdurdodau lleol yn cytuno â disgrifiad yr Ymgeisydd o'r sefyllfa waelodlin o ran llifoedd traffig, ac a allant gadarnhau p'un a oeddent wedi cyfrannu at gwmpasu'r arolygon trafndiaeth ar gyfer sefydlu'r waelodlin?
<b>Q11.1.17</b>	Yr Ymgeisydd, IACC a Network Rail	Q	<p>Mae paragraff 6.5.10 y Datganiad Cynllunio [APP-406] yn datgan bod digon o gapasiti yn y rhwydwaith rheilffyrdd strategol i ymdopi â'r cynnydd yn y galw yn ystod blynyddoedd cynnar y prosiect – a allwch chi:</p> <p>(a) Roi mwy o fanylion ynglŷn â beth fydd yn digwydd yn ystod gweddill cyfnod y prosiect i sicrhau bod digon o gapasiti ar gael, yn enwedig yn ystod y prif gyfnod adeiladu;</p> <p>(b) Cadarnhau p'un a allai fod angen cyfraniadau gan y datblygwr i gyflawni hyn a beth fyddent yn cael eu defnyddio ar ei gyfer? A</p> <p>(c) Chadarnhau p'un a fyddai gwasanaeth bws yn cysylltu â'r orsaf drenau yn y Fali naill ai'n uniongyrchol i'r WNDA neu'r cyfleuster Parcio a Theithio fel bod defnyddwyr y rheilffordd yn gallu defnyddio'r bysiau gwennol i'r WNDA?</p>
<b>Q11.1.18</b>	Network Rail	Q	A allwch chi roi diweddariad ynglŷn â'r cynigion ar gyfer cyfleuster Parcio a Theithio Abergele yng Ngorsaf Drenau Abergele?
<b>Q11.1.19</b>	Yr Ymgeisydd,	WF	Mae paragraff 5.2.3 yr WNCocP [APP-414] yn ymdrin â rheoli danfoniadau



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
	IACC a Llywodraeth Cymru		<p>i'r safle. A all yr Ymgeisydd:</p> <p>(a) Gadarnhau beth fydd yn digwydd pan fydd y gwelliannau i'r A5025 oddi ar linell y briffordd yn dod i rym o ran amserau danfon?</p> <p>(b) Esbonio pam mae cyfyngiadau ar ddanfoniadau yn ystod amserau dechrau/gorffen yr ysgol wedi'u cynnig ar gyfer y camau adeiladu cychwynnol yn unig (tudalen 12 y TA [APP-101].</p> <p>(c) Cyngori p'un a ddylai cyfyngiadau fod ar waith yn ystod oriau brig y nos hefyd, e.e. 17.00-18.30, er mwyn lleihau tagfeydd gymaint â phosibl?</p> <p>(ch) Esbonio'r hyn a olygir gan 'gyfyngiadau'.</p> <p>(d) Cadarnhau beth fyddai'r oriau danfon – mae'r WNCOP [APP-414] yn awgrymu 07:00-19:00, ond mae'r TA [APP-101] yn datgan y 'gellid defnyddio'r' cyfnod o 19:00 i 23:00.</p> <p>(dd) Esbonio pam y byddai angen i'r ganolfan logisteg weithredu ar sail 24 awr pe byddai danfoniadau'n cael eu cyfyngu i 07:00-19:00 (neu 23:00).</p> <p>A oes gan IACC/Llywodraeth Cymru yr Awdurdod Priffyrdd unrhyw sylwadau ynglŷn â'r trefniadau hyn?</p>
<b>Q11.1.20</b>	Yr Ymgeisydd	Q	<p>Mae paragraff 5.3.5 yr WNCOP [APP-414] yn cyfeirio at ddarparu gwasanaeth bws penodol ar gyfer gweithwyr adeiladu sy'n byw ar Ynys Môn, ond yna mae'n cynnwys Bangor a Chaernarfon sydd ar y tir mawr. A all yr Ymgeisydd gadarnhau:</p> <p>(a) P'un a gynigir gwasanaeth bws penodol ar gyfer gweithwyr sydd wedi'u lleoli ym Mangor a Chaernarfon?</p> <p>(b) A fyddai'r gwasanaeth hwn am ddim neu'n cael ei gymorthdal?</p> <p>(c) A fyddai hyn yn golygu bod angen gosod safleoedd bws newydd neu</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>wella rhai presennol ac, os felly, sut byddai hyn yn cael ei ariannu?</p> <p>(ch) A ystyriwyd y posibilrwydd o ganiatáu i'r gymuned ehangach ddefnyddio'r gwasanaeth hwn?</p> <p>(d) A fyddai'r gwasanaeth yn parhau pan fydd y gwaith yn gweithredu i alluogi gweithwyr i deithio'n gynaliadwy a lleihau traffig ffyrdd gymaint â phosibl?</p>
<p><b>Q11.1.21</b></p>	<p>Yr Ymgeisydd</p>	<p>ADB</p>	<p>Cyfeirir at ddefnyddio bysiau gwennol rhwng y cyfleuster Parcio a Theithio a'r safleoedd adeiladu. A all yr Ymgeisydd:</p> <p>(a) Gadarnhau'r hyn mae'n ei olygu gan 'fws gwennol', oherwydd bod cyfeiriadau eraill yn y dogfennau'n awgrymu mai bysiau mini a gynigir.</p> <p>(b) Os na chynigir bysiau mini, a allwch chi esbonio pam y cynigir lleoedd parcio i 50 o fysiau mini yn y safle Parcio a Theithio a beth fyddai'r bysiau mini'n cael eu defnyddio ar ei gyfer?</p> <p>(c) Os cynigir bysiau mini, a allwch chi esbonio ble y byddai'r rhain yn cael eu parcio/cadw, ac os cynigir darparwr allanol, a yw'r teithiau i/o'r depo i'r safle wedi cael eu cynnwys yn y modelu traffig?</p> <p>(ch) Nodi faint o deithwyr y gallai bws gwennol eu cludo.</p> <p>(d) Esbonio'r hyn a olygir gan dechnoleg 'allyriadau isel' ar gyfer bysiau a chadarnhau p'un a ystyriwyd defnyddio 'bysiau gwennol' trydan neu hybrid.</p> <p>(dd) Nodi pa mor aml y byddai'r bysiau'n rhedeg a faint o deithiau y disgwylir iddynt eu gwneud yn ystod diwrnod.</p> <p>(e) Cadarnhau p'un a fyddai angen i ddefnyddwyr dalu am barcio.</p> <p>(f) Cadarnhau p'un a fyddai'r bws gwennol am ddim neu'n cael ei gymorthdalu?</p> <p>(ff) Cadarnhau y byddai'r bysiau gwennol yn gallu cyrraedd y llwybrau a ddangosir ar Ffigur 5-5 y TA [APP-101]</p> <p>(g) Esbonio pam na chynigir unrhyw fysiau gwennol ar gyfer rhannau</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>dwyreiniol a deheuol yr ynys ar hyn o bryd?</p> <p>Mae'n ymddangos bod gwrthddywediad ym mharagraff 4.2.4 ys is-CoCP Parcio a Theithio (PRSCoCP)[APP-418] gan ei fod yn dweud y byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio ar waith o 06:00 tan 20:00 ond y byddai hefyd yn gweithredu 24 awr, saith diwrnod yr wythnos. A allwch chi:</p> <p>(a) Gadarnhau'r oriau gweithredu; ac  (b) Esbonio sut y byddai defnyddwyr yn cael mynediad at y cyfleuster hwn os nad yw'r gwasanaeth ar gael 24/7.</p>
<p><b>Q11.1.22</b></p>	<p>Yr Ymgeisydd, IACC a Llywodraeth Cymru</p>	<p>ADB</p>	<p>Cynigir sefydlu system adnabod rhifau cerbyd awtomatig (ANPR) ar gyfer cerbydau sy'n defnyddio'r cyfleuster Parcio a Theithio.</p> <p>A all yr Ymgeisydd gadarnhau p'un a yw hefyd yn bwriadu sefydlu system rhwystr mynediad/gadael?</p> <p>A all IACC/Llywodraeth Cymru yr Awdurdod Priffyrdd gadarnhau p'un a ydynt yn fodlon y byddai defnyddio ANPR yn atal cerbydau rhag ciwio ar y briffordd?</p> <p>IACC – yn eich RR, rydych wedi codi amheuan ynglŷn â chydnerthedd y rhwydwaith priffyrdd wrth gyffordd 4 yr A55 – a allwch chi esbonio beth yw'ch pryder?</p>
<p><b>Q11.1.23</b></p>	<p>Yr Ymgeisydd ac IACC</p>	<p>ADB</p>	<p>O ganlyniad i'w leoliad, gallai'r cynllun Parcio a Theithio orlifo. A all yr Ymgeisydd ddisgrifio beth fyddai'n digwydd pe byddai'r cyfleuster yn gorlifo, gan gynnwys beth fyddai'r trefniadau parcio amgen, os o gwbl?</p> <p>A all IACC/yr Awdurdod Priffyrdd nodi pa fesurau a fyddai'n briodol, yn eu</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			barn nhw, pe byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio'n gorlifo?
<b>Q11.1.24</b>	Yr Ymgeisydd, IACC a Llywodraeth Cymru	ADC	<p>A all yr Ymgeisydd:</p> <p>(a) Roi enghreifftiau o gynlluniau eraill lle y defnyddiwyd y System Orlhain Asedau Rheoli Dosbarthiad (DMATS) arfaethedig yn llwyddiannus?</p> <p>(b) Nodi p'un a fydd rhaid i gyflenwyr dalu am ddefnyddio'r system ac a allai hyn atal defnyddio cyflenwyr lleol llai o faint?</p> <p>(c) Sut y bydd cerbydau'n cael eu hatal rhag cyrraedd y ganolfan logisteg yn gynnar neu aros ar y rhwydwaith ffyrdd amgylchynol tan eu hamser cyrraedd a drefnwyd?</p> <p>A yw IACC/Llywodraeth Cymru yr Awdurdod Priffyrdd yn fodlon y bydd defnyddio DMATS yn rheoli danfoniadau fel y disgwylir gan yr Ymgeisydd?</p>
<b>Q11.1.25</b>	Yr Ymgeisydd, IACC a Llywodraeth Cymru	WA/WE	<p>Mae Cod Ymarfer Gweithredu Wylfa Newydd (WNCooP) [APP-421] yn amlinellu cyfres o fesurau sy'n ceisio lleihau teithiau i'r safle mewn car gymaint â phosibl. Pa fesurau a gynigir i leihau teithiau i'r safle mewn car gymaint â phosibl ar gyfer y gweithlu cyfnodau cau?</p> <p>A yw IACC/Llywodraeth Cymru yr Awdurdod Priffyrdd yn fodlon â'r manylion a gynhwysir yn y Strategaeth Teithio Gweithredol arfaethedig fel y'u hamlinellir yn adran 5 y WNCooP?</p>
<b>Q11.1.26</b>	Yr Ymgeisydd a IACC	WA	A yw'r TA yn cynnwys modelu ar gyfer yr effaith y byddai'r 1,000 o weithwyr ychwanegol a fyddai'n ofynnol bob naw mis i ymdrin â chyfnodau cau yn ei chael ar y rhwydwaith ffyrdd?
<b>Q11.1.27</b>	Yr Ymgeisydd ac	Q	Byddai'r cynnig yn arwain at yr angen i gau neu ddargyfeirio nifer o Hawliau

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
	IACC		Tramwy Cyhoeddus (PRoW). Yn ogystal â'r mesurau ffisegol arfaethedig fel arwyddion, a ystyriwyd gwefan/dolen i wefan IACC lle y gellid rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r llwybrau sydd ar gau/wedi'u dargyfeirio a gwybodaeth am lwybrau amgen a graddfeydd amser ac am ba mor hir y byddant ar waith?
<b>Q11.1.28</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae'r orsaf bŵer bresennol (Wylfa A) wrthi'n cael ei datgomisiynu. A all yr Ymgeisydd gadarnhau bod effaith y gwaith hwn, gan gynnwys y symudiadau traffig cysylltiedig, wedi cael ei hystyried yn yr ES a'r TA ar gyfer y cais?
<b>Q11.1.29</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	Q	Mae cyfraniad wedi'i gynnig i ariannu gwelliannau i'r rhwydwaith PRoW er mwyn lleihau effaith colli'r 32 PRoW i effaith niweidiol gymedrol.  Yr Ymgeisydd – faint o gyllid a gynnigir? IACC – Beth fyddai'r arian hwn yn cael ei wario arno ac a fyddai'n ddigonol i leihau'r effaith i un niweidiol gymedrol, fel yr honnir gan yr Ymgeisydd? Os na, pam?
<b>Q11.1.30</b>	IACC	Q	Rydych wedi codi pryderon penodol ynglŷn ag effaith y cynnig ar Lwybr Arfordir Cymru a Lôn Las Copr – faint o bobl sy'n defnyddio'r llwybrau hyn ar hyn o bryd ac a wyddys faint maen nhw'n ei gyfrannu at economi Ynys Môn?
<b>Q11.1.31</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Cynigir PRoW newydd o fewn yr WNDA yn ystod y cam gweithredu yn ogystal â llwybr natur, darparu byrddau picnic, maes parcio newydd a byrddau dehongli. Sut byddai'r rhain yn cael eu sicrhau?
<b>Q11.1.32</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	ADC	Yn ystod y prif gyfnod adeiladu, byddai llif cerbydau nwyddau trwm (HGV) ar hyd yr A5025 yn cynyddu rhwng 71 a 101% (ddwywaith y lefelau

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>presennol). Yr Ymgeisydd:</p> <p>(a) Mae'r TA yn amcangyfrif y byddai 40 o symudiadau HGV yr awr i'r ddau gyfeiriad ar 'adegau brig' h.y. symudiad bob 45 eiliad. A allwch chi gadarnhau yr hyn a olygir gan 'adegau brig' a pha mor hir h.y. wythnos/mis/blwyddyn y disgwylir i hyn ddigwydd.</p> <p>(b) Cadarnhewch b'un a oedd y modelu trafndiaeth ar gyfer traffig ar hyd yr A5025 yn cynnwys y symudiadau a gynhrychir gan y bysiau gwennol parcio a theithio?</p> <p>(c) A allwch chi gadarnhau bod y gwelliannau arfaethedig i'r briffordd oddi ar linell y ffordd wedi cael eu dylunio i ymdopi â'r lefelau hyn o draffig?</p> <p>IACC/yr Awdurdod Priffyrdd – a allwch chi:</p> <p>(a) gadarnhau p'un a ydych chi'n credu bod dyluniad y gwaith priffyrdd arfaethedig oddi ar linell y ffordd yn foddhaol?</p> <p>(b) Yn eich RR, rydych chi'n gofyn i derfyn/trothwy gael ei osod ar nifer y cerbydau HGV a fyddai'n defnyddio'r A5025. A allwch chi esbonio pam rydych yn credu y byddai terfyn o'r fath yn angenrheidiol ac, os yw'n angenrheidiol, beth y dylai fod a sut y dylai gael ei orfodi.</p>
<b>Q11.1.33</b>	Yr Ymgeisydd a Llywodraeth Cymru	Q	Mae paragraffau 3.3.5-3.3.9 yn cyfeirio at Bolisi Cynllunio Cymru 9 (PPW9), yn enwedig mewn perthynas â'r cyfleuster Parcio a Theithio arfaethedig. A oes angen i'r adran hon gael ei diweddarau i adlewyrchu PPW10 sydd ar ddod ac, os felly, a fyddai'n effeithio ar unrhyw un o'r tybiaethau neu'r casgliadau?
<b>Q11.1.34</b>	IACC	Q	A yw'r cais yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y CDLIC sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, yn enwedig polisïau PS11, PS12, TRA1, TRA2 a TRA4? Os na,

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			pam?
<b>Q11.1.35</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae paragraffau 3.4.15-3.4.26 y TA [APP-101] yn cyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol (SPG) IACC ar gyfer adeiladu'r gwaith niwclear newydd yn Wylfa. Os yw SPG drafft 2018 wedi cael eu mabwysiadu, a oes angen i'r adran hon gael ei diweddarau ac, os felly, a fyddai'n effeithio ar unrhyw un o'r tybiaethau neu'r casgliadau?
<b>Q11.1.36</b>	Llywodraeth Cymru	Q	Hyd at 2028, mae'n rhaid i chi dalu toll gysgod i Carillion plc a John Laing group plc am yr A55 yn seiliedig ar niferoedd cerbydau ac argaeledd lonydd hyd at 2028. Sut bydd y cais yn effeithio ar y doll hon ac a oes gennych chi'r adnoddau i ymdopi ag unrhyw gynnydd a allai godi o ganlyniad i'r Cais?
<b>Q11.1.37</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Cynigir lle parcio diogel, dan orchudd i barcio beiciau ar gampws y safle i annog dewisiadau teithio cynaliadwy at ddibenion hamdden (paragraff 5.1.44 y TA [APP-101]). Mae hyn yn dibynnu ar y ffaith bod gweithwyr sydd wedi'u lleoli ar gampws y safle yn dod â beiciau gyda nhw. A fyddai Horizon yn ystyried darparu beiciau i annog patrymau teithio cynaliadwy?
<b>Q11.1.38</b>	IACC	Q	A allwch chi gadarnhau bod Tabl 5-3 y TA [APP-101] yn cynnwys y datblygiad cyfan yr ymrwymwyd iddo?
<b>Q11.1.39</b>	IACC	Q	Yn eich RR, rydych yn nodi yr hoffech weld mwy o opsiynau parcio a rhannu mewn lleoliadau strategol eraill addas. A allwch chi gadarnhau: (a) Beth rydych chi'n ei olygu gan barcio a rhannu? (b) Sut byddai hyn yn wahanol i'r dewis rhannu ceir a gynigir gan yr Ymgeisydd? (c) Ym mha lleoliadau strategol yr hoffech weld cyfleusterau o'r fath; a (ch) Pha gyfran o draffig gweithwyr yr hoffech ei gweld yn defnyddio

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			cyfleuster o'r fath?
<b>Q11.1.40</b>	IACC	Q	A ydych chi'n cytuno â'r tybiaethau a wnaed gan yr Ymgeisydd mewn perthynas â rhannu ceir o ran y galw am barcio ceir (7.3.11- 7.4.12 y TA [APP-101]). Os na, pa ffigurau ydych chi'n credu y dylid eu defnyddio a sut byddai hyn yn effeithio ar nifer y lleoedd y bydd eu hangen?
<b>Q11.1.41</b>	IACC	Q	Mae'r Ymgeisydd wedi nodi y byddai'n disgwyl i weithwyr rheoli cyfleusterau rannu ceir. Fodd bynnag, o ystyried bod mwyafrif y rhain yn debygol o fod yn byw gartref, a ydych chi'n credu bod y dybiaeth hon yn gywir? Os na, pam?
<b>Q11.1.42</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae gweithwyr rheoli cyfleusterau ar gyfer Campws y Safle yn tybio rhaniad o 70% ar gyfer y sifft ddydd a 30% ar gyfer y sifft nos. Fodd bynnag, gan y byddai mwyafrif y gweithwyr adeiladu'n defnyddio'r cyfleusterau yn y nos, a yw'r dybiaeth hon yn gywir?  Mae'n ymddangos bod y modelu trafndiaeth yn defnyddio ffigur o 350 o weithwyr cyfleusterau. Fodd bynnag, mewn rhan arall o'r dogfennau, rhoddir ffigur o 690 ar gyfer cyfnod brig blwyddyn 5 (paragraff 2.4.13 y Crynodeb Annhechnegol o'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd [APP-427]). A allwch chi gadarnhau bod y modelu traffig a'r cyfrifiadau parcio wedi ystyried y nifer hon o staff cyfleusterau?
<b>Q11.1.43</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Cynhaliwyd y TA ar y sail y byddai 1,500 o weithwyr yn dod o'r tu allan i'r DU. A gynhaliwyd unrhyw foddelu i asesu beth fyddai'r goblygiadau i'r TA os, o ganlyniad i Brexit, na fydd yn bosibl recriwtio gweithwyr o Ewrop ac felly y byddai angen mwy o weithwyr o'r DU ac Iwerddon?
<b>Q11.1.44</b>	Yr Ymgeisydd	Q	(a) A fyddai Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin (AILs), yn enwedig y



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>rhai y mae angen iddynt gael eu hebrwng, yn cael eu trefnu i deithio y tu allan i oriau brig y bore a'r nos?</p> <p>(b) A allwch chi gadarnhau p'un a fyddai'n rhaid i AILs deithio trwy'r Ganolfan Logisteg neu a fyddent yn mynd yn uniongyrchol i'r WNDA?</p> <p>(c) Os bwriedir iddynt fynd yn uniongyrchol i'r WNDA, sut byddent yn cael eu rheoli i sicrhau na fyddent yn achosi tagfeydd ar yr A5025 ar gyfer traffig adeiladu arall?</p>
<b>Q11.1.45</b>	Yr Ymgeisydd	ADB	O ran y cyfleuster parcio a theithio, mae Pennod F1 paragraff 1.1.7 yn datgan bod y gwaith ar y cyfleuster yn cynnwys cylchfan newydd. [I1] Nid yw'n eglur p'un a fyddai'r gylchfan hon yn cael ei chadw neu ei datgomisiynu ar ôl i'r orsaf bŵer gael ei hadeiladu. A all yr Ymgeisydd gadarnhau?
<b>Q11.1.46</b>	Yr Ymgeisydd	ADD	O ran y gwelliannau i'r A5025 oddi ar linell y briffordd, mae Pennod G1 yn gwneud sawl cyfeiriad at adfer cyfadeiladau (e.e. paragraffau 1.5.24, 1.5.27, 1.5.36, 1.5.55, 1.5.60, 1.5.75, 1.5.80, 1.5.100), ond nid yw'n ymddangos bod adfer wedi'i sicrhau yn y dDCO. A all yr Ymgeisydd gadarnhau sut y byddai adfer yn cael ei sicrhau?
<b>Q11.1.47</b>	IACC	ADC	<p>Mae Adran 3 yr is-CoCP Gwelliannau i'r A5025 Oddi ar Linell y Briffordd [APP-420] yn amlinellu'r ymgynghoriad cyn-gychwyn ar gyfer eiddo a busnesau o fewn 100m o'r gwaith arfaethedig. O ystyried maint Ynys Môn a phwysigrwydd yr A5025 fel llwybr gogledd/de, a ydych chi'n credu bod hyn yn ddigonol?</p> <p>Os ydych chi'n credu y byddai hyn yn annigonol, pa fesurau eraill yr hoffech i'r Ymgeisydd eu cynnal?</p>
<b>Q11.1.48</b>	IACC	Q	Esboniwch statws cynllunio Parc Cybi (y Ganolfan Logisteg).
<b>Q11.1.49</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	ADB ac ADC	Esboniwch ymhellach y rhesymeg wrth wraidd safleoedd ar wahân ar gyfer y ganolfan logisteg a'r safle Parcio a Theithio. Pam na fyddai'r ddau safle'n

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			cael eu cydleoli?
<b>Q11.1.50</b>	Llywodraeth Cymru, IACC a'r Ymgeisydd	Q	<p>Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y llwybr a ffeirir ar gyfer trydedd groesfan ar draws Afon Menai, gyda'r bwriad o ddechrau ei hadeiladu yn 2021.</p> <p>Llywodraeth Cymru – a allwch chi roi rhagor o fanylion am y llwybr arfaethedig a'r rhaglen adeiladu ac unrhyw sylwadau ar sut y gallent effeithio ar y cais?</p> <p>Yr Ymgeisydd – nid ydych wedi cynnwys y drydedd groesfan yn y '<i>Rhestr fer o safleoedd prosiectau yn y dyfodol sy'n rhesymol ragweladwy</i>' [APP-397] – a allwch chi esbonio pam na chynhwyswyd y groesfan a ph'un a ddylai gael ei chynnwys yn awr?</p> <p>Nid yw'r groesfan wedi'i chynnwys yn yr ES ar hyn o bryd (ES Cyfrol 1 – Effeithiau cronol 12 – Cwmpas tudalen 16) yn amodol ar drafodaethau pellach â Llywodraeth Cymru – Rhowch ddiweddariad ar y trafodaethau hyn a ph'un a oes angen i'r ddogfen hon a/neu'r ES gael eu diweddarau o ganlyniad iddynt.</p> <p>IACC – a oes gennych unrhyw sylwadau?</p>
<b>12.</b>	<b>Newid Arfordirol</b>		
<b>Q12.0.1</b>	Yr Ymgeisydd	WD	Golygwch Bennod D12 [APP-131] paragraff 12.4.14 i gyfeirio at Ffigur D-12.
<b>Q12.0.2</b>	Yr Ymgeisydd	WC	Golygwch Bennod D12 paragraff 12.4.39 i gyfeirio at Ffigur D-3.
<b>Q12.0.3</b>	Yr Ymgeisydd	WC	Pennod D12 paragraff 12.5.60 – a all yr Ymgeisydd egluro ystyr "Pe byddai angen, byddai gweithdrefnau ychwanegol fel setliad yn cael eu darparu i fodloni'r terfyn hwn ym mhennod D1" [APP-120]

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q12.0.4</b>	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	WC/WD	A all yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fanylu ar y pryderon yn ei RR [RR-053] ynglŷn â chasgliadau'r wybodaeth hydro-geomorffoleg, hydrodynameg a dynameg tonnau a gynhwysir yn y cais?
<b>Q12.0.5</b>	Yr Ymgeisydd ac NRW	WC	Mae NRW yn dweud yn ei RR [RR-088] bod angen mwy o wybodaeth i ddangos na fydd newidiadau i brosesau arfordirol o ganlyniad i bresenoldeb y strwythurau morol yn effeithio ar gefn graean Lagŵn Cemlyn. A wnaiff yr Ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth hon?
<b>13.</b>	<b>Cwestiynau Cyffredinol</b>		
<b>Q13.0.1</b>	Yr Ymgeisydd ac IACC	Q	Mynegwyd pryderon bod yr enwau a ddefnyddiwyd ar gyfer safle'r cais yn anghywir ac mai'r enwau cywir ar gyfer y safle cyfan yw Cors Tyddyn Waen, Cors Tŷ Coch a Chors Bron Haul. A allai'r Ymgeisydd/IACC roi gwybod beth yw'r enwau cywir, yn eu barn nhw, a sicrhau bod unrhyw ddogfennau/gohebiaeth yn defnyddio'r enwau lleoedd cywir o hyn ymlaen.
<b>Q13.0.2</b>	Yr Ymgeisydd	WA	A all yr Ymgeisydd gadarnhau bod yr adeiladau – yn enwedig yr adweithydd a'r adeiladau storio gweddillion tanwydd – wedi cael eu dylunio i leihau'r posibilrwydd o ddifrod/distryw i'r eithaf o ganlyniad i ddigwyddiadau hinsoddol unigryw (fel Tswnami) neu ymosodiad terfysgol?
<b>Q13.0.3</b>	IACC a Menter Môn	Q	Rhowch ddiweddariad ar gynnydd y cais am statws Awyr Dywyll ac, os bu'n llwyddiannus, y goblygiadau i unrhyw strategaeth oleuo ar gyfer y cynnig.
<b>Q13.0.4</b>	Yr Ymgeisydd	Q	A allwch chi ddarparu dogfen gyfeirio/rhestr termau sy'n rhestru'r holl brif fyrfoddau a ddefnyddir drwy gydol dogfennau'r cais, megis WAMS, CoCP, CEMP, WAS ac ati, mewn un man?
<b>Q13.0.5</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae sawl cyfeiriad drwy gydol y dogfennau Cod Ymarfer Adeiladu at beidio

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			â gweithio ar Wyliau Banc (e.e. paragraff 4.2.2 yr is-CoCP Parcio a Theithio [APP-418]). A all yr Ymgeisydd gadarnhau ei fod yn golygu gwyliau Banc a Chyhoeddus a diwygio'r dogfennau fel y bo'r angen?
<b>Q13.0.6</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Byddai gweithwyr adeiladu'n symud rhwng safleoedd. A oes perygl y gallai halogiad gael ei drosglwyddo rhwng safleoedd gan weithwyr ac, os felly, pa fesurau ydych chi'n eu cynnig i sicrhau na fyddai hyn yn digwydd?
<b>14.</b>	<b>Dyluniad Da</b>		
<b>Q14.0.1</b>	Yr Ymgeisydd	WA	Esboniwch pam nad oes unrhyw Luniadau Dylunio Manwl yn Rhan 6 o Atodlen 2 y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) [APP-029] ar gyfer unrhyw un o'r adeiladau a'r strwythurau arfaethedig ar y Prif Safle allan gyda safle'r Ynys Bŵer.
<b>Q14.0.2</b>	Yr Ymgeisydd a Chyngor Sir Ynys Môn (IACC), Comisiwn Dylunio Cymru (DCfW) a Phartïon â Buddiant	WA	O ran safle'r Orsaf Bŵer a'r Datganiad Dylunio a Mynediad, Cyfrol 2 [APP-408]:  (a) A yw'r egwyddorion dylunio a nodwyd yn Rhan 5 yn ddigonol i fodloni'r 'Meini Prawf Dyluniad Da ar gyfer seilwaith ynni' mewn perthynas ag 'estheteg' a amlinellwyd yn adran 4.5 o EN-1 ac a fyddent wedi'u sicrhau'n ddigonol yn y dDCO [APP-029];  (b) A yw'r cysyniad o 'Fframwaith Grid' (para. 4.1.9) i danategu'r ymagwedd at ddyluniad, cynllun ac uwchgynllunio yn briodol ac a ydyw wedi'i wireddu'n dda yn y cynigion dylunio a chynllun a amlinellwyd yn y Datganiad Dylunio a Mynediad Cyfrol 2 [APP-408];  (c) A yw'r palet tirwedd dangosol arfaethedig (Adran 6.2); y palet deunyddiau cyffredinol (Adran 6.4) a'r palet lliwiau (para. 4.1.22 ff) yn foddhaol ac a fyddent wedi'u sicrhau'n ddigonol yn y dDCO [APP-029]?

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
<b>Q14.0.3</b>	Yr Ymgeisydd, IACC a DCfW	WA	<p>O ran yr adeiladau arfaethedig ar safle'r Orsaf Bŵer y tu allan i'r Ynys Bŵer (yr adeiladau 'math swyddfa' a 'diwydiannol'):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) A fyddai'r mecanweithiau cywir ar waith i gyflawni rhagoriaeth bensaernïol;</li> <li>(b) A ddylai trefniadau gael eu diogelu i sicrhau adolygiad dylunio parhaus o'r elfennau hyn wrth i'r prosiect fynd rhagddo; ac</li> <li>(c) A fyddai gwerth i gynnal cystadlaethau dylunio neu bensaernïol i gyflawni adeiladau o ragoriaeth sy'n ategu'r buddsoddiad sylweddol mewn cynhyrchu pŵer ac yn ychwanegu gwerth at brofiad cyflogeion, ymwelwyr a thrigolion?</li> </ul>
<b>Q14.0.4</b>	Yr Ymgeisydd, IACC, NRW, NT a Phartion â Buddiant	WF	<p>A yw'r ymagwedd at ddylunio a'r cynigion ar gyfer Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd (WNDA) yn bodloni amcanion y prosiect a amlinellwyd yn adran 2.3 o'r Datganiad Dylunio a Mynediad Cyfrol 1 [APP-407] o ran:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) Integreiddio cynaliadwyedd ym mhob dyluniad ffisegol;</li> <li>(b) Datblygu ymagwedd werdd a chynaliadwy wrth ddatblygu a rheoli'r adeiladau a gweithgareddau gweithredol; a</li> <li>(c) Sicrhau bod yr holl elfennau wedi'u dylunio i gysylltu â harddwch a chymeriad amrywiol Ynys Môn a gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol cyn belled ag y bo modd?</li> </ul> <p>Os na, beth arall ddylid ei wneud a sut ellid ei sicrhau?</p>
<b>Q14.0.5</b>	Yr Ymgeisydd, IACC, DCfW, NRW a Phartion â Buddiant	WF	<p>A yw'r Egwyddorion Dylunio Gorsaf Bŵer a amlinellwyd yn y Datganiad Dylunio a Mynediad Cyfrol 2 [APP-408] Adran 5 (tudalen 700 ff), yn briodol ac yn ddigonol i gyflawni'r amcanion canlynol a bennwyd ym mhara. 1.5.2 y ddogfen hon [APP-408] ac os nad ydynt, beth ellid gwneud yn ei gylch:</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<ul style="list-style-type: none"> <li>(a) Adlewyrchu pwysigrwydd ei leoliad ar Ynys Môn;</li> <li>(b) Cynnal diwylliant ac iaith unigryw Ynys Môn;</li> <li>(c) Integreiddio cynaliadwyedd ym mhob dyluniad fffisegol;</li> <li>(d) Datblygu ymagwedd werdd a chynaliadwy wrth ddatblygu a rheoli'r adeiladau a gweithgareddau gweithredol;</li> <li>(e) Adeiladu ar etifeddiaeth yr Orsaf Bŵer Bresennol, a helpu i greu menter gadarnhaol ar gyfer Ynys Môn;</li> <li>(f) Sicrhau bod yr holl elfennau'n cael eu dylunio i gysylltu â harddwch a chymeriad amrywiol Ynys Môn a gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol cyn belled ag y bo modd?</li> </ul>
<b>Q14.0.6</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Esboniwch sut fydd yr egwyddorion dylunio ar gyfer cynigion goleuo, a gweithredu cynigion goleuo ar bob safle yn ymateb i gynnig IACC am Statws Gwarchodfa Awyr Dywyll, ac yn cynnig egwyddorion a pholisiau sy'n ymateb yn gadarnhaol i'r fenter hon?
<b>Q14.0.7</b>	IACC, DCfW a Phartion â Buddiant	WE	<p>Gan ystyried ei leoliad gerllaw ffin Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn, a yw'r Datganiad Dylunio a Mynediad [APP-409]; y cynlluniau o'r paramedr a nodwyd yn Atodlen 2, Rhan 4 a'r Gofynion mewn perthynas â Gwaith Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer Rhif 5, yn Atodlen 3 o'r dDCO [APP-029] yn bodloni amcanion y polisi cynllunio mewn perthynas â chyflawni datblygiad cynaliadwy o ansawdd uchel ar gyfer y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer; gan gyfeirio at:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) Egwyddorion dylunio;</li> <li>(b) Strategaeth uwchgynllunio;</li> <li>(c) Cynaliadwyedd amgylcheddol;</li> <li>(d) Cynigion tirlunio caled a meddal – gan gynnwys cynigion i blannu;</li> <li>(e) Ôl-troed, uchder a chrynswth adeiladau a strwythurau;</li> <li>(f) Deunyddiau a phaletau lliwiau;</li> </ul>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>(g) Triniaethau wyneb;  (h) Goleuadau;  (i) Triniaethau ffiniau;  (j) Hygyrchedd;  (k) Diogelwch y gymuned;  (l) Cyfundrefnau cynnal a chadw; a  (m) Chynigion dylunio dangosol.</p> <p>Ac os na, beth ddylid gwneud yn ei gylch?</p>
<b>Q14.0.8</b>	Yr Ymgeisydd	WE	<p>O ran cynigion y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a ddisgrifiwyd yn y Datganiad Dylunio a Mynediad [APP-409]:</p> <p>(a) Esboniwch pam mae'n angenrheidiol parcio pedwar cynhwysydd ISO yn barhaol (wedi'u stacio fesul pâr) yn yr agored ar y safle a ph'un a ymchwiliwyd i opsiynau gwahanol, er enghraifft, o fewn yr Ynys Bŵer?</p> <p>(b) A ellid gwneud darpariaeth ar gyfer parcio/storio beiciau a phwyntiau gwefru cerbydau trydan ar y safle?</p>
<b>Q14.0.9</b>	IACC	WE	<p>A yw'r berthynas rhwng yr adeilad MEEG/AECC arfaethedig ar safle'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a'r eiddo preswyl i'r dwyrain o'r adeilad arfaethedig yn foddhaol – gweler y Datganiad Dylunio a Mynediad Cyfrol 3 Rhan 1) [APP-409] Ffigurau 20 (tudalen 41) a 32 (tudalen 55). Os nad ydyw, pam?</p>
<b>Q14.0.10</b>	IACC, DCfW, NT, Partneriaeth Gogledd Ynys Môn (NAP) a	ADA	<p>A yw'r Datganiad Dylunio a Mynediad [APP-409]; cynllun y paramedr a nodwyd yn Atodlen 2, Rhan 4 a'r Gofynion mewn perthynas â Gwaith Campws y Safle Rhif Gwaith 3, yn Atodlen 3 o'r dDCO [APP-029], yn cynnwys y dimensiynau mwyaf a ddangosir yn WN20, yn bodloni amcanion</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
	Phartion â Buddiant		<p>y polisi cynllunio mewn perthynas â chyflawni datblygiad cynaliadwy o ansawdd uchel ar gyfer Campws y Safle; gan gyfeirio at:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) Egwyddorion dylunio;</li> <li>(b) Strategaeth uwchgynllunio;</li> <li>(c) Cynaliadwyedd amgylcheddol;</li> <li>(d) Cynigion tirlunio caled a meddal – gan gynnwys cynigion i blannu;</li> <li>(e) Ôl-troed, uchder a chrynswth adeiladau a strwythurau;</li> <li>(f) Deunyddiau a phaletau lliw;</li> <li>(g) Triniaethau wyneb;</li> <li>(h) Goleuadau;</li> <li>(i) Triniaethau ffiniau;</li> <li>(j) Hygyrchedd;</li> <li>(k) Diogelwch y gymuned;</li> <li>(l) Cyfundrefnau cynnal a chadw; a</li> <li>(m) Chynigion dylunio dangosol.</li> </ul> <p>Os na, beth ddylid gwneud yn ei gylch?</p>
<b>Q14.0.11</b>	Yr Ymgeisydd	ADA	<p>O ran y cynigion ar gyfer Campws y Safle a amlinellwyd yn y Datganiad Dylunio a Mynediad [APP-409]:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) Nodwch y lleoliad arfaethedig ar gyfer cyfleuster iechyd Campws y Safle ac esboniwch sut fydd cerbydau gwasanaethau ac ambiwlansys yn mynd ato?</li> <li>(b) Esboniwch y deunydd y byddai'r 'paneli cladid effaith pren' arfaethedig yn cael ei wneud ohono; sut fyddent yn cael eu gosod ar yr adeiladau a'r safonau y maent yn eu bodloni ar gyfer delio ag amodau tywydd eithafol a diogelwch tân?</li> <li>(c) Disgrifiwch y cynigion ar gyfer sylfeini adeiladau Campws y Safle a'r</li> </ul>



Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			<p>mecanwaith ar gyfer tynnu'r adeiladau hynny ac adfer y tir yn ystod proses datgomisiynu Campws y Safle?</p> <p>(d) Disgrifiwch sut fyddai offer ar ben toeon blociau adeiladau Campws y Safle yn cael eu cuddio o'r golwg, gan gynnwys o bell?</p>
<b>Q14.0.12</b>	Yr Ymgeisydd, IACC, DCfW a Phartion â Buddiant	ADB	<p>A yw'r Datganiad Dylunio a Mynediad [APP-410]; Cynlluniau o'r Paramedr a nodwyd yn Atodlen 2, Rhan 4; y Cynlluniau Dylunio Manwl a nodwyd yn Atodlen 2, Rhan 6 a'r Gofynion mewn perthynas â'r Cyfleuster Parcio a Theithio Rhif Gwaith 6 yn Atodlen 3 o'r dDCO [APP-029] yn bodloni amcanion y polisi cynllunio mewn perthynas â chyflawni datblygiad cynaliadwy o ansawdd uchel ar y cyfleuster Parcio a Theithio yn Dalar Hir; gan gyfeirio at:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) Egwyddorion dylunio;</li> <li>(b) Strategaeth uwchgynllunio;</li> <li>(c) Cynaliadwyedd amgylcheddol;</li> <li>(d) Cynigion tirlunio caled a meddal – gan gynnwys cynigion i blannu;</li> <li>(e) Ôl-troed, uchder a chrynswth adeiladau a strwythurau;</li> <li>(f) Deunyddiau a phaletau lliwiau;</li> <li>(g) Triniaethau wyneb;</li> <li>(h) Goleuadau;</li> <li>(i) Triniaethau ffiniau;</li> <li>(j) Hygyrchedd;</li> <li>(k) Diogelwch cymunedol;</li> <li>(l) Cyfundrefnau cynnal a chadw; a</li> <li>(m) Strategaeth ôl-weithredu.</li> </ul> <p>Os na, beth ddylid gwneud yn ei gylch?</p>
<b>Q14.0.13</b>	Yr Ymgeisydd,	ADC	Gan ystyried ei leoliad o fewn AHNE Ynys Môn, a yw'r Datganiad Dylunio a

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
	IACC, DCfW a Phartion â Buddiant		<p>Mynediad [APP-409, APP-410]; y cynlluniau o'r paramedr a nodwyd yn Atodlen 2, Rhan 4; y Cynlluniau Dylunio Manwl a nodwyd yn Atodlen 2, Rhan 6 a'r Gofynion mewn perthynas â'r Ganolfan Logisteg Rhif Gwaith 7 yn Atodlen 3 o'r dDCO [APP-029] yn bodloni amcanion y polisi cynllunio mewn perthynas â chyflawni datblygiad cynaliadwy o ansawdd uchel ar gyfer y Ganolfan Logisteg ym Mharc Cybi; gan gyfeirio at:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) Priodoldeb y defnydd arfaethedig ar gyfer y safle;</li> <li>(b) Oriau gweithredu;</li> <li>(c) Egwyddorion dylunio;</li> <li>(d) Strategaeth uwchgynllunio;</li> <li>(e) Cynaliadwyedd amgylcheddol;</li> <li>(f) Cynigion tirlunio caled a meddal – gan gynnwys cynigion i blannu;</li> <li>(g) Ôl-troed, uchder a chrynswth adeiladau a strwythurau;</li> <li>(h) Deunyddiau a phaletau lliwiau;</li> <li>(i) Triniaethau wyneb;</li> <li>(j) Goleuadau;</li> <li>(k) Triniaethau ffiniau;</li> <li>(l) Hygyrchedd;</li> <li>(m) Diogelwch cymunedol;</li> <li>(n) Cyfundrefnau cynnal a chadw; a</li> <li>(o) Strategaeth ôl-weithredu.</li> </ul> <p>Os na, beth ddylid gwneud yn ei gylch?</p>
<b>Q14.0.14</b>	Yr Ymgeisydd	ADA	A ddylid darparu cynllun diwygiedig i liniaru pryderon ynghylch effaith weledol Campws arfaethedig y Safle? Os na, pam? Sut fyddai cyflawni a phennu camau yn cael eu sicrhau drwy'r dDCO?
<b>15.</b>	<b>Defnydd Tir</b>		
<b>Q15.0.1</b>	Yr Ymgeisydd	Q	O ystyried maint cyfyngedig Wylfa A a'r ôl-troed cyfyngedig arfaethedig

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			sydd ei angen ar gyfer cyfadeilad arfaethedig yr orsaf bŵer (236 hectar) a all yr ymgeisydd naill ai ddarparu datganiad neu amlygu ble yn nogfennau'r cais, heblaw am baragraff 6.5.16 o'r Datganiad Cynllunio [APP-406], y gellir gweld y cyfiawnhad dros faint o dir (407 hectar) sydd ei angen ar gyfer Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd (WNDA)?
<b>Q15.0.2</b>	Yr Ymgeisydd, IACC, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Phartion â Buddiant	Q	<p>Mae PPW9 yn datgan na ddylid datblygu tir comin ac na ddylid atal neu rwystro mynediad yn ddiangen:</p> <p>(a) A oes unrhyw ran o'r tir naill ai o fewn WNDA neu ar gyfer y safleoedd datblygu cysylltiedig wedi'i dosbarthu yn dir comin?</p> <p>(b) Os felly, a all yr ymgeisydd ddarparu map neu gynllun yn amlygu'r ardaloedd sydd wedi'u dosbarthu yn dir comin? a</p> <p>(c) Pha fesurau a gynigir i sicrhau bod mynediad yn cael ei gynnal neu, lle caiff mynediad ei gyfyngu neu'i golli, bod hwn yn cael ei leihau?</p>
<b>Q15.0.3</b>	Yr Ymgeisydd	WF	<p>(a) Darparwch gynllun, ac os oes angen, tabl cysylltiedig sy'n dangos yn ffisegol lleoliad y Dosbarthiadau Tir Amaethyddol amrywiol ar gyfer WNDA.</p> <p>(b) Faint o WNDA fyddai wedi'i ddsbarthu fel Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV)?</p> <p>(c) Mae Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 6 yn rhoi cyngor ynglŷn â BMV. Sut fyddai'r cynnig yn cydymffurfio â'r cyngor hwn?</p>
<b>Q15.0.4</b>	Yr Ymgeisydd	ADC	<p>A fyddai unrhyw dir BMV yn cael ei golli o ganlyniad i'r Newidiadau arfaethedig i briffordd yr A5025?</p> <p>A fyddai'r newidiadau arfaethedig i briffordd yr A5025 yn arwain at unrhyw faterion gwahanu o bobtu'r ffordd ar gyfer ffermydd neu fusnesau ar hyd y</p>

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			llwybr arfaethedig?
<b>Q15.0.5</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Ym mha fodd y delir â thor-amodau cynlluniau amaeth-amgylcheddol posibl yn y tymor byr a'r hirdymor gan y Cais? Pwy fyddai'n cymryd y cyfrifoldeb am ddelio ag unrhyw dor-amodau, yr Ymgeisydd neu lofnodwr y cynllun, os mai'r llofnodwr ydyw, a yw'r Ymgeisydd yn cynnig unrhyw gymorth neu gyngor iddo?
<b>16.</b>	<b>Angen am y datblygiad</b>		
<b>Q16.0.1</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae paragraff 1.3.15 y Datganiad Cynllunio [APP-406] yn dweud na fu unrhyw newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau ers mabwysiadu EN-1 ac EN-6. O ystyried i'r dogfennau hyn gael eu mabwysiadu yn 2011, a all yr ymgeisydd ymhelaethu ar y datganiad hwn a darparu rhagor o dystiolaeth ynglŷn â sut ddaeth i'r casgliad hwn?
<b>Q16.0.2</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Mae paragraff 5.2.3 y Datganiad Cynllunio [APP-406] yn cyfeirio at ostyngiad mewn capasiti trydan gan gyfeirio at lo. Er bod gorsafoedd pŵer sy'n rhedeg ar lo yn cael eu diddymu, mae nifer yn cael eu trosi i nwy. A yw hyn yn cael ei ystyried yn y datganiad hwn ac os nad ydyw, sut mae hyn yn effeithio ar gapasiti?
<b>Q16.0.3</b>	Yr Ymgeisydd	WA	A all yr Ymgeisydd ddarparu ymatebion i baragraffau 6.4.11 a 6.4.23 o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear drafft diwygiedig: Prif Adroddiad yn ei Ddatganiad Cynaliadwyedd [APP-426]?
<b>Q16.0.4</b>	Yr Ymgeisydd	Q	Yn NPS-EN6 mae paragraff 1.7.4 yn datgan mai un o brif ganfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Niwclear yw bod "Cydberthynasau allweddol rhwng bioamrywiaeth ac effeithiau cynaliadwyedd eraill wedi'u nodi. Roedd y rhain yn ymwneud yn fwyaf nodedig â rheoli perygl llifogydd, ansawdd

Cyfeirnod	Ymatebwr:	Lleoliad:	Cwestiwn:
			dŵr a chymunedau cynaliadwy." A all yr Ymgeisydd adrodd ar y cydberthynasau hyn yn y Datganiad Cynaliadwyedd?
<b>17.</b>	<b>Cyd-destun Polisi</b>		
<b>Q17.0.1</b>	IACC a Llywodraeth Cymru	Q	<p>Mae'r Ymgeisydd wedi gwneud asesiad o'r datblygiad arfaethedig yn erbyn Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) EN-1 ac EN-6, yn ogystal ag ystyried polisi cynllunio sy'n benodol i Gymru (Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol [TANs]) a pholisiau cynlluniau datblygu lleol yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r datblygiad.</p> <p>(a) A yw IACC a Llywodraeth Cymru yn fodlon fod y Datganiad Cynllunio yn mynd i'r afael â'r holl agweddau perthnasol ar Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol, polisi Cymru a pholisiau cynlluniau datblygu?</p> <p>(b) A yw IACC a Llywodraeth Cymru'n cytuno â chasgliadau'r ymgeisydd fod y 'Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio â'r profion polisi cynllunio perthnasol'?</p>
